

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

52/2024

DYDDIAD CYHOEDDI:

18/07/2024

Gwerthusiad o Wasanaeth Cymru'n Gweithio: Adroddiad Terfynol

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-312-9

Teitl: Gwerthusiad o Wasanaeth Cymru'n Gweithio: Adroddiad Terfynol

Is-deitl: Papur Strategol

Awdur(on): Anna Burgess, Andy Parkinson, Oliver Allies, Paula Gallagher, Jakob Abekhon ac Endaf Griffiths

wavehill

Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Adroddiad Ymchwil Llawn: Burgess, A., Parkinson, A., Allies, O., Gallagher, P., Abekhon, J. a Griffiths, E. (2024). *Gwerthusiad o Wasanaeth Cymru'n Gweithio: Adroddiad Terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 52/2024
Ar gael fan yma: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-wasanaeth-cymrun-gweithio-adroddiad-terfynol>

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Sean Homer

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	2
Rhestr o ffigurau	3
Geirfa.....	4
1. Cyflwyniad a Chefndir	5
2. Methodoleg	8
3. Cyd-destun Polisi	14
4. Trosolwg o'r Cymorth sy'n cael ei Gynnig	32
5. Deall Model y Gwasanaeth a Photensial i'r Dyfodol	66
6. Casgliadau	73
7. Argymhellion	81
8. Cyfeiriadau	84
Atodiad Un: Offer Ymchwil	88
Atodiad Dau: Hysbysiadau Preifatrwydd	100
Atodiad Tri: Newidynnau a Ddadansoddwyd	112

Rhestr o dablau

Tabl 4.1: Demograffeg cwsmeriaid Cymru'n Gweithio	42
Tabl 4.2: Amgylchiadau ychwanegol cwsmeriaid yn ôl achosion	43
Tabl 4.3: Statws cyflogaeth cwsmeriaid ar gyrchu Cymru'n Gweithio, % yr achosion fesul blwyddyn	44
Tabl 4.4: Lefel cymhwyster cwsmeriaid, % yr achosion fesul blwyddyn.....	45
Tabl 4.5: Modd rhyngweithio cwsmeriaid, yn ôl teipoleg awdurdod lleol ac achosion cwsmeriaid bob blwyddyn	56

Rhestr o ffigurau

Ffigur 3.1: Cyfraddau diweithdra yng Nghymru (16–64 oed)	19
Ffigur 3.2: Cyfraddau anweithgarwch economaidd yng Nghymru (16–64)	20
Ffigur 3.3: Cyfraddau NEET yng Nghymru (16–18 a 19–24)	21
Ffigur 3.4: Hysbysebion swyddi ar-lein yng Nghymru (hysbysebion swyddi unigryw ar gyfartaledd wedi'u mynegeo ym mis Chwefror 2020)	22
Ffigur 3.5: Bylchau sgiliau yng Nghymru.....	23
Ffigur 4.1: Achosion cwsmeriaid Cymru'n Gweithio, fesul blwyddyn a grŵp oedran	35
Ffigur 4.2: Canran y trigolion mewn ward a oedd yn gwsmeriaid Cymru'n Gweithio, wedi'i mapio fesul ward	37
Ffigur 4.3: Cwsmeriaid sy'n ymgysylltu â Chymru'n Gweithio (Chwefror 2019–Mawrth 2023), fesul awdurdod lleol.....	38
Ffigur 4.4: Dosbarthiad daearyddol cwsmeriaid Cymru'n Gweithio	39
Ffigur 4.5: Achosion bob blwyddyn, yn ôl grwpiau oedran	40
Ffigur 4.6: Canran y rhyngweithiadau yn ôl math.....	46
Ffigur 4.7: Y llwybrau atgyfeirio cyntaf i raglen Cymru'n Gweithio	50
Ffigur 4.8: Cymorth a dderbyniwyd gan gwsmeriaid bob blwyddyn, % yr achosion yn ôl dull rhyngweithio	54
Ffigur 4.9: Modd rhyngweithio cwsmeriaid, yn ôl teipoleg yr awdurdod lleol	55
Ffigur 4.10: Safleoedd cydleoli Cymru'n Gweithio.....	58
Ffigur 4.11: Atgyfeiriadau Cymru'n Gweithio i gymorth arall	63

Geirfa

Acronym/Allweddair	Diffiniad
CV	Curriculum Vitae
DWP	Adran Gwaith a Phensiynau
JGW+	Twf Swyddi Cymru Plws
NEET	Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
OECD	Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd

1. Cyflwyniad a Chefnidir

- 1.1 Mae [Cymru'n Gweithio](#) yn wasanaeth sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac a luniwyd i ddarparu cymorth cyflogadwyedd symlach ac effeithlon sy'n ymateb i anghenion yr unigolyn. Wedi'i gyflwyno yn 2019, nod y gwasanaeth yw darparu cyngor cyflogadwyedd a gyrfaoedd rhad ac am ddim a diduedd ledled Cymru, ac mae'n cael ei gyflawni ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Gyrfa Cymru.
- 1.2 Prif swyddogaeth Cymru'n Gweithio yw darparu pwynt mynediad 'dull un tîm' i Gymru gyfan¹ i gynnig cymorth cyflogadwyedd. Mae'n galluogi unigolion i siarad â chynghorwyr gyrfaoedd achrededig am gyflogaeth a sgiliau, eu nodau a'u dyheadau, ac unrhyw heriau y maent yn eu hwynebu wrth gael a chynnal gwaith, addysg neu hyfforddiant neu ddatblygu eu gyrfa.
- 1.3 Cyn yr achosion o goronafeirws (COVID-19) yn 2020, roedd cyngor ac arweiniad Cymru'n Gweithio yn cael eu darparu wyneb yn wyneb yn swyddfeydd Gyrfa Cymru, o bell drwy wasanaethau ffôn ac ar-lein, mewn safleoedd Canolfan Byd Gwaith Lleol, ac mewn lleoliadau allgymorth cymunedol (e.e. llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol). Arweiniodd y gofyniad i aros gartref oherwydd cyfyngiadau symud COVID-19 dan orchymyn y llywodraeth yn 2020 a 2021 at fwy o alw am wasanaethau rhithwir. Yn sgil hyn, datblygwyd darpariaeth cyfarfodydd rhithwir i gwsmeriaid. Ers i gyfyngiadau aros gartref a/neu aros yn lleol COVID-19 gael eu codi yn 2021, mae cymorth Cymru'n Gweithio wedi parhau i fod ar gael wyneb yn wyneb ac o bell.

Trosolwg o gwmpas a pharmedrau'r gwerthusiad

- 1.4 Yn 2019, gwnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Wavehill i edrych ar effeithiolrwydd, effeithlonrwydd ac effaith Cymru'n Gweithio. Yn ystod camau cychwynol y gwerthusiad, datblygwyd theori newid a fframwaith gwerthuso, fel y manylir yn [y Gwerthusiad o Wasanaeth Cymru'n Gweithio: Adroddiad 1](#). Yn dilyn hyn, lluniwyd [papur crynodeb o'r gwerthusiad](#), y cyntaf mewn cyfres yn cyflwyno canfyddiadau o gyflawniad y gwasanaeth. Mae'r Papur Gwledig a Threfol, Papur

¹ Mae'r dull 'un tîm' yn golygu, waeth beth fo anghenion unigolyn o ran cyngor gyrfaoedd neu gymorth cyflogadwyedd, y byddant yn gallu cael mynediad at wasanaeth Cymru'n Gweithio a chael eu cyfeirio at y cymorth mwyaf priodol.

Ffoaduriaid a Mudwyr, a'r Papur Strategol hwn (yr adroddiad terfynol) o gam olaf y gwerthusiad.

1.5 Mae'r cwestiynau ymchwil allweddol sy'n llywio'r cam olaf hwn o'r gwerthusiad fel a ganlyn:

- A yw manteision y 'dull un tîm' yn cael eu gwireddu?
- A yw'r gwasanaeth yn hygyrch, yn enwedig i gwsmeriaid mewn ardaloedd mwy gwledig? Mae'r term 'hygyrch' yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at fynediad daearyddol.
- Pa fodolau sy'n gweithio'n dda (cydleoli gwasanaethau gyda phartneriaid, gwasanaethau galw heibio cymunedol, ac ati)?
- Beth all y gwasanaeth ei wneud i fod yn fwy cynhwysol? Bydd hyn yn ystyried ble mae bylchau cydraddoldeb o ran mynediad at wasanaethau, yn seiliedig ar nodweddion demograffig neu ddaearyddol, a chaiff ei fframio o amgylch grwpiau sy'n wynebu'r bwlch mwyaf.
- Wrth gefnogi pobl ifanc i gyflawni eu teithiau gydol oes unigol eu hunain, a yw Cymru'n Gweithio yn cyrraedd y rhai a fyddai'n elwa o ymwneud â Chymru'n Gweithio? Os na, pa newidiadau y mae angen i'r gwasanaeth eu hystyried er mwyn cynyddu cyrhaeddiad? Sut mae cwsmeriaid yn dod i mewn i'r gwasanaeth a pha weithgareddau allgymorth/ymgysylltu sydd ar waith?
- Beth mae'r gwasanaeth yn ei gynnig ar draws ardaloedd a sut mae'n rhyngweithio â sefydliadau partner, gwasanaethau, y galw, ac amodau'r farchnad lafur?

Strwythur yr adroddiad

1.6 Nod yr adroddiad hwn yw asesu'r model cyflawni a fabwysiadwyd gan Gymru'n Gweithio, gan ystyried lle mae'n gweithio'n dda, lle mae bylchau'n amlwg yn y gwasanaeth, ac, wrth edrych ymlaen, potensial y gwasanaeth i'r dyfodol. Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro o dan y penawdau canlynol:

- Methodoleg – mae'r adran hon yn rhoi manylion am y dulliau a ddefnyddiwyd yng ngham olaf y gwaith maes ac yn ystyried y cyfyngiadau methodolegol a wynebwyd.
- Cyd-destun Polisi – mae'r adran hon yn archwilio tarddiad y gwasanaeth, sut mae'n cyd-fynd â pholisïau a rhaglenni cenedlaethol presennol, a thueddiadau economaidd-gymdeithasol a thueddiadau'r farchnad lafur ar hyn o bryd.
- Trosolwg o'r Cymorth sy'n cael ei Gynnig – mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o ddata monitro Cymru'n Gweithio, gan asesu cyrhaeddiad y gwasanaeth. At hynny, mae'r adran hon yn archwilio canfyddiadau staff a rhanddeiliaid o fodel cyflawni presennol Cymru'n Gweithio a'r cymorth ehangach sy'n cael ei gynnig.
- Dealltwriaeth o Fodel y Gwasanaeth a Photensial i'r Dyfodol – mae'r adran hon yn rhoi asesiad o effeithiolrwydd presennol model Cymru'n Gweithio, gan amlygu'n benodol y cryfderau a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r model yn ogystal â safle cyfarwyddyd gyrfaoedd o fewn y model.
- Casgliadau ac Argymhellion – mae'r adran hon yn darparu cyfres grynodol o ganfyddiadau ac argymhellion yn seiliedig ar waith dadansoddi drwy gydol yr adroddiad.

2. Methodoleg

- 2.1 Mae'r adran hon yn rhoi manylion y dull methodolegol a ddefnyddiwyd yng ngham olaf gwerthusiad Cymru'n Gweithio sydd wedi llywio'r adroddiad terfynol hwn. Ymhellach, mae'r adran hon yn archwilio'r cyfyngiadau methodolegol ychwanegol a wynebwyd a'r ystyriaethau a gymerwyd.

Dulliau a gweithgareddau ymchwil

- 2.2 Mae gwaith maes ac ymchwil ddesg a wnaed i lywio'r adroddiad strategol terfynol hwn yn cynnwys:
- Adolygiad thematig o lenyddiaeth ynghylch sefyllfa strategol Cymru'n Gweithio. O fewn yr ymchwil ddesg hon, cynhaliodd ymchwilwyr chwiliadau helaeth ar draws ffynonellau amrywiol gan gynnwys papurau polisi a strategaeth Llywodraeth Cymru, adroddiadau gwerthuso eraill, astudiaethau, a llenyddiaeth gyhoeddedig arall. Ar ôl curadu deunyddiau perthnasol, bu'r ymchwilwyr yn dadansoddi'n feirniadol ac yn crynhoi canfyddiadau allweddol yn ymwneud â Chymru'n Gweithio. Roedd y gwaith o gyfosod y wybodaeth hon yn cynnwys nodi patrymau, anghysondebau a bylchau yn y llenyddiaeth a oedd yn bodoli eisoes. Ymgwymerwyd â'r broses hon i roi'r gwerthusiad yn ei gyd-destun er mwyn sicrhau y gall canfyddiadau'r gwerthusiad gyfrannu'n ystyrlon at y corff hwn o waith. Sylwch fod rhestr lawn o gyfeiriadau'r ffynonellau i'w gweld yn Adran 8.
 - Dadansoddiad meintiol manwl o wybodaeth fonitro ar lefel rhaglen a ddarparwyd gan Gyrfa Cymru. Mae'r data hyn yn cynnwys pob un o'r 95,164 o gwsmeriaid unigol Cymru'n Gweithio rhwng mis Chwefror 2019 a mis Mawrth 2023 yn ogystal â 120,730 o achosion cwsmeriaid a nodwyd o fewn yr un cyfnod amser. Mewn llawer o achosion, gwnaeth cwsmeriaid gael cymorth gan Cymru'n Gweithio sawl gwaith. Mae'r derminoleg ganlynol wedi'i defnyddio wrth ddisgrifio'r ffordd yr oedd cwsmeriaid yn ymwneud â gwasanaeth Cymru'n Gweithio:

- Pan fo'r adroddiad hwn yn cyfeirio at **ymgysylltiad cwsmeriaid**, mae hyn yn cyfeirio at y cwsmeriaid unigryw sydd wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth.
- Pan fo'r adroddiad hwn yn cyfeirio at **achosion cwsmeriaid**, dyma gyfanswm nifer yr achlysuron yr oedd angen cymorth ar gwsmeriaid. Mae staff Cymru'n Gweithio yn aml yn gweithio gyda chwsmer ar sawl achlysur; caiff pob achlysur ei gofnodi fel 'achos'. Gall achos fod yn un diwrnod (e.e. lle mae angen un rhyngweithiad yn unig) neu gall ymestyn i sawl mis (e.e. cymorth ReAct+ i gwsmer a ddiswyddwyd sy'n edrych am gyfeiriad gyrfa newydd). Bydd cyfanswm achosion cwsmeriaid (120,730) yn cynnwys cwsmeriaid a wnaeth ddechrau a chael cymorth gan y gwasanaeth sawl gwaith. Mae'n bwysig nodi y gall amgylchiadau cwsmeriaid newid rhwng achosion gwahanol, er enghraifft efallai y bydd gan gwsmer statws marchnad lafur gwahanol neu efallai y bydd yn byw mewn lleoliad gwahanol. Pan fo'r newidynnau hyn yn digwydd, mae'r gwaith dadansoddi wedi'i gynnal fesul achos cymorth yn hytrach na chwsmer er mwyn deall yn llawn y cymorth y mae'r gwasanaeth wedi'i ddarparu.²
- Mae **rhyngweithiadau cwsmeriaid** yn cyfeirio at y dulliau a ddefnyddiwyd gan gwsmeriaid i ymgysylltu â'r gwasanaeth e.e. drwy alwad ffôn neu wyneb yn wyneb. Mae rhestr lawn o newidynnau'r mathau o rhyngweithio a ddadansoddiwyd i'w gweld yn Atodiad Tri.
- Cyfweiliadau manwl lled-strwythuredig â 28 o staff rheoli a chyflawni i fyfyrion ar fodol presennol Cymru'n Gweithio, ei effeithiolrwydd, ei gryfderau a'i heriau, ac ystyriaethau yn y dyfodol i sicrhau bod y model yn cyflawni ei weledigaeth i fod yn bwynt mynediad i Gymru gyfan. Cynhaliwyd y cyfweiliadau hyn rhwng Gorffennaf a Medi 2023.

² Noder, mewn rhai sefyllfaoedd, bod y gwaith dadansoddi wedi'i gynnal drwy ddadansoddi achos cyntaf y cwsmer bob blwyddyn ac felly nid yw'n cynnwys pob achos o gymorth Cymru'n Gweithio. Pan fo hyn yn digwydd mae nodyn wedi'i gynnwys yn ffynhonnell y graff i egluro.

- Cyfweiliadau manwl lled-strwythuredig ar-lein â 14 o randdeiliaid mewnol ac allanol i archwilio effeithiolrwydd model presennol Cymru'n Gweithio a rôl Cymru'n Gweithio yn y dyfodol. Staff Gyrfa Cymru oedd y rhanddeiliaid mewnol, ac unigolion a gyflogwyd y tu allan i Gyrfa Cymru ond a oedd yn gweithio gyda gwasanaeth Cymru'n Gweithio oedd y rhanddeiliaid allanol. Cynhaliwyd y cyfweiliadau hyn rhwng Awst a Hydref 2023. Dadansoddwyd yr holl ddata ansoddol yn thematig gan ddefnyddio methodolegau theori sylfaenol³.
- Arolwg ymhlith cyfanswm o 167 o gwsmeriaid sydd wedi derbyn cymorth Cymru'n Gweithio i gasglu adborth ar ddewisiadau cymorth cwsmeriaid a'u safbwyntiau ynghylch gwasanaeth Cymru'n Gweithio. Cynhaliwyd yr arolwg hwn rhwng Awst a Hydref 2023. Rhoddodd Gyrfa Cymru fanylion cyswllt i Wavehill ar gyfer 354 o gwsmeriaid a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2023 (sy'n gyfradd ymateb o 47 y cant). Dewiswyd y cwsmeriaid hyn am eu bod wedi ymgysylltu'n ystyrlon (o leiaf dri rhyngweithiad) â'r gwasanaeth o fewn tri mis cyn cynnal yr arolwg ac felly roeddent mewn sefyllfa dda i roi adborth ar eu profiadau o'r gwasanaeth. Er mwyn sicrhau bod y gwerthusiad yn ymwneud â chwsmeriaid ar draws ystod o wahanol leoliadau daearyddol, dewiswyd cwsmeriaid yng Nghaerdydd, Abertawe, Gwynedd a Wrecsam. O'r 167 o gwsmeriaid a arolygwyd, cynhaliwyd 25 arolwg wyneb yn wyneb mewn canolfannau Cymru'n Gweithio yn y pedwar awdurdod lleol gan dîm ymchwil Wavehill (15 y cant o'r sampl) a chynhaliwyd 142 arolwg ar-lein neu dros y ffôn drwy blatfform arolwg Qualtrics (85 y cant o'r sampl). Dadansoddwyd yr holl ddata meintiol gan ddefnyddio Excel a/neu StatsIQ ar blatfform Qualtrics.

Cyfyngiadau ac ystyriaethau

- 2.3 Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith, er bod yr adroddiad hwn wedi cynnal amrywiaeth o ddadansoddiadau helaeth o wybodaeth fonitro ar lefel rhaglen, bod systemau rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM) a ddefnyddiwyd gan Gyrfa Cymru

³ Bryman, A., [Quantity and Quality in Social Research](#), 1998 a Charmaz, K., [Grounded Theory: Objectivist and Constructivist Methods](#), yn N.K. Denzin a Y.S. Lincoln (gol.) *Handbook of Qualitative Research* 2nd Edition, 2000.

wedi'u newid yn 2021, sy'n golygu bod rhai newidynnau wedi'u gwaredu a bod opsiynau ychwanegol wedi'u hychwanegu ar y cam hwn. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r dadansoddiad wedi gallu nodi lle y dylid uno ffynonellau gwybodaeth; er enghraifft, mae rhaglenni blaenorol fel ReAct III ac Access wedi'u cyfuno wrth ffurfio rhaglen newydd ReAct+. Felly, mae'n bosibl na fydd y ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, o ddadansoddi gwybodaeth fonitro amrwd ar lefel y rhaglen, yn cyd-fynd â ffigurau adrodd cyfanredol a ddarparwyd gan y gwasanaeth i Lywodraeth Cymru.

- 2.4 Gan fod y gwaith o gyflawni Cymru'n Gweithio wedi dechrau ym mis Chwefror 2019, a bod y gwaith blynyddol o gasglu data ar gyfer y rhaglen yn para tan fis Mawrth, roedd y 'flwyddyn' gyntaf o gyflawni yn cynnwys 14 mis. At ddibenion dadansoddi, mae'r data wedi'i gyfanredu fesul blwyddyn galendr ac felly mae'n bwysig nodi bod data o 2019 yn cynrychioli cwsmeriaid a gafodd gymorth rhwng mis Chwefror 2019 a mis Rhagfyr 2019.
- 2.5 Ar gyfer 29,990 o achosion, noder nad oedd data ar gael am y math o ryngweithio â'r cwsmer. Mae nifer o ffactorau mewnol sy'n cyfrif am hyn gan gynnwys newidiadau mewn adroddiadau rheoli cysylltiadau cwsmeriaid a amlygwyd uchod a natur heriol adrodd ar rai elfennau o gyflawni gan gynnwys gwaith mewn carchardai ac atgyfeiriadau mewnol. Er nad oes gennym unrhyw ddata ar ryngweithiadau (y dull o ymgysylltu â'r gwasanaeth), drwy drafodaethau â rheolwyr y rhaglen, rydym yn hyderus yn y mwyafrif o achosion bod y cofnodion hyn yn ymwneud â chwsmeriaid sydd wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth ac felly rydym wedi dewis cynnwys yr achosion hyn yn ein dadansoddiad.
- 2.6 Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith nad oedd data lleoliad ar gael ar gyfer deg y cant o holl gwsmeriaid Cymru'n Gweithio (9,041/95,164). Mae hyn oherwydd Polisi Cadw ac Archifo'r rhaglen sy'n gwaredu'r data hwn o system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid y rhaglen unwaith y bydd tair blynedd busnes wedi mynd heibio. Yn ogystal, cofnodwyd bod 158 o gwsmeriaid (0.2 y cant o'r sampl gyfan) yn byw y tu allan i Gymru, gyda 60 ohonynt yn gwsmeriaid sy'n hanu o Gymru sydd ar hyn o bryd yn bwrw dedfrydau carchar yn Lloegr ac felly'n gymwys i gael cymorth.

- 2.7 Er mwyn nodi cyfanswm y ffoaduriaid a'r mudwyr sy'n ymgysylltu â Chymru'n Gweithio, mae'r gwaith dadansoddi wedi cyfuno cyfanswm nifer y cwsmeriaid a nodwyd fel ffoaduriaid a cheiswyr lloches ag unrhyw gwsmeriaid ychwanegol nad oeddent wedi'u dosbarthu o dan y naill categori na'r llall ond a gyfeiriwyd at Gymru'n Gweithio gan wasanaeth sy'n cynorthwyo ffoaduriaid a/neu mudwyr yn unig, e.e. Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Chanolfannau Croeso lleoli i bobl o Wcráin.
- 2.8 O fewn gwybodaeth fonitro, mae ffoaduriaid a mudwyr yn cael eu hadnabod yn ôl 'gwlad wreiddiol' (yn hytrach na chenedligrwydd). Dim ond yn 2022 y dechreuodd Cymru'n Gweithio gasglu'r wybodaeth hon mewn ymateb i'r gwrthdaro yn Wcráin.
- 2.9 Cydnabyddir na fyddai categoreiddio rhanbarthau ledled Cymru i categori deuaidd, 'trefol' neu 'wledig', o lawer o ddefnydd ac ni fyddai'n darparu digon o fanylion i archwilio tueddiadau ar draws ystod amrywiol o feysydd. Er mwyn sicrhau bod y gwasgariad amrywiol o ardaloedd daearyddol ledled Cymru yn cael ei nodi'n effeithiol, mae diffiniadau canlynol Llywodraeth Cymru wedi'u defnyddio wrth ddadansoddi:
- Awdurdodau gwledig – Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, a Sir Fynwy. Cyfeirir at y rhain yn aml fel y naw awdurdod lleol 'gweddol wledig'.
 - Awdurdodau'r cymoedd – Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, a Thorfaen. Mae'r rhain wedi'u dewis fel y pum awdurdod sy'n cynnwys rhannau o ardal weithredu Blaenau'r Cymoedd.
 - Awdurdodau trefol – Abertawe, Caerdydd, a Chasnewydd. Dyma'r aneddiadau mwyaf yng Nghymru.
 - Awdurdodau eraill – Sir y Fflint, Wrecsam, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg⁴.
- 2.10 Fel yr amlygwyd uchod, cynhaliwyd arolygon cwsmeriaid wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd, Abertawe, Wrecsam a Gwynedd i sicrhau bod y gwerthusiad yn ymgysylltu â chwsmeriaid ar draws ystod o leoliadau daearyddol gwahanol. Er bod

⁴ Llywodraeth Cymru (2008) ['Cymru wledig' - Diffiniadau a sut i ddewis rhwyg hwy](#).

hyn wedi galluogi'r gwerthusiad i gael ystod eang o adborth ar draws ardaloedd penodol, efallai nad yw'n gynrychioliadol o'r garfan ehangach o gwsmeriaid. Yn yr un modd, er bod cyfweiliadau ar-lein a thros y ffôn wedi eu cynnal i sicrhau bod canfyddiadau o ddarpariaeth o bell rhaglen Cymru'n Gweithio yn cael eu harchwilio hefyd, roedd mwyafrif yr holl gwsmeriaid a gyfwelwyd wedi bod i safle Cymru'n Gweithio (95 y cant; 158/167). O ganlyniad, mae'n bosibl nad yw canfyddiadau'r arolwg yn gynrychioliadol o gwsmeriaid a ddefnyddiodd y gwasanaeth o bell yn unig.

3. Cyd-destun Polisi

Tarddiad y gwasanaeth

- 3.1 Cyflwynwyd gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn 2019 i gynnig cymorth cyflogadwyedd symlach ac effeithlon wedi'i deilwra i anghenion unigolion⁵. Mae Cymru'n Gweithio yn cael ei ddarparu gan Gyrfa Cymru, is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru. Mae Cymru'n Gweithio yn darparu cyngor, gwybodaeth a chanllawiau gyrfaoedd a chyflogadwyedd annibynnol a diduedd, yn ddwyieithog ac am ddim. Mae hefyd yn darparu mynediad at hyfforddiant i helpu cwsmeriaid i gael gwaith neu ddatblygu eu gyrfa. Mae Cymru'n Gweithio yn cael ei ddarparu gan gynghorwyr gyrfaoedd sydd â chymwysterau proffesiynol. Maent yn helpu cwsmeriaid i fod yn fwy effeithiol wrth reoli a chynllunio eu datblygiad gyrfa yn llwyddiannus.
- 3.2 Mae gwasanaeth Cymru'n Gweithio wedi'i ymgorffori yn y weledigaeth ehangach a gyflwynwyd yn strategaeth Ffyniant i Bawb 2017⁶. Nod y strategaeth yw adeiladu Cymru sy'n ffyniannus a diogel, yn iach ac egnïol, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, ac yn unedig a chysylltiedig. Mae rhoi sgiliau i bobl a darparu cyflogaeth ddiogel a chynaliadwy iddynt yn cael eu cyflwyno fel camau hollbwysig ar y llwybr tuag at well lles a mwy o ffyniant.
- 3.3 Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Cynllun Gweithredu ar yr Economi⁷. Fe'i dyluniwyd i gyfrannu at bob un o'r meysydd blaenoriaeth sydd wedi'i diffinio yn strategaeth Ffyniant i Bawb drwy hybu twf cynhwysol, h.y. cynyddu cyfoeth a lles tra'n lleihau anghydraddoldeb. Pwyslais allweddol yn y cynllun yw cefnogi pobl 'pa le bynnag y maen nhw ar yr ysgol waith, gan eu helpu i symud yn nes at waith, i gael a chadw gwaith ac i symud yn eu blaen yn eu gwaith⁸ er mwyn sbarduno ffyniant.

⁵ Llywodraeth Cymru (2019) [Cymru'n Gweithio — Briffio i Randdeiliaid](#).

⁶ Llywodraeth Cymru (2017) [Ffyniant i Bawb: y Strategaeth i Gymru](#).

⁷ Llywodraeth Cymru (2017) [Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu ar yr Economi](#).

⁸ Llywodraeth Cymru (2017) [Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu ar yr Economi](#) (t.19).

- 3.4 Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd⁹, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, yn amlinellu'r dull newydd y mae Llywodraeth Cymru am ei ddefnyddio i geisio darparu cymorth cyflogadwyedd. Mae'r prif flaenoriaethau sy'n cael eu nodi yn y cynllun yn cynnwys:
- Hybu cyfranogiad, dilyniant a chyflogaeth ymysg ieuenctid.
 - Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd.
 - Hybu Gwaith Teg i bawb.
 - Cynorthwyo pobl sydd â chyflwr iechyd hirdymor i weithio.
 - Codi lefelau sgiliau a chymwysterau, a symudedd y gweithlu.
- 3.5 Mae Cymru'n Gweithio yn chwarae rhan allweddol wrth ddileu'r bwloch mewn cyfraddau diweithdra a lefelau cymwysterau rhwng Cymru a chyfartaledd y DU o fewn 10 mlynedd. Y nod yw lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET), tra'n cefnogi pobl ddi-waith ac economaidd anweithgar yn ogystal â'r rhai sydd mewn perygl o golli swyddi i gael gwaith a gyrfaoedd parhaus.
- 3.6 Mae'r Rhaglen Lywodraethu 2021–2026¹⁰ yn dangos ymrwymiad newydd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu swyddi gweddus yn ogystal â chymorth cyflogadwyedd sy'n meithrin sgiliau perthnasol a chyfleoedd hyfforddi newydd.
- 3.7 Ym mis Tachwedd 2021, pwysleisiodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i gefnogi cyflogadwyedd pobl ifanc drwy gyhoeddi'r [Warant i Bobl Ifanc](#). Nod y cynllun yw cynnig cymorth i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yng Nghymru i ennill lle mewn addysg neu hyfforddiant, dod o hyd i swydd neu ddod yn hunangyflogedig. Dyluniwyd gwasanaeth Cymru'n Gweithio fel llwybr syml i gael mynediad at raglenni a gwasanaethau sydd wedi'u teilwra i bobl ifanc, megis [Twf Swyddi Cymru + a Syniadau Mawr Cymru](#).
- 3.8 Mae'r egwyddorion sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015¹¹ hefyd yn cyd-fynd yn agos â dyluniad gwasanaeth Cymru'n Gweithio. Ymhlith y nodau llesiant cenedlaethol sydd wedi'u pennu gan y Ddeddf mae 'Cymru lewyrchus', y deallir ei bod yn gymdeithas 'sy'n datblygu poblogaeth

⁹ Llywodraeth Cymru (2022) [Cynllun Cyflogadwyedd](#).

¹⁰ Llywodraeth Cymru (2021) [Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026: Datganiad Llesiant](#).

¹¹ Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (dim dyddiad) [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#).

fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas'.¹² Er mwyn cyflawni'r nod llesiant, mae pum dull o weithio yn cael eu hyrwyddo yn y Ddeddf ((Meddwl) Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio, a Chynnwys). Mae Cydweithio ac Integreiddio wrth wraidd y rhesymeg dylunio ar gyfer gwasanaeth Cymru'n Gweithio.

Sut mae'r gwasanaeth yn cyd-fynd â rhaglenni cenedlaethol

- 3.9 Mae gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn gweithredu fel porth am ddim i gymorth cyflogaeth wedi'i deilwra sydd ar gael i unrhyw un 16 oed neu hŷn ac sy'n byw yng Nghymru¹³. Yn ogystal â darparu cymorth ac arweiniad uniongyrchol ar yrfaeodd, gall cynghorwyr gyrfaoedd Cymru'n Gweithio nodi anghenion unigolyn a'u cyfeirio at wasanaethau a rhaglenni addas eraill, o ystyried eu gwybodaeth helaeth o'r cymorth sydd ar gael yn lleol a chenedlaethol. O ganlyniad, mae gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn gallu ymestyn cyrhaeddiad gwasanaethau cymorth gyrfaoedd i gymunedau a helpu pobl ar draws ystod ehangach o anghenion a sefyllfaoedd yn y farchnad lafur. Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos rhai o'r rhaglenni niferus wedi'u targedu a fu'n gyrchfannau atgyfeirio aml drwy wasanaeth Cymru'n Gweithio.

ReAct III a React +

- 3.10 Rhwng 2015 a 2019, roedd ReAct III yn canolbwyntio ar gynorthwyo pobl ddi-waith tymor byr yn ogystal â phobl sydd dan rybudd o golli eu swydd¹⁴. Mae'r rhaglen olynol, [ReAct+](#), yn cynorthwyo'r un grwpiau targed sydd wedi colli eu swydd neu sydd mewn perygl o golli eu swydd, a hefyd yn cynorthwyo unigolion dros 18 oed sy'n gyn-droseddwyr neu'n droseddwyr sy'n bwrw dedfryd gymunedol, yn ogystal ag unigolion 18–24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET). Nod ReAct+ yw lleihau'r amser cyn i unigolion ddod o hyd i gyflogaeth newydd a chynaliadwy, drwy ddarparu'r sgiliau angenrheidiol i'r unigolion. Mae'r rhaglen hefyd yn helpu i leddfu effeithiau negyddol colli swydd cyn dod o hyd i swydd newydd.

¹² Llywodraeth Cymru (2021) [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015 - Yr Hanfodion](#).

¹³ Noder y gall plant 15 oed sy'n byw yng Nghymru sydd wedi gadael yr ysgol hefyd ddefnyddio'r gwasanaeth. Yn yr achosion hyn, bydd y person ifanc wedi eu geni'n ddiweddarach yn y flwyddyn academaidd (h.y. mis Gorffennaf neu Awst) ac, felly, ar fin troi'n 16 oed.

¹⁴ Noder bod amryw iteriadau o raglen ReAct wedi bodoli ers mis Mehefin 2004.

Mae'n gwneud hyn drwy ddarparu cymorth ariannol drwy grant Cymorth Datblygu Personol. Mae'r grant yn helpu unigolion i oresgyn rhwystrau i hyfforddiant a/neu gyflogaeth nad ydynt yn ymwneud â sgiliau nac wedi'u cwmpasu gan grantiau 'annibynnol' eraill, megis gofal a threuliau. Gallai hyn gynnwys trwyddedau/tocynnau ac ESOL yn achos anghenion iaith llai dwys.

Twf Swyddi Cymru +

- 3.11 Mae [Twf Swyddi Cymru +](#) wedi ei dargedu at bobl ifanc (16–19 oed), yn enwedig y rhai sydd ar fin gadael addysg amser llawn neu'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant amser llawn ac, felly, yn bell o'r farchnad lafur. Ar draws tair elfen y rhaglen (ymgysylltu, datblygu, cyflogaeth), rhoddir cyfle i bobl ifanc fagu eu hyder, datblygu sgiliau, ennill cymwysterau a chael profiad gwaith.

Cymunedau am Waith a Mwy

- 3.12 Mae [Cymunedau am Waith a Mwy](#) yn cynnig cyngor cyflogaeth arbenigol a mentora dwys wedi'u teilwra i bobl sy'n perthyn i grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli yn y farchnad lafur (ifanc, hŷn, anabl, lleiafrifoedd ethnig, a phobl â chyfrifoldebau gofalu). Mae mentor yn cwrdd ag unigolion o fewn eu cymuned leol, yn nodi anghenion unigol, ac yn eu cynorthwyo yn ystod y camau nesaf.

Busnes Cymru

- 3.13 Mae [Busnes Cymru](#) yn darparu cyngor annibynnol am ddim i bobl sy'n dechrau, rhedeg neu dyfu busnes yng Nghymru¹⁵. Mae'n cynnig arweiniad arbenigol ar ystod eang o sectorau (e.e. diwydiannau creadigol a ffilmio, bwyd a diod, morol a physgodfeydd) ac yn cynghori busnesau ar bob cam ynghylch agweddau amrywiol sy'n ymwneud â rhedeg busnes (e.e. trethi, hyfforddiant, allforio).

Cyfrifon Dysgu Personol

- 3.14 Mae'r fenter [Cyfrifon Dysgu Personol](#) yng Nghymru yn galluogi unigolion 19 oed neu hŷn i fanteisio ar gyrsiau rhan-amser i ennill sgiliau a chymwysterau perthnasol, gyda phwyslais ar y sectorau â blaenoriaeth gwyrdd a digidol. Mae'r cynllun wedi'i anelu at y rheini sy'n ennill o dan £30,596 (gydag eithriadau), sy'n wynebu

¹⁵ Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) [Cefnogaeth i'ch busnes gan Busnes Cymru](#).

ansicrwydd o ran swydd neu sy'n ceisio newid gyrfa. Mae cyrsiau'r Cyfrifon Dysgu Personol yn cael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru a gellir cael mynediad iddynt ar ôl cyfweliad digidol gydag ymgynghorydd Cymru'n Gweithio cyn iddynt gael eu derbyn.

Prentisiaethau Llywodraeth Cymru

Cynllun Prentisiaethau

- 3.15 Mae [Cynllun Prentisiaethau](#) Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfle i unigolion 16 oed neu hŷn ennill profiad gwerthfawr yn y llywodraeth tra'n ennill cyflog. Mae'r cynllun yn cynnig prentisiaethau ym meysydd Digidol, Data a Thechnoleg, Busnes a Gweinyddu, a Chyllid.


Tueddiadau'r farchnad lafur

- 3.16 Mae'r adran ganlynol yn rhoi trosolwg o dueddiadau'r farchnad lafur yng Nghymru. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn rhoi cyd-destun i'r amgylchiadau y mae Cymru'n Gweithio wedi gweithredu ynddynt hyd yn hyn. Fel y gwelir isod, amharodd pandemig COVID-19 yn ddifrifol ar dueddiadau'r farchnad lafur, gan ei gwneud yn ofynnol i wasanaeth Cymru'n Gweithio addasu i newidiadau ym mhroffiliau'r cleientiaid. Ar ôl rhoi trosolwg cyffredinol o dueddiadau'r farchnad lafur, bydd yr adroddiad yn mynd ymlaen i archwilio'n fanwl dair thema — datblygiadau technolegol, newid demograffig, a'r pontio i sero net — y rhagwelir y byddant yn cael effaith drawsnewidiol ar farchnad lafur Cymru. Bydd datblygiadau yn y meysydd hyn yn newid yn sylweddol y gofynion sgiliau ar gyfer gweithlu Cymru'r dyfodol, sydd, yn ei dro, yn peri gofynion newydd ar wasanaethau cymorth cyflogaeth fel Cymru'n Gweithio.

Y cyd-destun economaidd-gymdeithasol

- 3.17 Ers dechrau adfer o argyfwng ariannol 2007–2008, mae Cymru wedi gweld dirywiad cyson mewn cyfraddau diweithdra, gan ostwng o dan bedwar y cant am y tro cyntaf yn 2020 (gweler Ffigur 3.1). Dim ond dros dro y gwnaeth pandemig COVID-19 darfu ar y duedd hon, wrth i Gymru gyflawni ei chyfradd diweithdra isaf mewn hanes diweddar yn 2022 ar dri y cant.

Ffigur 3.1: Cyfraddau diweithdra yng Nghymru (16–64 oed)




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023a) Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth¹⁶

3.18 Mae Ffigur 3.2 yn dangos bod cyfraddau anweithgarwch economaidd wedi dilyn tueddiadau tebyg i ddechrau, gan ostwng o 26.4 y cant yn 2012 i isafswm hanesyddol o 23.3 y cant yn 2018. Ers 2018, mae cyfraddau anweithgarwch wedi cynyddu eto, gydag uchafbwynt o 24.4 y cant ym mlwyddyn gyntaf pandemig COVID-19 (2020). Mae'r canlyniadau i bobl ifanc hefyd yn cyflwyno darlun cymysg.

¹⁶ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023a) [Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth](#).

Ffigur 3.2: Cyfraddau anweithgarwch economaidd yng Nghymru (16–64)




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023a) Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth¹⁷

3.19 O 2012 i 2017, roedd cyfraddau NEET ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed wedi aros yr un fath ar oddeutu 11 y cant, cyn iddynt ddechrau cynyddu'n raddol i hyd at 14.2 y cant yn 2021. Mewn cyferbyniad, mae cyfraddau NEET ar gyfer unigolion rhwng 19 a 24 oed wedi gostwng o gymharu â lefelau 2012. Digwyddodd y rhan fwyaf o'r gostyngiad hwn rhwng 2012 a 2017, pan ostyngodd cyfraddau NEET 8.1 pwynt canran i 15.1 y cant. Ar gyfer y ddau grŵp oedran, cynyddodd cyfraddau NEET yn gyflym yn ystod pandemig COVID-19, ond gwnaethant ostwng wedi hynny yn 2022.

¹⁷ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023a) [Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth](#).

Ffigur 3.3: Cyfraddau NEET yng Nghymru (16–18 a 19–24)




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2023) Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant¹⁸

3.20 Gwelwyd gostyngiad serth yn nifer yr hysbysebion swyddi newydd ar ddechrau pandemig COVID-19. Roedd nifer yr hysbysebion swyddi eisoes wedi dirywio'n raddol yn y ddwy flynedd flaenorol. Er bod nifer yr hysbysebion swyddi newydd yn uwch, dros dro, na lefelau 2018 erbyn Awst 2021, parhaodd y duedd negyddol wrth i nifer yr hysbysebion swyddi ddychwelyd yn raddol i'r niferoedd a welwyd ychydig cyn dechrau'r pandemig.

¹⁸ Llywodraeth Cymru (2023) [Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant \(NEET\)](#).

Ffigur 3.4: Hysbysebion swyddi ar-lein yng Nghymru (hysbysebion swyddi unigryw ar gyfartaledd wedi'u mynegeo ym mis Chwefror 2020)



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023b) Amcangyfrifon hysbysebion swyddi ar-lein¹⁹

3.21 Mae data o'r Arolwg Sgiliau Cyflogwyr²⁰ yn awgrymu bod bylchau sgiliau wedi dod yn fwy cyffredin ers pandemig COVID-19. Er bod cyfran y cyflogwyr sy'n adrodd am fylchau sgiliau ymhlith eu gweithlu wedi bod yn gostwng yn raddol ers 2013, cynyddodd un pwynt canran rhwng 2019 a 2022. Mae'r cynnydd serth ar ôl y pandemig yn nwysedd y swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau²¹ yn awgrymu bod anghenion sgiliau busnesau wedi newid yn sylweddol a'u bod yn dod yn anoddach eu llenwi. Ffactor mawr arall sy'n cyfrannu at brinder sgiliau ledled Cymru yw'r lefelau is o fewnfudo o'r UE²². Gwnaeth astudiaeth ganfod bod prinder mewn sgiliau rheoli, yn benodol, yn gysylltiedig â diffyg mewnfudo o'r UE. Mae diwydiannau proffesiynol a gwyddonol, gwasanaethau bwyd a llety, a sectorau gwybodaeth a

¹⁹ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023b) [Amcangyfrifon hysbysebion swyddi ar-lein](#).


²⁰ Adran Addysg y DU (2022) [Arolwg Sgiliau Cyflogwyr](#).

²¹ Cyfran y swyddi gwag yr adroddir eu bod yn anodd eu llenwi am nad oes gan ymgeiswyr sgiliau, cymwysterau neu brofiad perthnasol.

²² O'Carroll (2023) [Shortfall of 330,000 workers in UK due to Brexit, say thinktanks](#).

chyfathrebu yn cael eu heffeithio'n arbennig gan heriau sgiliau sy'n gysylltiedig â Brexit, megis anawsterau wrth recriwtio staff²³.

Ffigur 3.5: Bylchau sgiliau yng Nghymru²⁴



Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Cyflogwyr Adran Addysg y DU (2022)²⁵

3.22 Mae'r adran isod yn mynd i'r afael â'r tri tueddiad allweddol, sef datblygiad technolegol, newid demograffig, a'r pontio i sero-net. Er eu bod i gyd yn rhan o dueddiadau byd-eang, bydd yr adroddiad yn amlinellu sut y gallant effeithio ar farchnad lafur Cymru, o ystyried cyfansoddiad economaidd presennol Cymru. At hynny, mae'n amlygu'r rôl y gall Cymru'n Gweithio ei chwarae wrth gefnogi gweithlu Cymru drwy'r newid mewn gofynion sgiliau.

Technoleg a digideiddio

3.23 Mae'r datblygiadau cyflym mewn arloesi digidol, gan gynnwys awtomeiddio, deallusrwydd artiffisial, a roboteg, yn cyflwyno heriau a chyfleoedd hollbwysig i economïau ledled y byd, gan gynnwys economi Cymru.

²³ Tiwasing, P. (2021) [Brexit and skill shortages: an empirical analysis of UK SMEs](#).

²⁴ Noder bod swydd wag oherwydd prinder sgiliau yn golygu swydd wag sy'n denu ymgeiswyr nad oes ganddynt y sgiliau priodol ar gyfer y rôl.

²⁵ Adran Addysg y DU (2022) [Arolwg Sgiliau Cyflogwyr](#).

Bwlch sgiliau digidol

3.24 Mae pandemig COVID-19 wedi cyflymu'r arfer o weithio'n ddigidol am fod mabwysiadu technoleg wedi bod yn hanfodol i fusnesau oroesi²⁶. Wrth i dirwedd byd gwaith gael ei dominyddu fwyfwy gan dechnoleg ddigidol, mae sgiliau digidol yn dod yn ofynion sydd bron yn gyffredinol ar gyfer cael gwaith a chadw gwaith ar draws y farchnad lafur gyfan²⁷. Fodd bynnag, mae'r galw am sgiliau digidol y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael yn y farchnad lafur²⁸. Yn 2022, nid oedd gan 11 y cant o oedolion (18+) y llafurlu yng Nghymru unrhyw alluoedd digidol ar gyfer gwaith, a dim ond 38 y cant a allai gwblhau'r holl dasgau digidol hanfodol sy'n ofynnol ar gyfer gwaith (fel y'u diffinnir ym meincnod Sgiliau Digidol Hanfodol y DU)²⁹. Mae ystyried sgiliau digidol cwsmeriaid yn allweddol i wasanaeth Cymru'n Gweithio, yn enwedig y rhwystr y maent yn ei gyflwyno i bobl wireddu dyheadau gyrfa.

Awtomeiddio

3.25 Mae tua thraean o weithlu Cymru yn cael eu cyflogi mewn diwydiannau sy'n cael eu nodweddu gan lefelau isel o gynhyrchiant yn ogystal â chyflog isel, sy'n fwy agored i gael eu heffeithio gan awtomeiddio³⁰. Mae amcangyfrifon o ba gyfran yn union o swyddi yng Nghymru sydd mewn perygl o gael eu hawtomeiddio yn amrywio o 19 y cant o swyddi erbyn 2037 (yn seiliedig ar ddulliau amcangyfrif ar sail tasgau) i 46 y cant o swyddi (yn seiliedig ar ddulliau ar sail galwedigaeth)³¹. Ni fydd effeithiau awtomeiddio yn cael eu dosbarthu'n gyfartal ar draws y gymdeithas yng Nghymru. Mae'n debygol y bydd canolfannau diwydiannol y gogledd-ddwyrain (Alun a Glannau Dyfrdwy) a'r de-ddwyrain (Dwyrain Casnewydd) yn cael eu heffeithio'n sylweddol³². Mae dynion ac unigolion sydd â lefelau is o addysg wedi eu

²⁶ Jaumotte, F. et al. (2023) [Blog y Gronfa Ariannol Ryngwladol: How Pandemic Accelerated Digital Transformation in Advanced Economies](#).

²⁷ Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2019) [No Longer Optional: Employer Demand for Digital Skills](#).

²⁸ Patterson, G. (2021) [Bridging the digital divide to create the jobs of the future](#).

²⁹ Lloyds Bank (2022) [UK Consumer Digital Index 2022](#).

³⁰ Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (2018). [Dyfodol Gwaith yng Nghymru](#).

³¹ Llywodraeth Cymru (2019) [Cymru 4.0: Cyflawni Trawsnewidiad Economaidd ar gyfer Gwell Dyfodol Gwaith](#).

Mae amcangyfrif ar sail galwedigaeth yn golygu asesiad gan arbenigwyr technegol ar ba mor hawdd ydyw i dechnoleg gymryd lle galwedigaethau penodol fel nyrsys, peirianwyr meddalwedd neu asiantau gwasanaethau cwsmeriaid. Mae amcangyfrif ar sail tasgau yn golygu rhannu galwedigaethau yn dasgau amrywiol ac yna arbenigwyr yn asesu'r risg y bydd pob tasg yn cael ei hawtomeiddio.

³² Dickens, S., BBC (2018) [Automation: '1 in 3 Welsh jobs at risk by early 2030s'](#).

gorgynrychioli mewn sectorau swyddi sy'n fwy agored i gael eu hawtomeiddio, sy'n golygu eu bod mewn mwy o berygl o'u swyddi'n cael eu dadleoli³³. Yn fyd-eang, y sectorau mwyaf bregus yw cludiant a storio (>50 y cant o swyddi mewn perygl), gweithgynhyrchu (>40 y cant o swyddi mewn perygl), ac adeiladu (>35 y cant o swyddi mewn perygl)³⁴. Mae sectorau eraill yn fwy gwydn yn wyneb awtomeiddio ac yn debygol o weld mwy o alw yn y dyfodol, fel lletygarwch, addysg, a gwasanaethau cyhoeddus. Mae cyfran gymharol uchel o lafurlu Cymru yn cael eu cyflogi mewn gwasanaethau cyhoeddus, a allai gynnig rhywfaint o amddiffyniad rhag effeithiau negyddol awtomeiddio³⁵. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn ansicr ynghylch a all hyn wrthbwysu colledion swyddi mewn sectorau eraill. Bydd i ba raddau y bydd Cymru yn gallu manteisio ar arloesi digidol yn dibynnu ar sut y gall y wlad ei gosod ei hun yn y gadwyn fyd-eang o werth ychwanegol gros. O ystyried y newid tebygol mewn niferoedd cyflogaeth sectoraidd (o ystyried awtomeiddio), mae'n debygol y bydd rôl Cymru'n Gweithio o fewn ymatebion amlasiantaeth i ddiswyddiadau yn parhau i fod yn bwysig wrth symud ymlaen.

Sgiliau

- 3.26 Fel a nodwyd uchod, mae sgiliau digidol yn dod yn fwyfwy hanfodol ar gyfer bod yn aelod cynhyrchiol o'r gweithlu. Bydd angen 'sgiliau digidol sylfaenol'³⁶, sy'n cynnwys meddalwedd cynhyrchiant cyffredin, ar draws pob sector. Yn wyneb awtomeiddio, fodd bynnag, efallai na fydd sgiliau digidol sylfaenol yn ddigon. Mae hyd yn oed gan swyddi medrus iawn sydd yn galw am sgiliau digidol sylfaenol risg o 37 y cant o gael eu hawtomeiddio, tra bod gan swyddi sgiliau digidol isel/sylfaenol risg o 80 y cant o gael eu hawtomeiddio³⁷. Mae gan swyddi sy'n galw am sgiliau digidol

³³ PwC (2018) [Will robots really steal our jobs? An international analysis of the potential long-term impact of automation.](#)

³⁴ PwC (2018) [Will robots really steal our jobs? An international analysis of the potential long-term impact of automation.](#)

³⁵ Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (2018) [Dyfodol Gwaith yng Nghymru.](#)

³⁶ Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2019) [No Longer Optional: Employer Demand for Digital Skills](#) (t.24).

³⁷ Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2019) [No Longer Optional: Employer Demand for Digital Skills.](#)

penodol fel rhaglennu meddalwedd, dadansoddi data, a marchnata digidol risg llawer is o gael eu hawtomeiddio³⁸.

- 3.27 Yn ogystal â sgiliau digidol, bydd angen rhagor o sgiliau cyflenwol i ffynnu mewn marchnad lafur lle bydd llawer o dasgau arferol wedi cael eu hawtomeiddio. Ar draws Ewrop a'r Unol Daleithiau, bydd galw cynyddol am sgiliau cymdeithasol ac emosiynol yn ogystal â sgiliau gwybyddol uwch, tra bydd y galw am sgiliau corfforol a llaw yn lleihau³⁹. Mae hyn oherwydd bod y rhan fwyaf o'r twf swyddi net a ragwelir yn cael ei yrru gan dwf mewn galwedigaethau Proffesiynol a Phroffesiynol Cysylltiedig, sy'n dibynnu'n drymach ar sgiliau megis cyfathrebu â chydweithwyr, trefnu a blaenoriaethu gwaith, sefydlu a chynnal perthnasoedd rhyngpersonol yn ogystal â gwneud penderfyniadau a datrys problemau⁴⁰.

Cymorth cyflogaeth

- 3.28 Mae graddfa'r bwloch sgiliau digidol yn y DU yn sylweddol. Amcangyfrifir y bydd yn rhaid i 90 y cant o weithwyr yn y DU ddysgu sgiliau digidol newydd er mwyn gallu cyflawni eu swyddi⁴¹. Mae'n debyg y bydd hyn yn galw am gymorth cyflogaeth sylweddol.
- 3.29 Wrth i dechnoleg newydd gael ei datblygu a'i mabwysiadu'n gyflym, mae galw parhaus ar weithwyr i uwchsgilio ac ailsgilio er mwyn parhau i fod yn gyflogadwy⁴². Oherwydd hyn, bydd cynigion dysgu gydol oes yn dod yn nodweddion anhepgor o gymorth cyflogaeth.
- 3.30 Er bod 78 y cant o fusnesau'r DU wedi dweud yn 2021 bod pobl ifanc sy'n gadael addysg yn meddu ar y sgiliau digidol sylfaenol yr oedd eu hangen arnynt, mae'r ffigur ar gyfer sgiliau uwch yn llawer is, sef 48 y cant⁴³. Gallai cymorth cyflogaeth felly helpu i gau'r bwloch sgiliau digidol drwy helpu i uwchsgilio pobl ifanc sy'n dod i mewn i'r farchnad lafur. Gallai cymorth cyflogaeth hefyd gyfrannu at gau'r bwloch

³⁸ Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2019) [No Longer Optional: Employer Demand for Digital Skills](#).

³⁹ McKinsey (2018) [Skill shift: Automation and the future of the workforce](#).

⁴⁰ Y pedair prif sgil a ragwelir ar gyfer 2035 gan: Dickerson, A. et al. (2023) [An analysis of the demand for skills in the labour market in 2035](#).

⁴¹ Salesforce (2021) [Nine in 10 U.K. Workers Must Learn New Digital Skills by 2030](#).

⁴² McKinsey (2019) [Competitive advantage with a human dimension: From lifelong learning to lifelong employability](#).

⁴³ WorldSkills UK (2021) [Disconnected? Exploring the digital skills gap](#).

sgiliau drwy ddarparu gwybodaeth a chyfarwyddyd gyrfaedd o ansawdd uchel i bobl ifanc ynghylch gyrfaedd sy'n galw am sgiliau digidol uwch. Mae adroddiad gan WorldSkills UK yn 2021 yn nodi bod diffyg cyffredinol o ganllawiau digonol o'r fath yn un rhwystr i bobl ifanc ddewis gyrfaedd digidol⁴⁴. Mae'r angen i gefnogi datblygiad sgiliau digidol pobl ifanc yn arbennig o amlwg i'r rheini mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is, gan nad oedd gan 21 y cant fynediad at liniadur, cyfrifiadur bwrdd gwaith, neu lechen⁴⁵. Gallai cymorth cyflogaeth felly chwarae rhan hanfodol wrth wneud yn iawn am wahaniaethau economaidd-gymdeithasol o ran mynediad.

- 3.31 Bydd yn rhaid i gymorth cyflogaeth ar gyfer sgiliau digidol fod yn ddeinamig. Mae sgiliau gofynnol yn newid yn barhaus dros amser wrth i becynnau meddalwedd newydd gael eu datblygu a'u poblogeiddio. Bydd rhoi ystyriaeth i'r deinameg hwn yn gorfod bod yn nodwedd allweddol o gymorth cyflogaeth er mwyn iddo barhau i fod yn effeithiol ac yn berthnasol⁴⁶.
- 3.32 Bydd yn rhaid i gymorth cyflogaeth gael ei wahaniaethu'n rhanbarthol hefyd. Er bod angen sgiliau digidol ym mhob man, mae'r galw am sgiliau digidol penodol wedi'i ganolbwyntio'n lleol mewn clystyrau sgiliau digidol⁴⁷.

Newidiadau demograffig

- 3.33 Yn yr un modd â llawer o wledydd eraill y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), mae Cymru'n wynebu her ddemograffig cymdeithas sy'n heneiddio. Mae hyn eisoes wedi cael effeithiau amlwg ar farchnad lafur Cymru a bydd hyn yn siŵr o ddwysáu yn y dyfodol. Yn ogystal, gallai gostyngiad mewn mewnfudo o wledydd yr UE oherwydd Brexit arwain at ostyngiad yn y boblogaeth oedran gweithio yng Nghymru⁴⁸.

⁴⁴ Mae gwahaniaethau rhwng y rhywiau o ran i ba raddau mae pobl ifanc yn teimlo bod ganddynt wybodaeth ddigonol am yrfaedd digidol: WorldSkills UK (2021) [Disconnected? Exploring the digital skills gap](#).

⁴⁵ WorldSkills UK (2021) [Disconnected? Exploring the digital skills gap](#).

⁴⁶ Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2019) [No Longer Optional: Employer Demand for Digital Skills](#).

⁴⁷ Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2019) [No Longer Optional: Employer Demand for Digital Skills](#).

⁴⁸ Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2021) [Brexit a Chymru](#).

- 3.34 Gallai Cymru weld cynnydd o 15 y cant yn y disgwyliad oes cyffredinol yn ystod y 50 mlynedd nesaf⁴⁹. Disgwylir i gyfran y bobl dros 65 oed gynyddu o oddeutu un rhan o bump i oddeutu chwarter y boblogaeth⁵⁰. Bydd hyn yn arwain at fwy o anghenion gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Felly, mae Gyrfa Cymru yn nodi'r sector iechyd fel sector lle bydd cyflogaeth yn tyfu yn y dyfodol tymor canolig⁵¹.
- 3.35 Er bod y galw am ofal cymdeithasol yn cynyddu, mae bwlch mawr ar hyn o bryd yn y cyflenwad o weithwyr gofal cymdeithasol. Rhwng Ionawr 2019 a Chwefror 2022, roedd cyfraddau'r swyddi gwag ar gyfer rolau gofal cymdeithasol wedi mwy na dyblu, ac ym mis Medi 2021, roedd 700 o swyddi heb eu llenwi yn y sector gofal⁵². Mae lefelau is o fewnfudo ar ôl Brexit yn rhan o'r rheswm am hyn. Er bod effeithiau Brexit yn cael eu lleddfu gan Fisa Gweithwyr Iechyd a Gofal neu Fisa Gweithwyr Medrus, bydd llai o rolau mewn gofal cymdeithasol yn gymwys ar gyfer y fisâu hyn, gan waethygu'r heriau presennol⁵³. Ym mis Rhagfyr 2023, gwnaeth Llywodraeth y DU hefyd gyhoeddi newidiadau cyfreithiol i reolau fisa i leihau mewnfudo, a oedd yn cynnwys gwahardd gweithwyr gofal cymdeithasol rhag cynnwys dibynyddion ar eu fisa⁵⁴. Rheswm mawr arall yw'r arfer o weithwyr gofal cymdeithasol yn mudo i swyddi gwahanol, fel gofal iechyd, manwerthu a lletygarwch, oherwydd cyflogau isel, rheoleiddio ac amodau gwaith ym maes gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn ystod y pandemig ac roedd yn ysgogiad i geisio dod o hyd i swyddi gwahanol⁵⁵. O ganlyniad, awgrymir y bydd Cymru'n Gweithio yn parhau i chwarae rôl hanfodol ochr yn ochr â Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wrth gefnogi sectorau allweddol i lenwi swyddi gwag.

Sgiliau

- 3.36 Er mwyn i'r sector gofal cymdeithasol allu rheoli gofynion uwch cymdeithas sy'n heneiddio, mae'n rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol fod yn fwyfwy hyderus wrth

⁴⁹ Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (2018) [Dyfodol Gwaith yng Nghymru](#).

⁵⁰ Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (2018) [Dyfodol Gwaith yng Nghymru](#).

⁵¹ Gyrfa Cymru (dim dyddiad). [Swyddi mewn lechyd](#).

⁵² Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2022) [Argyfwng gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru: beth sy'n ei achosi a beth sy'n cael ei wneud i'w ddatrys?](#)

⁵³ Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2021) [Brexit a Chymru](#).

⁵⁴ Llywodraeth y DU (2023) [Changes to legal migration rules for family and work visas in 2024](#). Research Briefing.

⁵⁵ Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2022) [Argyfwng gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru: beth sy'n ei achosi a beth sy'n cael ei wneud i'w ddatrys?](#)

ddefnyddio technoleg ddigidol⁵⁶. Yn benodol, cynyddodd y defnydd o dechnolegau cynorthwyol digidol mewn gwaith gofal yn aruthrol yn ystod pandemig COVID-19⁵⁷. Gyda disgwyl i nifer y cleifion dementia gynyddu yn sydyn dros y blynyddoedd nesaf, mae'n debygol y bydd mwy o alw am arbenigedd mewn gofal dementia⁵⁸, ac felly hefyd am sgiliau arbenigol eraill sy'n gysylltiedig â chyflyrau sy'n fwy cyffredin ymhlith pobl hŷn (e.e. gofalu am bobl â chyflyrau hirdymor lluosog)⁵⁹.

Cymorth cyflogaeth

- 3.37 Mae mynd i'r afael ag argyfwng y gweithlu gofal cymdeithasol yn her ehangach a fydd yn debygol o olygu bod angen i nifer o randdeiliaid fel y llywodraeth, y GIG, a staff gofal cymdeithasol gydweithio, ynghyd ag ymrwymadau ariannu cryfach⁶⁰. Serch hynny, gall cymorth cyflogaeth chwarae rôl wrth helpu i recriwtio a hyfforddi staff gofal cymdeithasol newydd, gan gynnwys cymorth wrth ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd sydd wedi'u teilwra i'r sector gofal cymdeithasol⁶¹.

Pontio i sero net

- 3.38 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ei huchelgeisiau i gyflawni allyriadau sero net cyn 2050, sef ei hymrwymiad cyfreithiol⁶². Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd annibynnol yn amlygu bod gostwng allyriadau yn y sector diwydiannol yn hanfodol er mwyn cyflawni'r nod hwn⁶³. Mae'r trawsnewidiad sydd ei angen i Gymru fod yn garbon-niwtral yn cynnig cyfleoedd a heriau.
- 3.39 Mae gan Gymru'r potensial i ddiwallu ei hanghenion ynni yn llwyr drwy ynni adnewyddadwy. Mae datgarboneiddio yn gwneud y sector ynni yn sector lle mae cyflogaeth yn tyfu, am fod buddsoddiad mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn creu tair gwaith cymaint o swyddi ag y mae buddsoddiad mewn cynhyrchu ynni o

⁵⁶ Beech, J. et al. (2019) [Closing the gap: Key areas for action on the health and care workforce](#).

⁵⁷ Luijnenburg, O. et al. (2022) [Skills at the heart of care: a scoping review of evidence on skills gaps in the social care workforce](#).

⁵⁸ Cymdeithas Alzheimer's (2021) [How many people have dementia in the UK?](#)

⁵⁹ Luijnenburg, O. et al. (2022) [Skills at the heart of care: a scoping review of evidence on skills gaps in the social care workforce](#).

⁶⁰ Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2022) [Argyfwng gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru: beth sy'n ei achosi a beth sy'n cael ei wneud i'w ddatrys?](#)

⁶¹ Skills for Care (dim dyddiad) [What core skills do I need to work in social care?](#)

⁶² Llywodraeth Cymru (2021) [Cymru wedi ymrwymo i sero-net erbyn 2050, ond yr uchelgais yw taro'r nod yn gynt](#).

⁶³ Y Pwyllgor Newid Hinsawdd (2020) [Adroddiad Cyngor Y Llwybr i Gymru Sero Net](#).

danwydd ffosil⁶⁴. Ar draws sector ynni'r DU, bydd yn rhaid llenwi 260,000 o swyddi newydd i ateb her sero net⁶⁵. Yng ngogledd Cymru yn unig, gallai 24,400 o swyddi newydd gael eu creu wrth fynd ati i gynhyrchu ynni adnewyddadwy⁶⁶. Disgwylir i gyflogaeth mewn diwydiannau eraill, fel gweithgynhyrchu moduron a batriau cerbydau trydan, ehangu erbyn 2040 ledled y DU⁶⁷. Fodd bynnag, oherwydd diffyg buddsoddiad ar lefel y DU, nid oes disgwyl ar hyn o bryd i Gymru elwa o'r ymdrech i bontio i sero-net yn y diwydiant moduro⁶⁸.

- 3.40 Bydd diwydiannau eraill yn wynebu heriau. Mae Cyngres Undebau Llafur Cymru yn amlygu sut y bydd y toriadau gofynnol mewn allyriadau yn y sector diwydiannol yn rhoi pwysau arbennig ar ddiwydiannau carbon-ddwys⁶⁹. Mae gan Gymru nifer fach o gwmnïau sy'n gyfrifol am gyfran fawr o'i hallyriadau, e.e. Gwaith Dur Port Talbot. Mae pobl sy'n cael eu cyflogi yn y cwmnïau/diwydiannau hyn yn wynebu risg uchel o'u swyddi'n cael eu dadleoli. Gallai Cymru'n Gweithio chwarae rhan allweddol wrth gynorthwyo gweithwyr Cymru i bontio i ddiwydiannau newydd.

Sgiliau

- 3.41 Bydd pontio i sero net yn newid patrwm y galw am ystod eang o sgiliau ar draws sawl sector gan gynnwys cynhyrchu trydan/gwres, trafndiaeth ffyrdd a rheilffyrdd, adeiladau preswyl, amaethyddiaeth, rheoli gwastraff, a diwydiant a busnes⁷⁰.
- 3.42 Mae llawer o'r galw am uwchsgilio yn cael ei yrru gan yr arfer o fabwysiadu technoleg newydd. Er enghraifft, bydd angen sgiliau ar y sectorau ynni, adeiladu preswyl a thrafnidiaeth ar gyfer datblygu, gosod a chynnal a chadw gwaith cynhyrchu ynni adnewyddadwy a systemau a pheiriannau trydan eraill (e.e. pypiau gwres, gwefru cerbydau trydan).
- 3.43 Yn ogystal â sgiliau technegol arbenigol, bydd mwy o alw am reoli prosiectau a sgiliau gwyddonol hefyd. Bydd cymell pobl ifanc i ymwneud â phynciau sy'n seiliedig

⁶⁴ UKERC (2022) [Green job creation, quality, and skills: A review of the evidence on low carbon energy](#).

⁶⁵ Grid Cenedlaethol (2020) [Building the Net Zero energy workforce](#).

⁶⁶ Gwasanaeth Ynni Cymru (2020) [Strategaeth Ynni Gogledd Cymru](#).

⁶⁷ Resolution Foundation (2022) [Net zero jobs](#).

⁶⁸ Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2023) [Sgiliau sero net: Mewnwelediadau a thystiolaeth o sectorau allyriadau yng Nghymru](#).

⁶⁹ TUC Cymru (2021) [Negodi dyfodol gwaith: Sero Net](#).

⁷⁰ Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2023) [Sgiliau sero net: Mewnwelediadau a thystiolaeth o sectorau allyriadau yng Nghymru](#).

ar STEM, nid yn unig yn y brifysgol ond hefyd ar lefel prentisiaeth, yn hollbwysig wrth ddiwallu'r galw a ragwelir.

Cymorth cyflogaeth

- 3.44 Bydd cymorth cyflogaeth yn chwarae rhan hanfodol wrth bontio i sero-net.
- 3.45 Bydd angen ailsgilio gweithwyr yn y sector ynni ffosil ac mewn diwydiannau carbon-ddwys eraill er mwyn eu helpu i drosglwyddo i swyddi mewn sectorau glanach, adnewyddadwy lle bydd eu profiad yn parhau i fod yn werthfawr.
- 3.46 Mewn llawer o sectorau eraill, mae'n debygol y gall gweithwyr aros yn eu galwedigaeth ond bydd angen eu huwchsgilio er mwyn gallu addasu i dechnolegau, deunyddiau a gofynion newydd. Er enghraifft, bydd yn rhaid i weithwyr ym maes rheoli gwastraff ddysgu sut i ymdrin â newidiadau mewn deunyddiau gwastraff, a bydd angen hyfforddiant ar ffermwyr ym maes asesu a chyfrifyddu carbon yn ogystal â rheoli tir a busnes.
- 3.47 Fel yn achos y cymorth sgiliau digidol a drafodwyd uchod, bydd yn rhaid i gymorth cyflogaeth gael ei wahaniaethu'n rhanbarthol. Bydd rhai ardaloedd, fel Castell-nedd Port Talbot, yn wynebu mwy o aflonyddwch a dadleoli swyddi am fod cyfran gymharol uchel o bobl yno yn cael eu cyflogi mewn diwydiannau carbon-ddwys⁷¹. Bydd angen mwy o adnoddau ar gyfer yr ardaloedd hyn i'w hwyluso i bontio i swyddi newydd, ac efallai mai mân gymorth ar gyfer uwchsgilio yn unig fydd ei angen mewn ardaloedd eraill.
- 3.48 Er y bydd angen cymorth cyflogaeth llywodraethol, bydd yn rhaid i'r llywodraeth, cyflogwyr, cyrff diwydiant ac undebau weithio gyda'i gilydd i sicrhau y gall pawb fanteisio ar gyfleoedd i uwchsgilio ac ailsgilio⁷².

⁷¹ Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2023) [Sgiliau sero net: Mewnwelediadau a thystiolaeth o sectorau allyriadau yng Nghymru](#).

⁷² Tasglu Swyddi Gwyrdd (2021) [Report to Government, Industry and the Skills Sector](#).

4. Trosolwg o'r Cymorth sy'n cael ei Gynnig

- 4.1 Mae'r adran hon yn asesu cyrhaeddiad Cymru'n Gweithio a'r prosesau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r gwasanaeth. Caiff yr adran hon ei llywio gan farn staff, rhanddeiliaid a chwsmeriaid a dadansoddiad o wybodaeth fonitro ar lefel y rhaglen.
- 4.2 Mae cymorth Cymru'n Gweithio yn ceisio cynorthwyo cwsmeriaid i gael y gwaith 'iawn' ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Gall hyn gynnwys rhaglenni hunangyflogaeth a/neu brentisiaeth. Wrth ymgysylltu â Cymru'n Gweithio am y tro cyntaf, mae cwsmeriaid yn cael eu cynorthwyo gan gynghorydd gyrfaoedd i nodi rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael mynediad at waith, addysg neu hyfforddiant. Yn seiliedig ar amgylchiadau a dyheadau'r cwsmer, mae cynghorwyr gyrfaoedd hyfforddedig yn nodi'r cymorth mwyaf addas sydd ar gael i alluogi'r unigolyn i symud ymlaen cyn gynted â phosibl.
- 4.3 Er mwyn sicrhau bod cynghorydd gyrfaoedd Cymru'n Gweithio yn nodi pob rhwystr ac yn cyfeirio'r unigolyn at y cymorth cywir, mae'n defnyddio asesiad o anghenion uwch o amgylchiadau'r unigolyn a'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag symud ymlaen. Mae'r asesiad hwn wedi'i arwain gan gyngor ac arweiniad, ac mae'n galluogi i gyfeirio'r unigolyn i'r cymorth cywir.
- 4.4 Prif amcan yr asesiad anghenion uwch yw nodi'r lefel briodol o gymorth sydd ei angen. Mae hyn yn cynnwys asesu lefel sgiliau bresennol cwsmeriaid, eu hanes o ran profiad gwaith, eu dyheadau gyrfa, a yw'n bosibl iddynt deithio, eu cyfrifoldebau gofal plant a gofalu, iechyd ac anabledd, yn ogystal â'u statws tai i nodi rhwystrau sy'n atal yr unigolyn rhag cael a chynnal cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. O fis Ebrill 2023, mae staff Cymru'n Gweithio hefyd yn gallu cynnig adolygiad canol gyrfa i gwsmeriaid, gan gynnwys prawf seicometrig, i gynorthwyo a siapio eu camau yn eu gyrfaoedd⁷³.
- 4.5 Unwaith y bydd yr asesiad anghenion uwch wedi'i gynnal, mae cynghorydd gyrfaoedd Cymru'n Gweithio wedyn yn cynorthwyo'r cwsmer i wella eu cymhelliant, ymdrin ag unrhyw heriau y maent yn eu hwynebu wrth gael gwaith neu wneud cynnydd mewn gwaith, adeiladu gwytnwch unigol, dysgu am ddarpar yrfaedd,

⁷³ Mae [Prawf Seicometrig Morrisby](#) yn cael ei ddefnyddio ac mae am ddim ar bwynt mynediad.

swyddi a'r farchnad lafur, a'u hannog i fwrw ymlaen â chynlluniau a wnaed i gyflawni eu nod o ran gyrfa. Yn dibynnu ar faint a/neu natur rhwystrau'r cwsmer, gall cynghorwyr gyrfa, mewn cytundeb â'r unigolyn, eu hatgyfeirio i'r cymorth mwyaf priodol sydd ar gael neu gynnig cymorth cyflogadwyedd i'r rhai sy'n gymwys drwy hyfforddwr cyflogadwyedd Cymru'n Gweithio (Rhaglen STEPS, fel y'i gelwid yn flaenorol)⁷⁴. Mae manylion y cymorth cyflogaeth sy'n cael ei gynnig gan Gymru'n Gweithio yn cael eu trafod yn Adran 4.7.

4.6 Mae'r cyngor a'r arweiniad gyrfaedd sy'n cael eu gynnig drwy Cymru'n Gweithio yn cael eu darparu gan gynghorydd gyrfaedd sydd wedi cymhwyso neu'n gweithio tuag at Ddiploma Lefel 6 mewn Cyfarwyddyd a Datblygiad Gyrfaedd⁷⁵. Mae cynghorydd gyrfaedd Lefel 6 yn bodloni'r gofyniad ar gyfer Cofrestr y DU o Weithwyr Proffesiynol Datblygu Gyrfa, y pwynt cyfeirio cenedlaethol unigol ar gyfer pob ymarferwr gyrfaedd proffesiynol. Mae'r cymhwyster proffesiynol hwn yn caniatáu i'r cynghorydd ddefnyddio damcaniaethau cyfarwyddyd gyrfaedd, dehongli gwybodaeth am yrfaedd a'r farchnad lafur, ac ymgysylltu'n effeithiol ag ystod eang o bobl mewn gwahanol amgylchiadau, gan sicrhau bod y cyngor a'r arweiniad gyrfaedd o safon uchel. Er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal eu hymgofrestriad ar Gofrestr y DU o Weithwyr Proffesiynol Datblygu Gyrfa, mae'n ofynnol i bob cynghorydd gyrfaedd Lefel 6 Cymru'n Gweithio lofnodi Cod Moeseg Gweithwyr Proffesiynol Datblygu Gyrfa a chyflawni o leiaf 25 awr o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus bob blwyddyn. Mae hyn yn sicrhau bod cyngor a chyfarwyddyd gyrfaedd o ansawdd uchel yn cael eu cynnal o fewn Cymru'n Gweithio.

4.7 Mae Cymru'n Gweithio hefyd yn rhoi cymorth cyflogadwyedd i gwsmeriaid. Caiff y cymorth hwn ei ddarparu gan hyfforddwr cyflogadwyedd Cymru'n Gweithio. Mae'r cymorth cyflogadwyedd sy'n cael ei gynnig gan Gymru'n Gweithio yn cynnwys cynorthwyo cwsmeriaid i ddod o hyd i swyddi a gwneud cais amdanynt a pharatoi ar

⁷⁴ Mae cymorth cyflogadwyedd Cymru'n Gweithio ar gael i gwsmeriaid 16 oed neu hŷn. Caiff cwsmeriaid amrywiaeth o gymorth gan hyfforddwr cyflogadwyedd Cymru'n Gweithio, sy'n cynnwys ysgrifennu neu wella CV, paratoi ar gyfer cyfweiliadau / ffug gyfweiliadau (gan gynnwys cyfweiliadau digidol), sut i'ch hyrwyddo eich hun (Cyd-destun, Gweithredu, Canlyniad), cwblhau ceisiadau, deall y farchnad lafur, cymorth i chwilio am waith, a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gael gwaith.

⁷⁵ Ceir rhagor o fanylion am y Diploma Lefel 6 mewn Cyfarwyddyd a Datblygiad Gyrfa ar wefan y [Sefydliad Datblygu Gyrfa](#). Y Sefydliad Datblygu Gyrfa yw corff proffesiynol y DU ar gyfer gwaith gyrfaedd.

gyfer cyfweiliadau. Gall hyn gynnwys cymorth i ysgrifennu a datblygu CV a thechnegau cyfweiliad. Mae hyfforddwyr cyflogadwyedd Cymru'n Gweithio hefyd yn gweithio gyda phartneriaid, fel y Ganolfan Byd Gwaith, i gynnig cymorth cyflogadwyedd i gwsmeriaid mewn angen. Gall hyn gynnwys sesiynau cyflogadwyedd grŵp ac ymateb i anghenion cymorth brys (e.e. cynorthwyo cwsmer i baratoi ar gyfer cyfweiliad swydd sydd ar fin digwydd). Mae'n bwysig cyfeirio at y ffaith na all y Ganolfan Byd Gwaith gynorthwyo cwsmeriaid sydd mewn gwaith.


- 4.8 Gan ystyried y model cyflawni, dywedodd rhanddeiliaid fod mwy o unigolion cyflogedig, dros amser, wedi defnyddio Cymru'n Gweithio nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Yn ôl canfyddiad y rhanddeiliaid, mae'r duedd hon yn debygol o fod o ganlyniad i amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys tueddiadau'r farchnad lafur fel pobl dros 50 oed yn ailymuno â'r gweithlu⁷⁶, marchnadoedd cymorth cyflogadwyedd gorlawn lle ceir amrywiaeth o wasanaethau sy'n canolbwyntio'n benodol ar grwpiau di-waith, a chyflwyno cymorth o fewn Cymru'n Gweithio i gynorthwyo pobl gyflogedig (h.y. adolygiadau canol gyrfa).
- 4.9 Mae'r isadrannau isod yn archwilio sut mae cyrhaeddiad Cymru'n Gweithio wedi newid dros amser, yn ogystal â chanfyddiadau rhanddeiliaid, staff a chwsmeriaid o'r cymorth sy'n cael ei gynnig.

Proffil cwsmeriaid a chyrhaeddiad y gwasanaeth

- 4.10 Rhwng Chwefror 2019 a Mawrth 2023, gweithiodd Cymru'n Gweithio gyda 95,164 o gwsmeriaid drwy 120,730 o achosion ledled Cymru. Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 4.1 isod, mae nifer y cwsmeriaid sy'n derbyn cymorth wedi amrywio o flwyddyn i flwyddyn rhwng yr uchafbwynt o 30,004 o gwsmeriaid wedi'u cynorthwyo yn 2019 ac isafbwynt o 21,338 yn 2021. Nid yw hyn yn syndod wrth ystyried cau safleoedd allweddol Cymru'n Gweithio dros dro, e.e. swyddfeydd Gyrfa Cymru a safleoedd Canolfannau Byd Gwaith, yn ystod pandemig COVID-19 ym mis Mawrth 2020 (pan roddwyd cyfyngiadau symud ar waith dan orchymyn y llywodraeth).

⁷⁶ Noder bod hyn yn cyfeirio at gwsmeriaid sydd eisoes wedi ailymuno â'r gweithlu ond sydd eisiau cyngor gyrfaoedd neu gymorth cyflogadwyedd ychwanegol.

Ffigur 4.1: Achosion cwsmeriaid Cymru'n Gweithio, fesul blwyddyn a grŵp oedran



Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=98,874 o achosion cwsmeriaid). Noder bod 2023 wedi'i heithrio am mai dim ond tri mis cyntaf 2023 y mae'r data hyn yn eu cynnwys ar hyn o bryd. Noder bod y dadansoddiad hwn ond yn cynnwys oedran ar gyfer achos cyntaf cwsmer ym mhob blwyddyn sy'n golygu bod y ffigur sylfaenol yn is na chyfanswm achosion cwsmeriaid rhwng 2019 a 2022 (n=111,381). Mae'r ffigurau'n deillio o'r dyddiad y dechreuodd y cwsmeriaid dderbyn cymorth.


4.11 Mae Ffigur 4.2 a Ffigur 4.3 isod yn dangos gwasgariad daearyddol ymgysylltiad cwsmeriaid â Chymru'n Gweithio ledled Cymru. Mae Ffigur 4.2 hefyd yn rhoi manylion am leoliad safleoedd cydleoli⁷⁷. Fel y gellid disgwyl (o ystyried maint y boblogaeth), mae gwybodaeth fonitro yn awgrymu bod dros 10 y cant o'r holl gwsmeriaid yn byw yng Nghaerdydd (11.6 y cant; 9,960/86,123), a bod bron i ddau y cant o'r sampl yn byw yng Ngheredigion (1.9 y cant; 1,633/86,123).

4.12 Yn y rhan fwyaf o achosion, fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 4.3, mae'r ymgysylltiad â chwsmeriaid yn adlewyrchu maint y boblogaeth yn fras ar draws awdurdodau lleol. Mae'n ymddangos mai cwsmeriaid ym Mlaenau Gwent, Sir Gaerfyrddin a Chaerffili sy'n cael eu gorgynrychioli fwyaf ar sail maint y boblogaeth gyffredinol, a chwsmeriaid yn Sir y Fflint a Chaerdydd sy'n cael eu tangynrychioli fwyaf. Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o pam fod rhai ardaloedd yn cael eu gorgynrychioli neu eu tangynrychioli, dylai darpariaeth yn y dyfodol geisio datblygu

⁷⁷ Mae safle cydleoli yn golygu safle gwasanaeth neu raglen arall y mae staff Cymru'n Gweithio hefyd wedi'u lleoli ynddi. Yn dibynnu ar y safle cydleoli, gall staff fod wedi'u lleoli ar y safle bum diwrnod yr wythnos neu lai yn seiliedig ar y cytundeb.


prosesau systematig lle mae Gyrfa Cymru yn rhannu'r wybodaeth gyd-destunol hon â thimau rhanbarthol Cymru'n Gweithio i sicrhau bod mwy o ddeialog ynghylch perfformiad ac ymgysylltiad.

Ffigur 4.2: Canran y trigolion mewn ward a oedd yn gwsmeriaid Cymru'n Gweithio, wedi'i mapio fesul ward



Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=80,730 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid) a data wardiau o Gyfrifiad 2021. Nid oedd cofnodion wedi'u cynnwys lle na ddarparwyd data ward. Mae rhai ardaloedd yn Lloegr wedi'u hamlygu am fod 117 o gwsmeriaid wedi'u nodi fel rhai oedd yn byw mewn wardiau yn Lloegr. Mae rhagor o fanylion am hyn i'w gweld yn y fethodoleg.

Ffigur 4.3: Cwsmeriaid sy'n ymgysylltu â Chymru'n Gweithio (Chwefror 2019–Mawrth 2023), fesul awdurdod lleol




Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n= 85,965 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid) a Chyfrifiad 2021 (n= 1,835,580). Nid yw hyn yn cynnwys pan nad yw lleoliad cwsmer yn hysbys na lleoliadau cwsmeriaid y tu allan i Gymru. Ceir rhagor o fanylion am ddata lleoliadau nad yw ar gael yn yr adran Cyfyngiadau ac Ystyriaethau yn y fethodoleg.

4.13 Yn seiliedig ar ddiffiniadau Llywodraeth Cymru o natur wledig, fel y trafodwyd yn y fethodoleg, mae bron i draean (30 y cant; 25,790/85,965) o holl gwsmeriaid

Cymru'n Gweithio yn byw mewn awdurdodau gwledig, mae chwarter y cwsmeriaid yn byw mewn awdurdodau trefol a bron i chwarter yn byw yn awdurdodau'r cymoedd (Ffigur 4.4 isod). O ystyried bod awdurdodau lleol wedi'u cwmpasu'n gymesur, ynghyd â dosbarthiad cwsmeriaid ar draws ystod o ardaloedd trefol a gwledig, mae'n ymddangos bod Cymru'n Gweithio yn cwmpasu ystod amrywiol o ddaearyddiaeth ledled Cymru yn effeithiol.


Ffigur 4.4: Dosbarthiad daearyddol cwsmeriaid Cymru'n Gweithio



Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=85,965 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Nid yw hyn yn cynnwys pan nad yw lleoliad cwsmer yn hysbys na lleoliadau cwsmeriaid y tu allan i Gymru. Ceir rhagor o fanylion am ddata lleoliad nad yw ar gael yn adran 2.6 y fethodoleg. Noder bod y symiau yn y siart hwn yn dod i gyfanswm o dros 100% oherwydd talgrynnu.

4.14 Mae Ffigur 4.5 yn dangos mai cwsmeriaid Cymru'n Gweithio rhwng 25 a 49 oed yn gyson oedd y garfan oedran fwyaf i ddefnyddio cymorth Cymru'n Gweithio ar gyfer pob blwyddyn o gyflawni (39 y cant; 47,076/120,708 o achosion). Er bod data 2023 yn dal i gael ei gasglu, caiff ei dybio y bydd y grŵp oedran 18–24 yn parhau i fod yn is nag yn y blynyddoedd blaenorol oherwydd gallu pobl ifanc i hunangyfeirio at raglen Twf Swyddi Cymru + (Mai 2022).

Ffigur 4.5: Achosion bob blwyddyn, yn ôl grwpiau oedran



Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=120,708 o achosion cwsmeriaid). Noder bod data o 2023 yn anghyflawn am fod y gwaith o gasglu'r data yma yn mynd rhagddo. Mae data ar oedranau a adroddwyd yr ystyriwyd eu bod yn annibynadwy hefyd wedi'u hepgor (e.e. 0 oed).

4.15 Mae Tabl 4.1 yn dangos bod 92 y cant o'r holl gwsmeriaid wedi nodi eu bod yn Wyn, sy'n cyd-fynd â data Cyfrifiad 2021 (lle nododd 93.8 y cant o boblogaeth Cymru eu bod hefyd yn Wyn)⁷⁸. Asiaidd/Prydeinig yw'r ail grŵp ethnig mwyaf a nodwyd yn rhaglen Cymru'n Gweithio (2.4 y cant) ac ar draws poblogaeth Cymru (2.9 y cant).⁷⁹ Mae nifer y cwsmeriaid sy'n nodi bod ganddynt ethnigrwydd cymysg yn gyson ar draws Cymru'n Gweithio a data'r Cyfrifiad (1.8 y cant yn sampl Cymru'n Gweithio ac 1.6 y cant ledled Cymru), ac mae cwsmeriaid sy'n nodi eu bod yn Ddu/Prydeinig wedi'u gorgynrychioli yn rhaglen Cymru'n Gweithio o gymharu â gweddill y wlad (1.8 y cant o gymharu â 0.9 y cant). Mae hyn yn dangos bod proffil ethnig cwsmeriaid sy'n ymgysylltu â Chymru'n Gweithio yn cyd-fynd yn fras â'r proffil ethnig ledled Cymru. Er nad oes targedau demograffig sefydlog ar gyfer

⁷⁸ Llywodraeth Cymru (2022) [Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru](#) (Cyfrifiad 2021).

⁷⁹ Noder bod y data hwn wedi'i gyfanredu a'i gasglu yn y data monitro yn fanwl er mwyn dangos canrannau mwy ystyrlon o boblogaeth y rhaglen. Bwriad y categorïau hyn yw dal treftadaeth ethnig cwsmeriaid yn unig, a chyn belled ag y bo modd, hepgor ystyriaethau ynghylch cenedligrwydd, dinasyddiaeth a hunaniaeth genedlaethol.

ymgysylltu â chwsmeriaid Cymru'n Gweithio, mae ymgysylltiad y gwasanaeth â grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn gyfrannol uwch nag yn rhai o raglenni cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru (fel Twf Swyddi Cymru +) ac yn unol ag eraill (fel Rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol)⁸⁰.

- 4.16 Mae cwsmeriaid gwrywaidd yn cyfrif am ychydig o dan 60 y cant o gyfanswm y cwsmeriaid sy'n ymgysylltu â Chymru'n Gweithio. Er bod cyfraddau diweithdra ymhlith gwrywod ledled Cymru ychydig yn uwch nag ymhlith benywod (3.9 y cant o gymharu â 3.2 y cant⁸¹), mae benywod yn gyfran ychydig yn uwch o'r boblogaeth (51.1 y cant o gymharu â 48.9 y cant) ac mae cyfradd uwch o fenywod economaidd anweithgar na gwrywod (27.3 y cant o gymharu ag 19.8 y cant). Gan fod rhaglen Cymru'n Gweithio wedi'i dylunio i fod yn hygyrch i bobl gyflogedig, di-waith, ac economaidd anweithgar ledled Cymru, mae ystadegau'r boblogaeth yn awgrymu bod gwrywod wedi eu gorgynrychioli yn y sampl o gwsmeriaid. Dylid cynnal ymchwiliad ychwanegol ar lefel leol i ddeall yn well pam fod mwy o wrywod yn ymgysylltu â'r gwasanaeth a sut y gallai allgymorth ymgysylltu'n well â benywod.
- 4.17 Mae asesiadau demograffig o broffil cwsmeriaid Cymru'n Gweithio hefyd yn awgrymu bod pobl anabl yn cael eu tangynrychioli ar draws y sampl, gydag 8.2 y cant o gwsmeriaid Cymru'n Gweithio yn nodi eu bod yn anabl o gymharu â 21.1 y cant ledled y wlad. Mewn cyfweiliadau â staff a rhanddeiliaid, dim ond mewn ychydig o achosion y cododd anhawster i ymgysylltu â phobl anabl⁸². Lle y cyfeiriwyd ato, awgrymodd staff mai ychydig iawn o bobl anabl y maent yn ymgysylltu â nhw am fod gan y Ganolfan Byd Gwaith ddulliau 'cadarn iawn' ar waith i gynorthwyo pobl anabl i ddod o hyd i waith. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu bod y Ganolfan Byd Gwaith a rhaglenni eraill yr Adran Gwaith a Phensiynau yn yr un modd yn ei chael yn anodd ymgysylltu â phobl anabl oherwydd canfyddiad ymhlith darpar gwsmeriaid o ddiffyg ymddiriedaeth yng ngwasanaethau cymorth cyflogaeth y llywodraeth⁸³. Mae rhaglenni cymorth cyflogadwyedd eraill, fel y rhai sy'n cael eu

⁸⁰ Mae nodweddion demograffig y rhai sy'n cymryd rhan yn rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol Llywodraeth Cymru i'w gweld yn [adroddiad terfynol](#) Mehefin 2023 ar dudalen 59.

⁸¹ Llywodraeth Cymru (2023) [Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth](#).

⁸² Er mai ychydig o adborth gwerthuso a gafwyd ar y cymorth sy'n cael ei ddarparu i bobl anabl, noder bod Gyrfa Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â [SignVideo](#) er mwyn bod yn hygyrch i'r gymuned Fyddar a BSL.

⁸³ Pwyllgor Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU (2021) [Disability Employment Gap Report](#).

cynorthwyo drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, hefyd wedi ei chael yn anodd ymgysylltu â chwsmeriaid economaidd anweithgar⁸⁴ gan gynnwys cwsmeriaid anabl a rhai â chyflyrau iechyd hirdymor. Ym mis Hydref 2023, roedd y bwch cyflogaeth anabledd (y gwahaniaeth yn y gyfradd cyflogaeth rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl) yn 29 y cant⁸⁵. Mae hyn yn awgrymu bod heriau o hyd ledled y DU o ran cael unigolion anabl i ymgysylltu â chymorth cyflogaeth, a chyflogaeth. Mae'n debygol bod anawsterau o ran ymgysylltu â chwsmeriaid o fewn Cymru'n Gweithio yn cyd-fynd â'r cyd-destun ehangach hwn.

Tabl 4.1: Demograffeg cwsmeriaid Cymru'n Gweithio

Categori	Is-gategori	N	%
Ethnigrwydd (n=83,218) ⁸⁶	Gwyn	76,577	92.0%
	Asiaidd/Prydeinig	1,996	2.4%
	Du/Prydeinig	1,470	1.8%
	Cymysg	1,469	1.8%
	Grŵp ethnig arall	1,706	2.1%
Rhyw (n=95,005)	Gwryw	56,296	59.3%
	Benyw	38,553	40.6%
	Arall	156	0.2%
Anabledd (n=65,204)	Nac oes	59,839	91.8%
	Oes	5,365	8.2%
Dewis iaith – llafar (n=76,945)	Saesneg	75,152	97.7%
	Cymraeg	1,793	2.3%
Dewis iaith – ysgrifenedig (n=76,941)	Saesneg	75,248	97.8%
	Cymraeg	1,693	2.2%

Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=95,164 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Noder, ar gyfer pob categori, y cafodd cwsmeriaid eu heithrio lle na ddarparwyd data demograffig.

⁸⁴ Noder bod [anweithgarwch economaidd](#) yn cael ei ddiffinio fel unigolyn nad yw mewn cyflogaeth, nad yw wedi bod yn chwilio am waith yn y pedair wythnos diwethaf a/neu nad yw'n gallu dechrau gweithio o fewn y pythefnos nesaf.

⁸⁵ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023) [Employment of Disabled People](#).

⁸⁶ Noder bod y data hwn wedi'i gyfanredu a'i gasglu yn y data monitro yn fanwl er mwyn dangos canrannau mwy ystyrlon o boblogaeth y rhaglen. Bwriad y categorïau hyn yw dal treftadaeth ethnig cwsmeriaid yn unig, a chyn belled ag y bo modd, hepgor ystyriaethau ynghylch cenedligrwydd, dinasyddiaeth a hunaniaeth genedlaethol.

4.18 Mae Tabl 4.2 isod yn rhoi manylion ychwanegol am amgylchiadau ychwanegol ar gyfer cwsmeriaid yn ôl achosion o gael cymorth. Mae hyn yn dangos yr ystod eang o gwsmeriaid ac anghenion cwsmeriaid y mae Cymru'n Gweithio wedi'u cynorthwyo ers ei sefydlu.

Tabl 4.2: Amgylchiadau ychwanegol cwsmeriaid yn ôl achosion

Categori amgylchiadau ychwanegol	N	%
Plentyn sy'n derbyn gofal neu berson sy'n gadael gofal	921	0.8%
Gwasanaeth Troseddau leuencid – manylion ymddygiad troseddol	361	0.3%
Prawf	278	0.2%
Saesneg fel iaith ychwanegol	247	0.2%
Yn y ddalfa	216	0.2%
Materion tai neu ddigartref	198	0.2%
Rhiant sengl ifanc neu feichiog	184	0.2%
Materion yn ymwneud â sylweddau	145	0.1%
Gofalwr	145	0.1%

Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=120,730 o achosion cwsmeriaid)

4.19 Mewn dros hanner holl achosion Cymru'n Gweithio (53 y cant; 63,853/120,477), roedd y cwsmeriaid yn ddi-waith wrth gyrchu rhaglen Cymru'n Gweithio, sy'n amlygu eto bod hon yn ddemograffeg allweddol i'r gwasanaeth. O ystyried bod 21 y cant o bobl o oedran gweithio yng Nghymru yn economaidd anweithgar⁸⁷, mae'n ymddangos bod cyfran y cwsmeriaid economaidd anweithgar sy'n cyrchu rhaglen Cymru'n Gweithio yn isel⁸⁸. Fel yr amlygwyd yn Adran 4.17, mae hyn yn cyd-fynd â heriau a nodwyd mewn rhaglenni cyflogadwyedd eraill, lle mae ymgysylltu â chwsmeriaid economaidd anweithgar wedi bod yn her gyson. Dros amser, bu cynnydd yn nifer y cwsmeriaid cyflogedig sy'n ymgysylltu â Chymru'n Gweithio i adolygu eu sgiliau a'u dilyniant gyrfa. Mae hyn yn cadarnhau bod ystod eang o gymorth, wedi'i deilwra i wahanol anghenion, wedi bod ac yn parhau i fod i'w ddisgwyl gan Gymru'n Gweithio.

⁸⁷ Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys myfyrwyr.

⁸⁸ Llywodraeth Cymru (2023) [Ystadegau'r Farchnad Lafur \(Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth\) Ebrill 2022 i Fawrth 2023](#).

Tabl 4.3: Statws cyflogaeth cwsmeriaid ar gyrchu Cymru'n Gweithio, % yr achosion fesul blwyddyn

Statws cyflogaeth	2019	2020	2021	2022	2023	Cyfanswm
Di-waith	57%	63%	60%	51%	56%	53%
Cyflogedig	17%	20%	18%	21%	24%	19%
Economaidd anweithgar	6%	4%	8%	9%	7%	8%
Addysg bellach	6%	4%	5%	10%	8%	6%
Yn yr ysgol	9%	6%	6%	5%	1%	6%
Prentisiaeth neu hyfforddeiaeth	3%	2%	2%	2%	1%	5%
Addysg uwch	0%	0%	0%	1%	2%	1%
Gwirfoddoli	0%	0%	0%	0%	0%	1%
Yn ymwneud â Thwf Swyddi Cymru +	0%	0%	0%	1%	1%	0%
Arall	1%	1%	1%	0%	1%	1%

Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=120,477 o achosion cwsmeriaid). Noder nad yw hyn yn cynnwys lle mae'r statws wrth ymuno yn anhysbys.

4.20 Fel sy'n cael ei ddangos yn Nhabl 4.4 isod, mae cyfradd gyson y cwsmeriaid â chymwysterau isel a gyrchodd raglen Cymru'n Gweithio rhwng 2019 a 2023 yn dangos bod y gwasanaeth yn dal i ddarparu ar gyfer y ddemograffeg hon yn bennaf. Fodd bynnag, dros amser, mae Cymru'n Gweithio wedi gweithio gydag ychydig mwy o gwsmeriaid â chymwysterau Lefel 6 neu uwch; roedd gan chwech y cant o achosion Cymru'n Gweithio yn 2019 gymhwyster Lefel 6 neu gyfwerth o gymharu â naw y cant o'r achosion yn 2022. Mae'n debygol bod y cynnydd hwn o ganlyniad i dueddiadau ehangach yn y farchnad lafur (e.e. cyfraddau uwch o ddiswyddiadau rhwng 2020 a 2022 yn ogystal ag unigolion hŷn medrus yn dychwelyd i'r gweithlu). Mae demograffeg ac anghenion newidiol cwsmeriaid yn dangos gwerth ehangach model Cymru'n Gweithio a'i ddull gweithredu ar gyfer Cymru gyfan. Drwy gadw meini prawf cymhwysedd eang lle gall pob unigolyn sy'n byw ac yn gallu gweithio'n gyfreithiol yng Nghymru gael mynediad at y gwasanaeth, mae Cymru'n Gweithio yn cefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i annog twf economaidd a chynhyrchiant ledled y wlad ar gyfer sectorau a phob lefel sgiliau.


Tabl 4.4: Lefel cymhwyster cwsmeriaid, % yr achosion fesul blwyddyn

Lefel cymhwyster	2019	2020	2021	2022	2023	Cyfanswm
Dim (dim cymwysterau)	10%	7%	8%	10%	10%	9%
Lefel Mynediad	6%	4%	5%	4%	4%	5%
Lefel 1	17%	14%	13%	13%	14%	14%
Lefel 2	33%	33%	34%	34%	33%	33%
Lefel 3	15%	19%	19%	18%	16%	18%
Lefel 4	4%	5%	5%	4%	4%	5%
Lefel 5	3%	4%	3%	3%	3%	3%
Lefel 6	6%	8%	9%	9%	11%	8%
Lefel 7	2%	2%	2%	3%	3%	2%
Lefel 8	0%	0%	0%	0%	1%	0%
Cymwysterau eraill	3%	3%	2%	1%	1%	2%

Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=53,627 o achosion cwsmeriaid). Noder nad yw hyn yn cynnwys lle nad yw lefel y cymhwyster yn hysbys (n=67,103 o achosion cwsmeriaid), a hefyd bod y canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. O ganlyniad, gall y cyfansymiau fod yn fwy na 100 y cant.

- 4.21 Dros amser, mae Cymru'n Gweithio wedi ceisio cynyddu a gwella'r cymorth sy'n cael ei gynnig i ffoaduriaid a mudwyr am fod mwy o bobl yn ceisio lloches yng Nghymru o ganlyniad i argyfyngau a gwrthdaro sy'n dod i'r amlwg ac sy'n parhau ledled y byd. I gynnig y cymorth hwn, mae'r gwasanaeth wedi gweithio fwyfwy gyda phartneriaid arbenigol, e.e. Cyngor Ffoaduriaid Cymru, gan gynyddu allgymorth i'r cymunedau hyn.
- 4.22 Yn ôl gwaith dadansoddi, mae Cymru'n Gweithio wedi cynorthwyo 1,250 o ffoaduriaid unigol a/neu fudwyr. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn y papur crynodeb ar Ffoaduriaid a Mudwyr.
- 4.23 Roedd cwsmeriaid yn gallu rhyngweithio â'r gwasanaethau trwy amrywiol ddulliau ac, ar gyfartaledd, roedd cwsmeriaid yn ymgysylltu â'r gwasanaeth am 1.3 o achosion trwy 2.9 o ryngweithiadau gwahanol (canolrif: 2, modd: 1). Mae gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio yn dangos mai rhyngweithio dros y ffôn oedd y mwyaf poblogaidd. Caiff newidiadau mewn tueddiadau rhyngweithio dros oes y rhaglen eu harchwilio ymhellach yn yr adran Cynnig Cymorth o Bell isod.

Ffigur 4.6: Canran y rhyngweithiadau yn ôl math



Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n= 214,512 o ryngweithiadau cwsmeriaid)

Model cyflawni

- 4.24 Mewn cyfweiliadau gwerthuso terfynol, dywedodd y staff fod model cyflawni Cymru'n Gweithio yn gyson ar draws pob rhanbarth ac awdurdod lleol. Mae pob tîm rhanbarthol wedi'i leoli yn swyddfeydd Gyrfu Cymru ym mhob awdurdod lleol, ac mae gwasanaethau Cymru'n Gweithio hefyd ar gael mewn safleoedd cydleoli, safleoedd dros dro a chanolfannau allgymorth, lle mae cynghorwyr gyrfaoedd a hyfforddwyr cyflogadwyedd Cymru'n Gweithio yn gweithio gyda phartneriaid eraill (e.e. Canolfan Byd Gwaith). Deellir wedyn bod y cymorth sydd ar gael i gwsmeriaid yn cael ei arwain gan anghenion, a bod y cwsmeriaid yn gallu cael cymorth ac adolygiadau canol gyrfu yn uniongyrchol gan Gymru'n Gweithio a chael eu hatgyfeirio at gymorth cyflogadwyedd arall lle bo'n briodol.
- 4.25 Er bod y model yn gyson ledled Cymru, mae'n ymddangos bod y dull sy'n cael ei ddefnyddio i ddarparu cymorth a gwneud atgyfeiriadau yn amrywio yn dibynnu ar bartneriaid a seilwaith lleol. Ym mhob rhanbarth, mae'r seilwaith ar gyfer Cymru'n Gweithio yn amrywio yn seiliedig ar argaeledd ac agosrwydd swyddfeydd Gyrfu Cymru, perthnasoedd partner (ac felly safleoedd cydleoli), ac argaeledd a gwybodaeth am leoliadau allgymorth posibl (e.e. llyfrgelloedd, canolfannau croeso i ffoaduriaid, a safleoedd eraill sy'n berthnasol yn lleol). Mae'r hyblygrwydd hwn yn

allweddol i werth ychwanegol Cymru'n Gweithio, gan hybu cydweithredu effeithiol ac effeithlonrwydd (yn hytrach na chynnal model anhyblyg).

- 4.26 Mewn llawer o achosion, roedd staff yn gadarnhaol ynghylch y modd y gall dull gweithredu Cymru'n Gweithio gael ei addasu, gan adrodd ei fod yn caniatáu iddynt ddefnyddio'u gwybodaeth a'u rhwydweithiau lleol er mwyn rhoi darpariaeth Cymru'n Gweithio yn y sefyllfa orau i bobl leol. Fodd bynnag, adroddodd rhanddeiliaid hefyd y gall gwahaniaethau rhanbarthol yng ngwasanaeth Cymru'n Gweithio olygu bod argaeledd y cynnig yn amrywio ledled Cymru, gan arwain mewn rhai achosion at oedi o ran darparu cymorth i gwsmeriaid a/neu gwsmeriaid yn cael eu colli. Lle ystyriwyd bod darpariaeth ranbarthol Cymru'n Gweithio yn llai effeithiol, roedd hyn yn aml oherwydd pwysau ar adnoddau yn ogystal ag amrywiaeth yn y modd yr oedd gwahanol dimau rhanbarthol yn blaenoriaethu eu llwythi achosion.
- 4.27 Disgwylir y bydd dulliau gweithredu timau rhanbarthol Cymru'n Gweithio yn amrywio i gyd-fynd ag anghenion lleol. Fodd bynnag, amlygodd staff a rhanddeiliaid bryderon ynghylch cysondeb yn y cymorth sy'n cael ei gynnig yn ogystal â risgiau o ddyblygu gwaith gwasanaethau lleol eraill. Er bod hyn yn cael ei nodi fel risg, mae'r potensial bod cymorth cyflogadwyedd yn dyblygu gwaith gwasanaethau eraill yn bryder cyffredin ar gyfer ystod eang o gymorth cyflogadwyedd ledled Cymru. Caiff cymorth cyflogadwyedd ledled Cymru ei ariannu gan amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys Llywodraeth Cymru ond heb fod yn gyfyngedig iddi.⁸⁹ Mae'r pryder hwn yn awgrymu bod angen cydgysylltu cymorth cyflogadwyedd yn ehangach ledled Cymru, er y gallai hyn fod y tu hwnt i'r hyn sy'n ymarferol i Gymru'n Gweithio a Llywodraeth Cymru lle caiff cymorth ei ariannu drwy ffynonellau eraill.
- 4.28 Gallai gwell arferion rhannu gwybodaeth rhwng Gyrfa Cymru, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol⁹⁰ a thimau rhanbarthol hybu dull mwy systematig o nodi anghenion lleol, cymorth, atgyfeiriadau, a chynigion cydleoli ac allgymorth. Awgrymir y dylid dyrannu adnoddau ychwanegol neu bresennol i gyfarfodydd strategol blynyddol neu

⁸⁹ Mae hyn yn cynnwys Cynlluniau Llywodraeth y DU fel [Ailgychwyn](#) ar gyfer unigolion a fu'n derbyn Credyd Cynhwysol am 9 mis neu fwy yn olynol.

⁹⁰ Mae [Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol](#) yn gyrf strategol sydd â'r dasg o nodi blaenoriaethau rhanbarthol ac isranbarthol i ysgogi buddsoddiad mewn sgiliau. Mae'r rhain yn cynnwys cynhyrchu a dadansoddi gwybodaeth am y farchnad lafur sy'n cael eu hadrodd wedyn i Lywodraeth Cymru. Mae pedair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ledled Cymru.

chwemisol rhwng timau canolog a rhanbarthol Gyrfu Cymru a'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i gytuno ar ddulliau gweithredu lleol Cymru'n Gweithio wedi'u targedu. Gallai hyn gael ei lywio gan asesiadau o wybodaeth am y farchnad lafur leol, darpariaeth ac anghenion cymorth lleol, a data atgyfeirio Cymru'n Gweithio.

COVID-19

- 4.29 Bu newidiadau sylweddol i Gymru'n Gweithio o ganlyniad i bandemig COVID-19. Roedd y cyfyngiadau symud dan orchymyn y llywodraeth o fis Mawrth 2020 yn golygu bod angen saib dros dro mewn cymorth wyneb yn wyneb. Ehangodd hyn y ffocws a'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio digidol ac o bell â chwsmeriaid Cymru'n Gweithio, yn bennaf dros ffôn, fideo, testun, e-bost, a sgysiau gwibnegeseua. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd rhywfaint o gymorth Cymru'n Gweithio o bell ar gael cyn 2020, ond roedd y cynnig hwn yn gyfyngedig ac yn amrywiol. At hynny, arweiniodd y pandemig at lawer llai o ymgysylltiad rhwng tîm Cymru'n Gweithio â phartneriaid cydleoli ac allgymorth yn ystod y cyfyngiadau symud dan orchymyn y llywodraeth oherwydd y ffocws bryd hynny ar ddarparu cymorth o bell.
- 4.30 Roedd newidiadau i fodel cyflawni Cymru'n Gweithio sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn dangos gallu'r gwasanaeth i fod yn hyblyg ac, yn ôl y staff, wedi cael effaith gadarnhaol hirdymor ar y model darparu. Er bod cymorth o bell ar gael cyn COVID-19, mae'r math hwn o gymorth bellach yn agwedd allweddol ar ddull Cymru'n Gweithio, yn enwedig i sicrhau bod cwsmeriaid mewn lleoliadau gwledig a/neu anghysbell yn dal i allu ymgysylltu â Chymru'n Gweithio (hyd yn oed os nad yw'n hawdd iddynt fynd i safle ffisegol).
- 4.31 Yn dilyn y gyfres o gyfyngiadau symud COVID-19⁹¹, roedd ailgysylltu â phartneriaid blaenorol a newydd yn ffocws allweddol i dimau rhanbarthol Cymru'n Gweithio. Mewn llawer o achosion, disgrifiodd staff hyn fel cyfle i ailasesu eu darpariaeth bresennol, gan leihau presenoldeb staff mewn safleoedd allgymorth a chydleoli lle nad oedd llawer o ymwelwyr, sefydlu perthnasoedd newydd â phartneriaid, ac adolygu ffyrdd o weithio yn unol ag anghenion cwsmeriaid newydd (e.e. cynnig gwasanaethau galw heibio gyda'r nos). Er bod COVID-19 wedi arwain at

⁹¹ [Mae dyddiadau cyfyngiadau symud COVID-19.](#)

amrywiaeth o heriau difrifol i wasanaeth Cymru'n Gweithio a Chymru gyfan, roedd yr angen i atal rhai agweddau ar ddarparu gwasanaethau wedi galluogi timau rhanbarthol, yn gynnar yn y broses o gyflawni Cymru'n Gweithio, i fyfyrion ar beth oedd yn gweithio a beth oedd angen ei newid:


- 4.32 'Rydyn ni'n sicr wedi newid lleoliad [o ganlyniad i pandemig COVID-19]. Cyn i COVID-19 gyrraedd roedden ni'n wasanaeth eithaf newydd, felly roedden ni'n rhyw fath o roi cynnig ar bethau'n raddol a gweld o ble y gallem ni weithio. I ddechrau, fe wnaethon ni geisio cefnogi lleoliadau Cymunedau am Waith oherwydd ein barn ni oedd y byddai mwy o gwsmeriaid yno sydd hefyd angen cymorth gan Gymru'n Gweithio, ond, mewn gwirionedd, roedd yr atgyfeiriadau i ni yn go isel a doedd cael cynghorydd yno ddim yn cynnig gwerth am arian.'
(Cyfweliad â staff rheoli a chyflawni)

Codi ymwybyddiaeth ac allgymorth

- 4.33 Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 4.7 isod, mae bron i hanner (45.0 y cant; 42,560/94,585) holl gwsmeriaid Cymru'n Gweithio yn atgyfeirio eu hunain i'r gwasanaeth y tro cyntaf, tra bod dros chwarter yr atgyfeiriadau cyntaf yn cael eu gwneud drwy'r Ganolfan Byd Gwaith (29.1 y cant; 27,531/94,585)⁹². Er bod amrywiaeth eang o lwybrau atgyfeirio i mewn i Gymru'n Gweithio, mae'r ffaith bod hunanatgyfeirio yn llwybr mor amlwg yn awgrymu bod gweithgareddau codi ymwybyddiaeth cyffredinol ac allgymorth nid yn unig yn effeithiol ond hefyd yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor Cymru'n Gweithio.

⁹² Nid yw'r nifer hwn yn cynnwys atgyfeiriadau cyntaf i Gymru'n Gweithio drwy Daith Ieuenctid y Ganolfan Byd Gwaith (un y cant; 1,096/94,585).

Ffigur 4.7: Y llwybrau atgyfeirio cyntaf i raglen Cymru'n Gweithio



Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=94,585 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Noder nad yw hyn yn cynnwys lle nad yw'r llwybr atgyfeirio yn hysbys. Mae deunaw o lwybrau atgyfeirio, yr oedd pob un ohonynt yn cyfrif am lai nag 1.5 y cant o'r holl bobl a ymgysylltodd, wedi'u cyfuno i gategori 'Arall'.

4.34 Cyfeiriodd staff a rhanddeiliaid at amrywiaeth o weithgareddau codi ymwybyddiaeth ac allgymorth a fabwysiadwyd i hyrwyddo Cymru'n Gweithio ac ymgysylltu â chwsmeriaid. Roedd y rhain yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau marchnata cenedlaethol a lleol fel presenoldeb mewn digwyddiadau mawr gan gynnwys y Sioe Frenhinol, yr Eisteddfod, a digwyddiadau Pride, mynychu ffeiriau swyddi a gyrfaoedd lleol, dosbarthu taflenni a phosteri, canfasio canol trefi a chanolfannau cymunedol, ac ymgyrchoedd cenedlaethol yn y cyfryngau cymdeithasol. O ganlyniad i'r amrywiaeth hon o weithgareddau allgymorth, roedd staff a rhanddeiliaid yn teimlo bod Cymru'n Gweithio yn gallu ac yn llwyddo i gyrraedd pobl sy'n ceisio cymorth ac nad yw rhaglenni eraill efallai yn eu cyrraedd. Mae'n bwysig ystyried, fodd bynnag, y gallai'r mathau hyn o weithgareddau fod yn llai effeithiol o ran cyrraedd unigolion sydd ymhellach o'r farchnad lafur ac yn llai parod i ymgysylltu.

4.35 Ar lefel leol, teimlai staff fod bod yn 'weladwy' mewn ardaloedd lleol yn allweddol i ymwybyddiaeth lwyddiannus yn ogystal ag ymgysylltu â chwsmeriaid. Yn benodol, dywedodd staff fod angen iddynt fod 'yn y lle iawn ar yr amser iawn', gan fynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau a safleoedd lleol yn gyson i sicrhau bod unrhyw un sydd eisiau gwybod mwy am Gymru'n Gweithio yn gallu gwneud hynny. Er y deëllir

bod angen i dimau Cymru'n Gweithio fod yn hyblyg ac ymgysylltu ag ystod eang o bobl, dangosodd y cyfweiliadau mai cyfyngedig yw'r strategaeth hyrwyddo gyson yn lleol, a bod yn rhaid i lawer o dimau rhanbarthol ddibynnu ar wybodaeth lleol a phartneriaid i hyrwyddo Cymru'n Gweithio:

- 4.36 'Wel, yr un [...] sy'n eithaf heriol i fy nhîm i yw nad wyf yn meddwl bod ein swyddfa'n ddigon amlwg i allu hysbysebu ein gwasanaethau ac rwy'n mynd i'r afael â hynny drwy farchnata. [...] Yn aml iawn bydd pobl yn dod i mewn i'r swyddfa ac yn dweud, "Ers faint o amser ydych chi wedi bod fan hyn? Ydych chi'n newydd i'r ardal?" Rydych chi'n gwybod pan maen nhw wedi byw yn [yr ardal] am 20 mlynedd hefyd a dydyn nhw ddim hyd yn oed yn gwybod ein bod ni yma ac rydyn ni yna ar y stryd fawr.' **(Cyfweiliad â staff)**
- 4.37 Roedd rhanddeiliaid a staff yn canmol yr adnodd sydd ar gael drwy'r tîm cyfryngau cymdeithasol canolog ar gyfer Cymru'n Gweithio, gan y canfuwyd bod ganddo fwy o gapasiti na rhaglenni cymorth eraill i arddangos y gwasanaeth ac ymgysylltu â darpar gwsmeriaid. Fodd bynnag, awgrymodd staff a rhanddeiliaid hefyd nad yw'r cyfryngau cymdeithasol cenedlaethol ar gyfer Cymru'n Gweithio 'yn mynd yn ddigon pell' am na all roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau lleol na thargedu grwpiau penodol y mae timau rhanbarthol yn awyddus i'w cynorthwyo:
- 4.38 'Yr un her yw agwedd Cymru gyfan at y marchnata — dydyn nhw ddim yn targedu [marchnata] at ardaloedd neu ranbarthau unigol. Mae angen ichi fynd ati mewn ffordd wahanol. Fe allen nhw wneud mwy am greu ymgysylltiad [pe bai'r marchnata'n cael ei dargedu], yn enwedig pobl ifanc NEET nad ydyn nhw efallai'n hawlio [Credyd Cynhwysol].' **(Cyfweiliad â rhanddeiliaid)**
- 4.39 Dylai darpariaeth yn y dyfodol ystyried os a sut y gellid darparu adnoddau ychwanegol i dimau rhanbarthol er mwyn iddynt wella eu harlwy lleol ac ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol. Dylai unrhyw strategaethau cyfryngau cymdeithasol lleol ychwanegol gyd-fynd ag anghenion lleol a nodwyd rhwng timau rhanbarthol a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ac mewn ymateb i ddata Gyrfa Cymru.
- 4.40 Wrth fyfyrto ar ba mor dda y mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu â darpar gwsmeriaid, nododd staff a rhanddeiliaid y gall diffyg gwahaniaethu rhwng Cymru'n Gweithio a

Gyrfa Cymru fod yn ddryslyd ac yn broblematic. Mewn rhai achosion, nododd staff a rhanddeiliaid y gallai'r gwahaniaeth rhwng Gyrfa Cymru a Chymru'n Gweithio fod yn aneglur i staff a chwsmeriaid oherwydd y cymorth tebyg sy'n cael ei gynnig. Caiff yr her hon ei harchwilio'n fanylach yn Adran 5.

- 4.41 Tynnodd staff sylw at y ffaith bod nifer o grwpiau y maent yn ei chael yn anodd eu cynnwys yng ngweithgareddau Cymru'n Gweithio. Yn fwyaf aml, dywedodd staff y gall ymgysylltu â phobl ifanc fod yn heriol. Yn yr achosion hyn, awgrymodd staff ei bod yn anodd, yn benodol, ailennyn diddordeb pobl ifanc mewn unrhyw fath o ddarpariaeth ar ôl iddynt adael addysg ffurfiol a/neu gymorth arall. Yn ogystal, awgrymodd rhanddeiliaid ei bod yn anodd ymgysylltu â phobl ifanc agored i niwed a phobl ifanc NEET am nad ydynt fel arfer yn ymgysylltu ag allgymorth Cymru'n Gweithio a'u bod wedi'u hynysu'n fwy yn gymdeithasol na grwpiau eraill. Mae'n bwysig cydnabod, fodd bynnag, nad oes gan Gymru'n Gweithio gyfrifoldeb i gynorthwyo pobl ifanc NEET, fel yr amlygwyd yn y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid⁹³. Er ei bod yn ymddangos bod allgymorth presennol Cymru'n Gweithio yn effeithiol ar gyfer grwpiau oedran hŷn, efallai y bydd angen ymwneud mwy â chymorth ieuenctid arbenigol mewn ardaloedd lleol er mwyn targedu pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio o addysg a/neu gymorth arall yn well.
- 4.42 Roedd hefyd yn gyffredin i staff a rhanddeiliaid ddweud eu bod yn wynebu heriau wrth ymgysylltu ag unigolion sy'n nodi eu bod yn Ddu, Asiaidd a/neu o grŵp ethnig leiafrifol arall. Yn yr achosion hyn, awgrymodd staff nad yw eu gweithlu ar y cyfan yn gynrychioliadol o'r poblogaethau y maent yn ceisio eu gwasanaethu, gyda'r rhan fwyaf o staff yn nodi eu bod yn Wyn. Tra bod timau rhanbarthol Cymru'n Gweithio, lle bo'n bosibl, yn ceisio gweithio gyda phartneriaid sy'n cynrychioli grwpiau ethnig leiafrifol yn well, roedd staff yn cydnabod y gallai fod angen mwy o ymdrechion i amrywio tîm cyflawni Cymru'n Gweithio yn y dyfodol i sicrhau bod unigolion ledled Cymru, waeth beth fo'u hethnigrwydd, yn teimlo'n fwy cyfforddus ynglŷn â defnyddio'r gwasanaeth. Yn unol â'r adborth hwn, mae adroddiadau mewnol Cymru'n Gweithio ar gynnydd tuag at eu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 4 blynedd yn amlinellu bod ymdrechion wedi'u gwneud i ymgysylltu â phartneriaid sy'n


⁹³ [Ceir rhagor o fanylion am fodel haenau a dyletswyddau cyfrifoldeb y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid](#)

cynorthwyo cwsmeriaid o gefndir ethnig leiafrifol a bod hyn wedi arwain at fwy o gynrychiolaeth o blith grwpiau cwsmeriaid ethnig leiafrifol. Bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r gwasanaeth wrth symud ymlaen. Mae gwasanaeth Cymru'n Gweithio hefyd yn anelu at barhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i roi eu [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#) ar waith o fewn gweithgareddau Cymru'n Gweithio.

Cynnig cymorth o bell

- 4.43 Mae Ffigur 4.8 isod yn dangos y cynnydd sylweddol mewn cymorth o bell Cymru'n Gweithio mewn ymateb i bandemig COVID-19. Fel sy'n cael ei ddisgrifio yn Adran 4.29, arweiniodd y pandemig at addasu'r gwasanaeth ar unwaith lle cafodd yr holl gymorth wyneb yn wyneb ei atal a'i gynnig drwy alwad ffôn, galwad fideo, neges destun neu e-bost. Dros amser, mae'r arfer o ryngweithio o bell wedi lleihau, ac mae cymorth wyneb yn wyneb wedi cynyddu'n arafach. O 2023 ymlaen, cymorth 'cyfunol' lle mae cwsmeriaid yn cael cyfuniad o gymorth wyneb yn wyneb ac o bell sydd fwyaf cyffredin, sef dwy ran o bump (42 y cant) o holl achosion Cymru'n Gweithio. Mae hyn yn awgrymu, y tu hwnt i oes cyfyngiadau'r pandemig, bod galw sylweddol o hyd am ddarpariaeth cymorth o bell Cymru'n Gweithio, ond mai cyfuniad o gymorth o bell ac wyneb yn wyneb yw dewis y cwsmeriaid.


Ffigur 4.8: Cymorth a dderbyniwyd gan gwsmeriaid bob blwyddyn, % yr achosion yn ôl dull rhyngweithio



Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=100,845 o achosion cwsmeriaid). Cyfrifir y seiliau canrannol fel nifer achosion Cymru'n Gweithio a ddigwyddodd ym mhob blwyddyn.

- 4.44 Roedd staff a rhanddeiliaid yn aml yn canmol y defnydd parhaus o gymorth ‘cyfunol’ lle gall cwsmeriaid benderfynu a ydynt am ymgysylltu â staff Cymru’n Gweithio wyneb yn wyneb neu o bell (dros y ffôn neu drwy alwad fideo fel arfer). Teimlwyd bod darparu ystod o opsiynau yn golygu cynnal gwasanaeth hyblyg y gellir ei addasu sy'n ymateb i anghenion cwsmeriaid. Dywedwyd bod y dull hwn yn arbennig o fuddiol i gwsmeriaid mewn lleoliadau gwledig.
- 4.45 Mae Ffigur 4.9 isod yn dangos mai mewn awdurdodau lleol â llai o boblogaeth, yn enwedig awdurdodau gwledig, y defnyddiwyd y cynnig o bell amlaf. Fodd bynnag, darpariaeth ‘o bell yn unig’, lle mae cwsmeriaid wedi derbyn cymorth Cymru’n Gweithio drwy alwad ffôn, galwad fideo, e-bost, a gwasanaethau negeseuon eraill yn unig, a heb gael mynediad at gymorth Cymru’n Gweithio yn bersonol, yw’r dull rhyngweithio mwyaf cyffredin ar draws pob math o awdurdod lleol. Mae hyn yn awgrymu, o gael y dewis, mai o bell y mae cwsmeriaid yn rhyngweithio’n fwyaf cyffredin â gwasanaethau Cymru’n Gweithio.

Ffigur 4.9: Modd rhyngweithio cwsmeriaid, yn ôl teipoleg yr awdurdod lleol



Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=67,316 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Noder nad yw hyn yn cynnwys cwsmeriaid na chofnodwyd unrhyw ddata daearyddol ar eu cyfer neu lle cofnodwyd lleoliad daearyddol y tu allan i Gymru. Mae hyn hefyd yn eithrio cwsmeriaid lle nad oes rhyngweithiadau â Chymru'n Gweithio wedi'u cofnodi ar eu cyfer. Ceir rhagor o fanylion am ddata lleoliad a math o rhyngweithio nad yw ar gael yn yr adran Cyfyngiadau ac Ystyriaethau yn y fethodoleg.

Tabl 4.5: Modd rhyngweithio cwsmeriaid, yn ôl teipoleg awdurdod lleol ac achosion cwsmeriaid bob blwyddyn

Math o awdurdod	Modd rhyngweithio	2019	2020	2021	2022
Awdurdodau gwledig	Wyneb yn wyneb yn unig	64%	20%	8%	18%
	O bell yn unig	7%	69%	78%	43%
	Y ddau	29%	12%	14%	38%
	Cyfanswm N	4,288	4,861	5,199	6,734
Awdurdodau trefol	Wyneb yn wyneb yn unig	69%	26%	12%	23%
	O bell yn unig	5%	60%	73%	41%
	Y ddau	26%	14%	15%	36%
	Cyfanswm N	3,419	3,366	3,749	5,491
Awdurdodau'r cymoedd	Wyneb yn wyneb yn unig	76%	23%	7%	20%
	O bell yn unig	5%	67%	83%	48%
	Y ddau	19%	10%	10%	32%
	Cyfanswm N	4,009	3,645	3,738	4,591
Awdurdodau eraill	Wyneb yn wyneb yn unig	76%	25%	11%	19%
	O bell yn unig	5%	66%	74%	41%
	Y ddau	19%	9%	14%	40%
	Cyfanswm N	3,178	3,316	3,361	4,775

Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=67,720 o achosion cwsmeriaid). Cyfrifwyd y seiliau canrannol yn ôl achosion cyntaf y cwsmeriaid y flwyddyn honno ym mhob teipoleg awdurdod lleol (Cyfanswm N). Mae hyn yn golygu bod y ffigwr sylfaenol yn is na chyfanswm yr achosion o gwsmeriaid rhwng 2019 a 2022 (n=75,350 o gwsmeriaid). Mae'r ffigurau'n deillio o'r dyddiad y dechreuodd y cwsmeriaid dderbyn cymorth. Noder nad yw hyn yn cynnwys cwsmeriaid na chofnodwyd unrhyw fodd rhyngweithio nac awdurdod lleol ar eu cyfer yn ogystal â chwsmeriaid â lleoliadau y tu allan i Gymru. Ar gyfer cwsmeriaid sydd wedi symud ar draws mathau o awdurdod (n=310), defnyddiwyd y math cyntaf o awdurdod a gofnodwyd. Ceir rhagor o fanylion am ddata lleoliadau nad yw ar gael yn yr adran Cyfyngiadau ac Ystyriaethau yn y fethodoleg.

4.46 Er bod staff a rhanddeiliaid yn canmol y cyfle cynyddol i gwsmeriaid ymgysylltu â Chymru'n Gweithio o bell, roedd canfyddiad cyffredinol bod cymorth wyneb yn wyneb yn fwy effeithiol na chymorth o bell wrth fynd i'r afael â'r anghenion y mae'r cwsmeriaid yn eu cyflwyno. Nid yw'r adborth hwn yn syndod am mai'r canfyddiad yw mai darpariaeth wyneb yn wyneb yw'r dull sy'n gweithio'n fwyaf effeithiol wrth ddarparu cymorth cyflogadwyedd traddodiadol. Dywedodd staff a rhanddeiliaid fod cymorth wyneb yn wyneb, pan fydd cwsmer yn ymgysylltu â Chymru'n Gweithio am y tro cyntaf, yn caniatáu iddynt weld y 'darlun cyfan', gan gynnwys rhwystrau posibl na fyddant o bosibl yn dod yn ymwybodol ohonynt o bell. Yn yr achosion hyn, awgrymwyd bod cymorth o bell yn fwyaf effeithiol pan fydd cymorth wyneb yn wyneb wedi ei ddarparu cyn hynny. Mae hyn yn galluogi cwsmeriaid a staff i sefydlu

perthynas ymddiriedus yn bersonol cyn ymgysylltu o bell. Er bod canfyddiad bod rhyngweithio wyneb yn wyneb yn ffordd effeithiol o feithrin cydberthynas rhwng cwsmeriaid a staff, mae hefyd yn bwysig cydnabod bod cymorth o bell yn aml yn galluogi cwsmeriaid i gwrdd â chynghorydd yn gynt.


- 4.47 Yn yr un modd, dywedodd dwy ran o dair o'r cwsmeriaid yn yr arolwg a oedd yn teimlo y gallent ateb y cwestiwn (66 y cant; 74/112) y byddai'n well ganddynt gael holl gymorth Cymru'n Gweithio wyneb yn wyneb. Roedd hyn yn aml yn deillio o gwsmeriaid yn ei chael yn haws siarad â chynghorydd Cymru'n Gweithio wyneb yn wyneb am wahanol resymau gan gynnwys amhariad ar y clyw, heriau o ran Saesneg fel ail iaith, a llythrennedd digidol cyfyngedig. Mewn lleiafrif o achosion, dywedodd cwsmeriaid hefyd fod siarad â chynghorydd wyneb yn wyneb yn teimlo'n fwy personol:
- 4.48 'Mae'n well trafod rhai pethau wyneb yn wyneb. Rydych chi'n gallu dangos mwy o gonsŷrn yn bersonol. Ar y ffôn efallai y byddan nhw'n rhoi ymatebion mwy sylfaenol.' (**Ymateb arolwg cwsmeriaid**)
- 4.49 Pan ofynnwyd iddynt a oedd unrhyw agweddau ar wasanaeth Cymru'n Gweithio yr hoffent gael mynediad iddynt o bell, dywedodd y rhan fwyaf o'r cwsmeriaid a holwyd a oedd yn teimlo y gallent ateb y cwestiwn y byddai'n well ganddynt gael cymorth wyneb yn wyneb (79 y cant; 115/145). Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod y rhan fwyaf o'r cwsmeriaid a holwyd wedi bod i ganolfan Cymru'n Gweithio neu safle dros dro yn flaenorol (95 y cant; 158/167) ac wedi ei chael yn gymharol hawdd cael mynediad i safle ffisegol Cymru'n Gweithio (92 y cant; 152/166). Yn yr achosion hynny lle'r oedd cwsmeriaid eisiau cymorth o bell, roedd hyn fel arfer at ddibenion gweinyddol, e.e. trefnu apwyntiadau a chofrestru ar gyfer hyfforddiant, neu i dderbyn gwybodaeth am y farchnad lafur ac adnoddau defnyddiol eraill.
- 4.50 Cyfeiriodd lleiafrif o staff hefyd at bryderon hygrychedd mewn perthynas â chymorth o bell. Dywedodd staff y gallai cymorth ar-lein fod yn heriol i gwsmeriaid heb lawer neu ddim llythrennedd digidol a/neu sgiliau iaith Saesneg neu Gymraeg cyfyngedig. Er bod galw cyson am gymorth o bell, dylai staff Cymru'n Gweithio geisio cynnig cymorth ychwanegol i gwsmeriaid lle mae'n anodd i'r cwsmeriaid hyn gael

mynediad i safle ffisegol a lle mae eu sgiliau digidol a/neu eu sgiliau Cymraeg neu Saesneg yn gyfyngedig.

Cytleoli a safleoedd dros dro

- 4.51 Roedd staff a rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch gweithio gyda phartneriaid cydleoli. Ymhlith y partneriaid y cyfeiriwyd atynt yn gyffredin fel rhai sy'n ychwanegu gwerth at ddarpariaeth Cymru'n Gweithio roedd [y Ganolfan Byd Gwaith](#), [Cymunedau am Waith a Mwy](#), [Maximus](#), canolfannau ieuencid lleol, a'r [Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol](#).
- 4.52 Ym mis Hydref 2023, roedd gan Gymru'n Gweithio 110 o bartneriaid safle cydleoli wedi'u sefydlu. Mae Ffigur 4.10 isod yn dangos mai safleoedd lleol y Ganolfan Byd Gwaith yw dros hanner yr holl bartneriaid cydleoli (57 y cant; 63/110). Mae hyn yn dangos, er bod amrywiaeth o bartneriaid yn cael eu defnyddio wrth gyflawni Cymru'n Gweithio, bod y Ganolfan Byd Gwaith yn ganolog i'r model cyflawni.

Ffigur 4.10: Safleoedd cydleoli Cymru'n Gweithio



Ffynhonnell: Safleoedd cydleoli fel yr adroddwyd gan dîm cenedlaethol Cymru'n Gweithio (n=110). Noder bod y wybodaeth hon wedi'i rhoi i Wavehill ym mis Tachwedd 2023 gan dîm rheoli cenedlaethol Cymru'n Gweithio.

- 4.53 Dywedodd y staff fod safleoedd cydleoli yn cael eu penderfynu'n bennaf ar sail mynediad presennol i ardal lle mae galw gan gwsmeriaid a/neu nifer uchel o ymwelwyr. Cyfeiriodd staff hefyd at gymhellion strategol i weithio gyda phartneriaid cydleoli. Roedd y rhain yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid cydleoli posibl i

ddatblygu trosolwg strategol o wasanaethau lleol, lleihau dyblygu cymorth cyflogadwyedd, a chreu canolbwynt a oedd o fudd i bob partner ac o gymorth i gwsmeriaid wrth iddynt bontio rhwng gwasanaethau. Awgrymodd timau rhanbarthol Cymru'n Gweithio fod y dulliau hyn o ddarparu ar sail cydleoli yn caniatáu iddynt ystyried sut maent yn diwallu anghenion cwsmeriaid ar hyn o bryd a sut y dylid gwneud ymdrech ychwanegol, gan ysgogi effeithlonrwydd, lleihau bylchau yn y ddarpariaeth, a gwella gallu staff i groesgyfeirio cwsmeriaid.

- 4.54 Nododd llawer o staff fod y penderfyniad i weithio mewn rhai ardaloedd yn cael ei yrru gan yr angen i gael mynediad i ardal ddaearyddol neu grŵp demograffig penodol. Roedd hyn yn cynnwys mynediad i leoliadau ffisegol mewn ardaloedd mwy gwledig, lle mae cyfleusterau ffisegol fel arfer yn gyfyngedig, a'r cyfle i gynnig gwasanaethau mewn amrywiaeth o leoliadau. At hynny, nododd un aelod o staff fod angen cael gwasanaethau y tu allan i ganol trefi, gan fod rhai pobl ifanc wedi eu gwahardd rhag mynd i mewn i ganol eu trefi:
- 4.55 '[Fe wnaethon ni gyd-leoli â] Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid [fel y gallem] gael gwared ar y rhwystr hwnnw o fynd i ganol y dref, rhywbeth yr oedd rhai o'r bobl ifanc wedi eu gwahardd rhag ei wneud.' (**Cyfweliad â staff rheoli a chyflawni**)
- 4.56 Yn ystod camau cynnar darpariaeth Cymru'n Gweithio, deëllir bod y gwasanaeth wedi comisiynu astudiaeth segmentu⁹⁴ i ddarparu dadansoddiad manwl o nodweddion y boblogaeth ar draws awdurdodau lleol i lywio darpariaeth allgymorth. Yn y rhan fwyaf o achosion, disgrifiodd y staff a gyfwelwyd fod penderfyniadau ynghylch safleoedd cydleoli yn seiliedig ar wybodaeth staff am ardaloedd lleol, demograffeg pobl leol, a seilwaith a gwasanaethau. Er bod arbenigedd a gwybodaeth leol y staff yn rhoi gwerth sylweddol i Gymru'n Gweithio, gan y gall staff addasu yn seiliedig ar dueddiadau a dulliau darparu gwasanaethau sy'n dod i'r amlwg, mae risg nad yw penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail gwybodaeth gyfredol, lawn a helaeth o wasanaethau ac anghenion lleol. Fel yr amlygwyd yn flaenorol, byddai mwy o gydgysylltu gwybodaeth fonitro Gyrfu Cymru yn ogystal â deialog rhwng timau rhanbarthol, tîm dealltwriaeth data Gyrfu Cymru, a

⁹⁴ Cynhaliwyd yr astudiaeth segmentu hon gan [CACI](#).

Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn helpu'r timau rhanbarthol i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch safleoedd cydleoli.

- 4.57 Roedd perthnasoedd cydleoli â'r Ganolfan Byd Gwaith yn arbennig o bwysig i staff. Nid yw hyn yn syndod o ystyried mai'r Ganolfan Byd Gwaith oedd y partner cydleoli mwyaf cyffredin. Ym mwy na chwarter yr holl achosion, atgyfeiriwyd y cwsmeriaid at Gymru'n Gweithio drwy'r Ganolfan Byd Gwaith (28 y cant; 33,707/120,730). Ystyriwyd bod cydleoli â'r Ganolfan Byd Gwaith yn hybu atgyfeiriadau ac yn galluogi staff i gydweithio'n effeithiol, gan leihau'r risg o ddyblygu ymdrech neu weithio gyda'r un cwsmeriaid.
- 4.58 Roedd staff a rhanddeiliaid o'r farn bod cydweithio â'r Ganolfan Byd Gwaith, yn arbennig, yn arwain at lefel dda o atgyfeiriadau ar gyfer Cymru'n Gweithio. Mae prosesau atgyfeirio effeithiol i'w gweld amlaf lle mae gan staff Cymru'n Gweithio bresenoldeb ffisegol ar safleoedd y Ganolfan Byd Gwaith, gan fod hyn yn annog atgyfeiriadau ar unwaith ac ar yr un diwrnod ac yn sicrhau cyfathrebu da rhwng Cymru'n Gweithio a staff y Ganolfan Byd Gwaith. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, nododd staff nad yw lleoliadau'r Ganolfan Byd Gwaith yn gweithio i bob cwsmer oherwydd y stigma cyhoeddus presennol ynghylch mynd i mewn i safle'r Ganolfan Byd Gwaith a/neu oherwydd diffyg preifatrwydd yn y safleoedd hyn⁹⁵. Mae hyn yn awgrymu, er bod y Ganolfan Byd Gwaith yn bartner cydleoli arbennig o effeithiol, bod dulliau amrywiol o ryngweithio â chwsmeriaid ar draws nifer o bartneriaid a safleoedd yn effeithiol ar gyfer Cymru'n Gweithio.
- 4.59 Yn yr un modd â phenderfyniadau ynghylch safleoedd cydleoli, disgrifiodd llawer o staff brosesau ar gyfer nodi ac adolygu lleoliadau dros dro newydd yn seiliedig ar nifer y cwsmeriaid posibl, gydag ychydig o staff yn awgrymu eu bod yn adolygu pob lleoliad newydd ar ôl tri mis. Mewn cyfweiliadau â staff, fodd bynnag, nid oedd y gwahaniaeth rhwng allgymorth, lleoliadau dros dro, a safleoedd cydleoli bob amser yn glir. Er y caiff ei gydnabod efallai nad yw'r gwahaniaeth hwn yn glir i staff, mae'n awgrymu efallai fod angen rhannu mwy o fanylion ffurfiol am y prosesau ar gyfer dewis safleoedd cydleoli a dros dro ar draws timau rhanbarthol.

⁹⁵ Noder y caiff ei gydnabod y gallai preifatrwydd fod yn broblem mewn safleoedd cydleoli eraill hefyd; yn yr achos hwn, fodd bynnag, cyfeiriwyd yn benodol at y Ganolfan Byd Gwaith.

- 4.60 Lle y caiff ei ystyried bod safleoedd dros dro Cymru'n Gweithio yn effeithiol, maent yn diwallu angen penodol ac, mewn rhai achosion, angen brys. Roedd staff a rhanddeiliaid yn canmol safleoedd dros dro Cymru'n Gweithio mewn gweithleoedd lle'r oedd diswyddiadau torfol yn digwydd, ac awgrymwyd bod hyn yn gweithio'n dda oherwydd ei fod yn rhoi cymorth cyson ac angenrheidiol i gwsmeriaid. Mae hyn yn dangos gwerth ychwanegol model Cymru'n Gweithio, gan ei fod yn gallu ymateb yn gyflym, fel rhan o ymateb aml-asiantaeth, i ddigwyddiadau nas rhagwelwyd. Roedd staff a rhanddeiliaid hefyd o'r farn bod sefydlu safleoedd dros dro mewn canolfannau croeso i ffoaduriaid a mudwyr yn effeithiol, gan ei fod yn sicrhau bod cyngor hawdd a chywir ar gael ar unwaith i bobl sy'n dod i mewn i Gymru. Wrth i gymorth Cymru'n Gweithio barhau i gael ei gynnig i ffoaduriaid ac mudwyr ar ôl iddynt gael eu hadleoli i ffwrdd o ganolfannau croeso, ystyriwyd bod y cymorth hwn hefyd yn gyson ac yn galonogol i'r rhai oedd yn ei geisio.
- 4.61 Mewn achosion lle mae modelau dros dro yn ymddangos yn llai effeithiol, mae hyn yn aml oherwydd nifer cyfyngedig o gwsmeriaid a/neu alw. Roedd yn gyffredin i staff a rhanddeiliaid ddweud nad yw lleoliadau dros dro yn denu llawer o bobl leol mewn rhai achosion, ni waeth pa waith hyrwyddo ac allgymorth a wneir i annog pobl i ddod i'r safle. Awgrymwyd bod hyn oherwydd bod heriau ychwanegol o ran ymgysylltu â phoblogaethau gwledig, am nad oedd safleoedd dros dro yn hysbys o hyd a/neu am nad oedd y safleoedd dros dro yn cael eu cynnal ar ddiwrnodau neu ar amserau a oedd yn addas i bobl. Disgrifiodd staff a rhanddeiliaid achosion lle nad oedd safleoedd dros dro yn cael eu cynnal ar ddiwrnodau marchnad mewn trefi bach a phentrefi gwledig, gan olygu bod yn rhaid i gwsmeriaid ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus ar sawl diwrnod os oeddent hefyd am fynd i safle dros dro Cymru'n Gweithio. Er bod hyn yn ddealladwy, mae'n awgrymu bod angen mwy o gydgysylltu ar draws timau rhanbarthol i sicrhau bod safleoedd dros dro yn cael eu penderfynu ar sail niferoedd disgwylidig a sut y byddant yn diwallu anghenion lleol.
- 4.62 Dywedwyd hefyd bod y cyfuniad o safleoedd cydleoli a safleoedd dros dro niferus yn her i nifer o reolwyr staff Cymru'n Gweithio. Dywedodd rheolwyr ei bod yn anodd rheoli'r adnoddau staff cyfyngedig sy'n cael eu gwasgaru ar draws nifer o safleoedd, yn enwedig lle mae staff wedi'u lleoli mewn safleoedd cydleoli sydd â phrosesau sefydliadol gwahanol. Mae gweithio ar draws safleoedd niferus hefyd yn golygu bod

rheolwyr yn dibynnu ar staff i ymgysylltu'n effeithiol a chynnal cydberthnasau â phartneriaid. Er yr adroddwyd bod hyn yn gweithio'n dda ar y cyfan, roedd y rheolwyr yn cydnabod bod newidiadau mewn staff yn golygu y gallai fod yn anodd cynnal perthnasoedd a'r wybodaeth am yr hyn y mae Cymru'n Gweithio yn ei wneud:


- 4.63 'Mae bob amser yn heriol rheoli staff mewn lleoliad nad yw'n eiddo i chi, o ran sicrhau eu diogelwch a phethau fel gweithio ar eu pen eu hunain. Mae'n rhaid cadw at ein polisi ar gyfer gweithio mewn lleoliad allgymorth yn weddol gyflym oherwydd os mai nhw yw'r unig berson o Gymru'n Gweithio sy'n gweithio yno, yna mae'n rhaid i chi ddibynnu arnyn nhw i gymryd cyfrifoldeb dros eu hunain o ran eu diogelwch. [Mae hefyd yn anodd] rhoi'r personoliaethau cywir i mewn yno a all adeiladu'r perthnasoedd hynny â'r staff [eraill]. Rydyn ni'n dibynnu'n go helaeth ar [partneriaid] i wybod pwy ydyn ni i gael yr atgyfeiriadau hynny, felly maen nhw'n gweithio'n go agos gyda staff y Ganolfan Byd Gwaith a staff allgymorth eraill i wneud yn siŵr eu bod yn gwybod pam ein bod ni yno.'
- (Cyfweliad â staff rheoli a chyflawni)**

Llwybrau atgyfeirio

- 4.64 Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 4.11 isod, ers 2019 cyfeiriwyd dros un rhan o bump (21.9 y cant; 20,873/95,164) o'r holl ymgysylltiadau â chwsmeriaid at ReAct III, Access, neu ReAct+⁹⁶. Nid yw hyn yn syndod o ystyried bod Cymru'n Gweithio wedi cael y dasg gan Lywodraeth Cymru i gynnig cymorth fel rhan o ReAct+ ac mai dim ond drwy Gymru'n Gweithio y gellir derbyn atgyfeiriadau ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys casglu tystiolaeth am gymhwysedd, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd, cyflwyno ceisiadau am arian grant (e.e. grantiau Cymorth Datblygiad Personol), a mentora parhaus i gwsmeriaid. Fel yr amlygwyd yn Adran 4.63, roedd staff a rhanddeiliaid o'r farn bod Cymru'n Gweithio yn arbennig o effeithiol lle'r oedd yn cynnig gwasanaethau dros dro mewn gweithleoedd lle'r oedd diswyddiadau torfol wedi digwydd. Yn yr achosion hyn, mae'n debygol bod staff Cymru'n Gweithio wedi cyfeirio cwsmeriaid at ReAct+.

⁹⁶ Fel yr amlygwyd yn flaenorol, mae ReAct III ac Access wedi'u cyfuno i greu ReAct+.

Ffigur 4.11: Atgyfeiriadau Cymru'n Gweithio i gymorth arall



Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=95,164 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Mae llwybrau cymorth yr oedd llai na dau y cant o ymgysylltiadau cwsmeriaid wedi'u cyfeirio atynt wedi'u heithrio o'r siart hwn. Noder bod hunangymorth yn cyfeirio at gwsmeriaid y mae eu hanghenion cychwynnol am wybodaeth/cyngor wedi'u diwallu, bod atgyfeiriadau at gyflogaeth yn golygu lle mae cynghorwyr wedi atgyfeirio cwsmer yn benodol at gyfle, bod hyfforddiant cyflogadwyedd yn ymwneud â gwasanaeth Cymru'n Gweithio ei hun, a bod asiantaeth cymorth yn golygu unrhyw raglenni cymorth 'eraill'.

4.65 Er bod Ffigur 4.11 yn dangos crynhoed o gwsmeriaid yn cael eu cyfeirio at gymorth arall, mae hefyd yn cynrychioli ystod amrywiol o lwybrau atgyfeirio ymlaen. Mae hyn yn gadarnhaol am ei fod yn awgrymu bod Cymru'n Gweithio yn gwneud diagnosis o anghenion proffil cleientiaid amrywiol ac yn mynd i'r afael ag anghenion sylfaenol yr unigolion hynny.

4.66 Mae rhaglenni cenedlaethol y gellir atgyfeirio iddynt o ffynonellau heblaw Cymru'n Gweithio, e.e. Cymunedau am Waith a Mwy, Twf Swyddi Cymru+, a Chyfrifon Dysgu Personol, (fel y byddai disgwyl) yn derbyn llai o atgyfeiriadau gan Cymru'n Gweithio na ReAct+. Mae bron i un rhan o bump o holl gwsmeriaid Cymru'n Gweithio (19.2 y cant) yn ymddangos yn 'hunangynhaliol' ar ôl ymgysylltu â Chymru'n Gweithio gan fod 12.7 y cant wedi'u nodi fel rhai sy'n gallu cynnal eu hunain (trwy hunangymorth) a 6.5 wedi'u nodi fel rhai sydd wedi sicrhau cyflogaeth neu wedi parhau â chyflogaeth. Mae cyfuno cwsmeriaid sy'n hunangynhaliol a'r rhai sy'n cael eu hatgyfeirio at wasanaethau hyfforddi cyflogadwyedd Cymru'n Gweithio ei hun yn dangos bod 29.1 y cant (27,721/95,164) o gwsmeriaid Cymru'n Gweithio

wedi cael neu'n cael eu cynorthwyo'n effeithiol gan y gwasanaeth hwn yn unig, sy'n awgrymu effeithiolrwydd y cymorth.

Cynnig cymorth i gwsmeriaid

- 4.67 Mae data monitro ar lefel y rhaglen yn dangos, o'r holl gwsmeriaid a oedd wedi ymgysylltu â Chymru'n Gweithio, bod 75 y cant (71,257/95,164) wedi cael cymorth un-i-un yn uniongyrchol gan Gymru'n Gweithio, bod 14 y cant (13,552/95,164) wedi ymgysylltu â llinell gymorth Cyswllt Gyrfa Cymru i gael cyngor, ac y darparwyd cymorth cyswllt eiriolaeth i 25 y cant i gael mynediad at raglenni eraill (24,116/95,164).
- 4.68 Roedd staff a rhanddeiliaid yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch model cymorth Cymru'n Gweithio gan amlygu ei fod o reidrwydd yn fodel eang a all ddarparu ar gyfer llw o anghenion cwsmeriaid ar sail cymorth. Ystyrir bod yr hyblygrwydd hwn yn hanfodol, gan alluogi staff i wybod am y cymorth sy'n cael ei gynnig yn lleol, a'i ddeall, a'u galluogi i addasu yn ôl yr angen:
- 4.69 'Yr ethos yw ceisio cynnig gwasanaeth sy'n hygyrch i bawb, wedi'i leoli yn eu cymunedau yn ddigidol neu wyneb yn wyneb. Pa wasanaeth bynnag sydd ei angen arnyn nhw, rydyn ni'n ceisio ei gynnig yn y ffordd honno.' (**Cyfweliad â staff rheoli a chyflawni**)
- 4.70 Ceir tystiolaeth bellach gan gwsmeriaid i'r honiad bod cymorth wedi'i deilwra Cymru'n Gweithio yn llwyddo i gynorthwyo cwsmeriaid sydd ag ystod o anghenion. Dywedodd bron i dri chwarter y cwsmeriaid a holwyd (72 y cant; 119/165) fod Cymru'n Gweithio wedi gallu diwallu eu hanghenion cymorth 'i raddau helaeth'. Roedd hyn yn nodweddiadol oherwydd y cyngor a'r arweiniad gyrfaoedd effeithiol a ddarparwyd i gwsmeriaid.
- 4.71 Dywedodd rhanddeiliaid fod gwybodaeth benodol cynghorwyr gyrfaoedd Cymru'n Gweithio am farchnadoedd llafur lleol, rhaglenni cenedlaethol, a chymorth penodol sy'n berthnasol (e.e. arbenigedd yn ymwneud yn benodol â ffoaduriaid neu fudwyr) yn sicrhau bod cwsmeriaid yn cael cynnig cyngor manwl a chyfannol a fyddai'n anodd ei gael o unrhyw le arall.

- 4.72 Mewn llawer o achosion, y canfyddiad yw bod cynghorwyr gyrfaoedd Cymru'n Gweithio mewn sefyllfa unigryw a manteisiol lle gallant gynnig cyfarwyddyd gyrfaoedd a chymorth cyflogadwyedd diduedd o ansawdd uchel sydd o fudd uniongyrchol i'r unigolyn y maent yn gweithio gyda nhw, ynghyd â'u bod yn gallu defnyddio adnoddau ac arbenigedd ar draws eu tîm a rhaglenni eraill i sicrhau bod gan y cwsmer y cyfle gorau posibl i sicrhau camau nesaf cadarnhaol.
- 4.73 Anaml y soniwyd am hyfforddwyr cyflogadwyedd mewn cyfweiliadau gwerthuso terfynol; fodd bynnag, cyfeiriodd llawer o staff a rhanddeiliaid at y cymorth sy'n cael ei gynnig. Pan fo staff a rhanddeiliaid wedi cyfeirio at 'staff', mae'n debygol bod hyn yn cynnwys hyfforddwyr cyflogadwyedd.⁹⁷ Mae'n gyffredin i staff a rhanddeiliaid ystyried bod cymorth cyflogadwyedd yn werthfawr i raglenni eraill yn ogystal â chwsmeriaid am ei fod yn lleihau'r baich ar wasanaethau eraill wrth gynnig cymorth i lunio CV, technegau cyfweld, a chymorth chwilio am swydd.

⁹⁷ Mae'r dull 'un tîm' o fewn Cymru'n Gweithio yn sicrhau y gall anghenion y cwsmer gael eu diwallu gan yr aelod staff priodol a'r ddarpariaeth briodol. Pan fo staff a rhanddeiliaid wedi cyfeirio at 'staff' mae'n debygol mai hyfforddwyr cyflogadwyedd yw rhai o'r staff hyn ac mai cynghorwyr gyrfaoedd yw eraill.

5. Deall Model y Gwasanaeth a Photensial i'r Dyfodol

- 5.1 Mae'r adran hon yn archwilio safbwyntiau staff a rhanddeiliaid ar effeithiolrwydd Cymru'n Gweithio yn ogystal ag ystyriaethau o gryfderau a heriau allweddol y gwasanaeth. Bydd safbwyntiau staff a rhanddeiliaid ar sefyllfa Cymru'n Gweithio yn y tymor hwy hefyd yn cael eu hystyried.

Canfyddiadau staff a rhanddeiliaid o effeithiolrwydd Cymru'n Gweithio fel porth ar gyfer darpariaeth cyflogadwyedd

- 5.2 Roedd staff a rhanddeiliaid yn gadarnhaol ar y cyfan am sefyllfa Cymru'n Gweithio ac yn credu ei fod yn bwynt mynediad effeithiol ar gyfer cymorth cyflogadwyedd ledled Cymru, neu ar waith â dod yn bwynt mynediad o'r fath. O ran ystyried bod y model yn effeithiol, mae hyn yn bennaf oherwydd bod Cymru'n Gweithio bellach yn frand cydnabyddedig ac oherwydd bod staff i'w gweld yn cydweithio'n dda â phartneriaid a gwasanaethau eraill:
- 5.3 'Mae gan Gymru'n Gweithio frand da, ac mae gwaith y cynghorwyr yn werthfawr o ran nodi a chynghori ar rwystrau i'r rhai sy'n edrych am arweiniad ynglŷn â chael gwaith neu ddatblygu eu gyrfa. Mae ganddyn nhw rôl bwysig i'w chwarae fel un pwynt cyswllt / porth i bobl ledled Cymru.' (**Cyfweliad â rhanddeiliaid**)
- 5.4 Caiff ei ystyried bod staff Cymru'n Gweithio yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol â gwasanaethau eraill i sicrhau bod mwy o ymwybyddiaeth o ble y gall y gwasanaeth gynnig cymorth ac ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth cyflogadwyedd ehangach yn lleol ac yn genedlaethol, gan ddangos ei lwyddiant fel partner aml-asiantaeth. Mae hyn o gymorth i bartneriaid a gwasanaethau eraill atgyfeirio i fannau eraill os yw anghenion cwsmeriaid y tu hwnt i'w cylch gwaith. Ystyrir bod llinellau cyfathrebu clir, cyson ac effeithiol rhwng Cymru'n Gweithio a phartneriaid cymorth eraill yn agwedd allweddol ar fodel Cymru'n Gweithio, sy'n galluogi'r gwasanaeth i gael ei ystyried yn frocer a mecanwaith allweddol ar gyfer cymorth cyflogadwyedd ledled Cymru.
- 5.5 Mae staff a rhanddeiliaid o'r farn bod gan staff Cymru'n Gweithio rôl sy'n cwmpasu pob agwedd yn dda. Oddi mewn i hyn, dywedodd y rhai a gyfwelwyd fod gan staff Cymru'n Gweithio gyfoeth o wybodaeth ar draws ystod eang o feysydd. Mae hyn yn

sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu cynorthwyo a'u cyfeirio at y cymorth cywir. Mae cymorth i ffoaduriaid a mudwyr wedi ei roi fel enghraifft o sut mae Cymru'n Gweithio wedi gallu cynorthwyo cwsmeriaid ag ystod eang o anghenion, a phob un â gofynion ac amgylchiadau cyfreithiol amrywiol.

- 5.6 Dywedodd rhanddeiliaid eu bod yn ystyried bod gweithio gyda Chymru'n Gweithio yn effeithiol am fod staff y rhaglen yn 'dryloyw' ac yn 'barod i ddysgu', sy'n sicrhau bod partneriaid yn teimlo eu bod yn gweithio gyda Chymru'n Gweithio (yn hytrach nag ochr yn ochr â'r gwasanaeth). At ei gilydd, y canfyddiad yw bod yr arferion effeithiol hyn o gydweithio a rhannu gwybodaeth yn annog trosolwg mwy cydlynol a llai cymhleth o gymorth cyflogadwyedd ledled Cymru. Fodd bynnag, gellid cynnwys ystyriaeth o wasanaethau cyflogadwyedd eraill sydd ar gael o fewn sesiynau strategol wedi'u trefnu rhwng timau rhanbarthol a chenedlaethol Cymru'n Gweithio, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru. Lle bo'n bosibl, bydd hyn yn sicrhau bod timau rhanbarthol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynigion cymorth cyfredol ac yn gallu parhau i deilwra dulliau lleol yn unol â hynny. Mae'n bwysig cydnabod, er y gall Cymru'n Gweithio rannu gwybodaeth am gynigion cymorth eraill (o fewn a thu allan i Lywodraeth Cymru) nid oes gan dîm Cymru'n Gweithio a Llywodraeth Cymru reolaeth dros gynigion cymorth eraill gan lywodraeth y DU. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ychwanegol wedi'i hariannu yn y tymor byr, er enghraifft, cymorth cyflogadwyedd wedi'i ariannu drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.
- 5.7 Gwnaeth rhanddeiliaid partner hefyd fynegi pryderon ynghylch dyblygu. Awgrymodd lleiafrif o randdeiliaid partner sy'n cynnig cymorth cyflogadwyedd y gallant deimlo eu bod mewn cystadleuaeth uniongyrchol â Chymru'n Gweithio am eu bod yn derbyn llai o atgyfeiriadau gan y gwasanaeth nag y maent yn eu disgwyl. Yn yr achosion hyn, awgrymodd rhanddeiliaid mai'r rheswm am hyn oedd y gallai Cymru'n Gweithio gynnig cymorth cyflogadwyedd tebyg i wasanaethau eraill ac, felly, nad oes angen iddynt atgyfeirio cwsmeriaid at gymorth arall. Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith na all y gwerthusiad wirio'r canfyddiad hwn a fynegwyd gan randdeiliaid. At hynny, ni all y gwerthusiad wirio mai'r cymorth gan y partner dan sylw oedd y cymorth priodol i atgyfeirio cwsmeriaid iddo. Mae gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn ddiuedd ac yn ceisio cyfeirio cwsmeriaid at gymorth ar sail angen cwsmeriaid, nid ar sail targedau

atgyfeirio rhaglenni eraill. Fodd bynnag, caiff ei argymell y byddai mwy o rannu gwybodaeth rhwng Cymru'n Gweithio â phartneriaid mewn perthynas â phrosesau atgyfeirio lleol Cymru'n Gweithio yn lleddfu pryderon partneriaid ynghylch cystadleuaeth ac yn gwrthbrofi honiadau o ddyblygu. Fel yr amlygwyd yn flaenorol, argymhellir hefyd bod angen mwy o dystiolaeth ar ffurf gwybodaeth a dealltwriaeth Gyrfa Cymru i lywio gwybodaeth ar ddulliau lleol ar y cyd ag adborth gan dimau rhanbarthol a chenedlaethol Cymru'n Gweithio, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru. Bydd mwy o rannu gwybodaeth a thystiolaeth ynghylch dulliau gweithredu lleol yn rhoi eglurder o ran beth yw cylch gwaith Cymru'n Gweithio, ar lefel leol, a pha wasanaethau eraill y dylai ddisgwyl eu darparu.

5.8 Fel yr amlygwyd yn Adran 4.40, dywedodd staff a rhanddeiliaid eu bod nhw eu hunain yn aneglur ynghylch y gwahaniaeth rhwng y cymorth sydd ar gael gan Gyrfa Cymru a'r cymorth sydd ar gael drwy Gymru'n Gweithio. Er bod y cynigion cymorth sydd ar gael ar draws Cymru'n Gweithio a Gyrfa Cymru wedi'u nodi'n glir, mae hyn yn awgrymu y gallai fod angen gwybodaeth ychwanegol ar sut mae'r cymorth sy'n cael ei gynnig yn wahanol. Er mwyn goresgyn unrhyw ddryswch ynghylch beth sy'n wahanol rhwng Cymru'n Gweithio a Gyrfa Cymru, gallai fod yn fuddiol hefyd i reolwyr prosiect Cymru'n Gweithio yn Gyrfa Cymru adolygu a allai, a sut y gallai staff Gyrfa Cymru ddod i fwy o gysylltiad â gwasanaeth Cymru'n Gweithio, i sicrhau bod y gwahaniaethau yn y cymorth sy'n cael ei gynnig yn gliriach. Ymhellach, gwnaeth cwsmeriaid fynegi dryswch ynghylch y gwahaniaeth rhwng Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio. I gwsmeriaid, fodd bynnag, nid yw diffyg gwahaniaeth rhwng Gyrfa Cymru a Chymru'n Gweithio yn fater o bryder, gan mai nod y gwasanaeth yw cynnig porth cyffredinol i unigolion ledled Cymru, ni waeth pa fath o gymorth cyflogadwyedd y maent yn chwilio amdano.

5.9 Wrth fyfyrion ar y rôl y dylai Cymru'n Gweithio ei chwarae wrth symud ymlaen, roedd yn gyffredin i randdeiliaid awgrymu eu bod eisiau deall yn well y cymorth pwrpasol y gall Cymru'n Gweithio ei gynnig, yn enwedig y cyfarwyddyd gyrfaoedd, fel y gallant ddefnyddio'r gwasanaeth yn fwy effeithiol. Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, dylid datblygu gwybodaeth ac arweiniad ychwanegol ynghylch cylch gorchwyl Cymru'n Gweithio i'w rhannu â staff

mewnol Gyrfa Cymru a staff partneriaid allanol. Bydd hyn yn annog dealltwriaeth fwy diffiniedig o'r hyn y gall Cymru'n Gweithio ei gynnig, yn ogystal â lleihau'r baich ar staff cyflawni i hysbysu partneriaid newydd a/neu staff partneriaid newydd.

- 5.10 Er bod rhanddeiliaid yn gadarnhaol ar y cyfan am y cymorth sydd ar gael drwy Gymru'n Gweithio, roedd hyn yn bennaf am ei fod yn cefnogi eu hanghenion eu hunain o ran gallu. Ar y naill law, gellir ystyried y cymorth sydd ar gael drwy Gymru'n Gweithio fel ateb effeithiol i broblem bresennol ynghylch adnoddau. Ar y llaw arall, mae perygl y bydd y cymorth yn cael ei ystyried yn gystadleuaeth uniongyrchol i gymorth arall ac yn cyfrannu at ddiffyg eglurder ynghylch darpariaeth Cymru'n Gweithio. Mae angen i ddarpariaeth yn y dyfodol ystyried a all gwasanaethau tebyg eraill amlinellu'r cymorth hwn yn well ac, os na, a ddylid ei leihau er mwyn sicrhau bod cynnig Cymru'n Gweithio yn glir ac i osgoi dyblygu gwasanaethau tebyg sydd ar gael.

Cyfarwyddyd gyrfaoedd a'r agenda sgiliau

- 5.11 Mae Cymru'n Gweithio yn darparu arweiniad gyrfaoedd trwy gynghorwyr gyrfaoedd cymwys. Dyma'r unig wasanaeth ledled Cymru a all ddarparu'r cynnig hwn i unigolion mewn gwaith⁹⁸. Roedd yn gyffredin i ddiueddrwydd ac ansawdd y cyfarwyddyd gyrfaoedd sy'n cael ei gynnig gael ei nodi fel un o gryfderau allweddol gwasanaeth Cymru'n Gweithio.
- 5.12 Roedd rhanddeiliaid a staff yn teimlo bod didueddrwydd Cymru'n Gweithio wedi'i nodi fel un o gryfderau unigryw y gwasanaeth. Mae'r didueddrwydd yn caniatáu i gynghorwyr Cymru'n Gweithio gadw anghenion cwsmeriaid unigol yn ganolog i'r cymorth y maent yn ei gynnig. Awgrymwyd y gall Cymru'n Gweithio wneud hyn gan nad ydynt yn cael eu hysgogi gan dargedau sy'n eu cyfyngu.
- 5.13 Ystyrir bod gwybodaeth, cyngor, cyfarwyddyd a hyfforddiant gyrfaoedd Cymru'n Gweithio o ansawdd uchel oherwydd y cymhwyster Cyfarwyddyd a Datblygiad Gyrfaoedd Lefel 6 sy'n ofynnol ar gyfer staff Cymru'n Gweithio yn ogystal â'r ystod eang o wybodaeth sydd gan ymgynghorwyr ar lefel leol a chenedlaethol⁹⁹. Ystyrir

⁹⁸ Noder bod angen i gynghorwyr feddu ar gymhwyster Lefel 6 er mwyn darparu cyfarwyddyd gyrfaoedd.

⁹⁹ Mae pob cynghorydd gyrfaoedd Lefel 6 o fewn Gyrfa Cymru a Chymru'n Gweithio wedi'u cofrestru gyda Chofrestr y DU o Weithwyr Proffesiynol Datblygu Gyrfaoedd.

bod y cymhwyster Lefel 6 yn bwynt gwerthu unigryw i gyngor Cymru'n Gweithio. Dywedodd staff fod y gofyniad hwn yn y rôl yn sicrhau bod staff ar draws y gwasanaeth yn cynnig cymorth o safon uchel a bod hyn yn hysbys iawn (ymhlith staff a phartneriaid eraill).

- 5.14 Er bod amrywiaeth o gyngor gyrfaedd ar gael ar draws gwasanaethau eraill, awgrymodd staff a rhanddeiliaid mai Cymru'n Gweithio yw'r unig wasanaeth y mae angen cymhwyster Lefel 6 ar ei gyfer. Roedd staff a rhanddeiliaid o'r farn bod hyn yn dangos bod lefel sicr o gymhwysedd pan fydd cwsmer yn derbyn cymorth Cymru'n Gweithio. Roedd canfyddiad hefyd bod y ffaith bod cynghorydd Cymru'n Gweithio wedi'u cyflogi mewn lleoliad lleol, a bod ganddynt wybodaeth am gynlluniau lleol a chenedlaethol, o fantais i gwsmeriaid.

Ystyriaethau yn y dyfodol

- 5.15 Gan fyfyrrio ar sut y gallai Cymru'n Gweithio wireddu'n well ei weledigaeth o fod yn bwynt mynediad i Gymru gyfan, cynigiodd staff a rhanddeiliaid adborth ychwanegol amrywiol. Mae hyn yn bennaf oherwydd yr ystod amrywiol o safbwyntiau sy'n bodoli ar ba safle ddylai fod i Gymru'n Gweithio o fewn tirwedd cymorth cyflogadwyedd Cymru.
- 5.16 Ers ei sefydlu, mae Cymru'n Gweithio wedi gorfod ymateb i amrywiaeth o anghenion y farchnad lafur yn ogystal â phwysau economaidd-gymdeithasol allanol, e.e. COVID-19, gwrthdaro byd-eang gwleidyddol sy'n datblygu ac sy'n parhau, a'r argyfwng costau byw, gan addasu'r cymorth y mae'n ei gynnig er mwyn diwallu ystod eang ac amrywiol o anghenion unigol. Bu hyn yn bosibl oherwydd model hyblyg Cymru'n Gweithio a'i feini prawf cymhwysedd cyfyngedig, sy'n caniatáu i bob unigolyn sy'n byw ac yn gallu gweithio'n gyfreithlon yng Nghymru ddefnyddio'r gwasanaeth. Mae cadw'r model hyblyg a chynhwysol hwn yn hanfodol er mwyn i Gymru'n Gweithio barhau i hybu twf economaidd a chynhyrchiant ledled y wlad. Bydd cadw'r model hwn a'r seilwaith cenedlaethol hefyd yn caniatáu i wasanaeth Cymru'n Gweithio barhau i addasu ac ymateb i anghenion a ddaw i'r amlwg yn y dyfodol.
- 5.17 Roedd yn gyffredin i rhanddeiliaid ddweud ei bod yn ymddangos bod y dirwedd cyflogadwyedd ledled Cymru yn dameidiog a bod hyn wedi'i waethygu gan y Gronfa

Ffyniant Gyffredin sydd, oherwydd pryderon ynghylch costau cyflawni craidd, wedi arwain at awdurdodau lleol yn gweithio mewn seilos. Cynigiodd rhanddeiliaid y dylai Cymru'n Gweithio anelu at gael trosolwg byw o wasanaethau cyflogadwyedd cenedlaethol a lleol dan arweiniad awdurdodau lleol i sicrhau bod timau rhanbarthol yn gallu nodi ble orau i ganolbwyntio eu hadnoddau ar amser penodol¹⁰⁰. Gallai hyn, awgrymodd rhanddeiliaid, gadarnhau sefyllfa'r gwasanaeth fel brocer gwybodus, gyda Chymru'n Gweithio o bosibl yn arwain ymdrechion i wella cydlyniant y dirwedd cymorth cyflogadwyedd er nad oes ganddo reolaeth uniongyrchol dros yr holl wasanaethau. Caiff ei gydnabod y byddai'r rôl hon yn ddwys o ran adnoddau, yn enwedig oherwydd natur tymor byr rhai elfennau o gymorth cyflogadwyedd sy'n cael eu hariannu.

- 5.18 Ar hyn o bryd, mae gan Gymru'n Gweithio lefel gyfanredol o wybodaeth a data sy'n rhoi manylion cyrhaeddiad y gwasanaeth ac, i raddau, cyrhaeddiad rhaglenni eraill. Mae'r ddealltwriaeth hon yn werthfawr ac, os caiff ei rhannu ag ystod ehangach o bartneriaid a rhanddeiliaid (e.e. Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru, a rhaglenni eraill), gallai atgyfnerthu a gwella rôl Cymru'n Gweithio fel brocer cefnogol. Er enghraifft, gallai hyn ddarparu gwybodaeth a data ar farchnadoedd llafur presennol a'r dyfodol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Gallai'r ddealltwriaeth hon, o ganlyniad, helpu i lywio a yw rhaglenni'n targedu cwsmeriaid, a sut, a helpu i lywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol. Deëllir bod dichonoldeb canolfan deallusrwydd data Gyrfa Cymru, a all rannu lefel gyfanredol o ddata, o dan ystyriaeth ar hyn o bryd¹⁰¹.
- 5.19 Dywedodd staff a rhanddeiliaid sy'n gweithredu oddi mewn i Gymru'n Gweithio fod ymdrechion sylweddol wedi'u gwneud, hyd yma, i weithio ar draws ac oddi mewn i rwydweithiau lleol i sicrhau bod gwasanaethau eraill yn ymwybodol o'r cymorth a'r adnoddau y gall Cymru'n Gweithio eu darparu. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal a'i gryfhau, awgrymwyd bod angen mwy o gymorth gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i sicrhau bod amryw adrannau a rhaglenni cenedlaethol yn deall ac yn cefnogi cylch gwaith Cymru'n Gweithio. Fel sy'n cael ei

¹⁰⁰ Noder bod y cynnig hwn yn ychwanegol at adolygiad mewnol presennol Cymru'n Gweithio o'r cymorth sy'n cael ei gynnig drwy'r gwasanaeth.

¹⁰¹ Llywodraeth Cymru (2022) [Astudiaeth ddichonoldeb cysylltu data Gyrfa Cymru](#).

ddangos gan y dyfyniad isod, dywedodd staff fod y cymorth ychwanegol hwn yn cynnwys gosod disgwyliadau clir gyda gwasanaethau eraill i sicrhau bod gwasanaethau eraill yn gwybod bod disgwyl iddynt ymgysylltu â Chymru'n Gweithio yn ogystal â lleddfu unrhyw bryderon oedd gan wasanaethau eraill ynghylch dyblygu cymorth.

- 5.20 'I mi, mae'n fater o gael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru [a Llywodraeth Cymru yn dweud wrth wasanaethau eraill] mai dyma'r disgwyliad am fod gan bob partner eu blaenoriaethau a'u canlyniadau eu hunain i'w cyflawni, ac rwy'n meddwl bod hynny weithiau'n dylanwadau [ar sut maen nhw'n ymateb i Gymru'n Gweithio]. Y llinell allweddol rwyf bob amser yn ei rhoi i bartneriaid yw nad 'yn lle' ydyn ni, ond 'yn ogystal ag'. Ac felly mae angen i'r neges honno ddod i lawr a chael ei gwreiddio fel nad ydyn ni'n cael ein hystyried yn gystadleuaeth. Rwy'n meddwl bod angen i'r neges honno ddod oddi wrth lunwyr polisi i lawr at neu drwy Lywodraeth Cymru.' **(Cyfweiliad â staff rheoli a chyflawni)**
- 5.21 Ar y cyfan, rhagwelir y bydd gwell cyd-ddealltwriaeth o ddarpariaeth Cymru'n Gweithio, yn genedlaethol ac ar lefel leol, a sut mae'n targedu cwsmeriaid, yn gwella ymrwymiad staff a rhanddeiliaid. Bydd hyn yn arwain at olwg fwy unedig ar Gymru'n Gweithio fel pwynt mynediad Cymru gyfan i gymorth cyflogadwyedd.

6. Casgliadau

6.1 Rhwng Chwefror 2019 a Mawrth 2023, gweithiodd Cymru'n Gweithio gyda 95,164 o gwsmeriaid drwy 120,730 o achosion ledled Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn, bu'n rhaid iddo addasu i ystod eang o bwysau allanol a byd-eang, e.e. COVID-19, gwrthdaro byd-eang gwleidyddol sy'n dod i'r amlwg ac sy'n parhau, a'r argyfwng costau byw. Er gwaethaf y pwysau hyn, roedd Cymru'n Gweithio wedi parhau i addasu ei wasanaeth yn llwyddiannus i sicrhau y gallai gefnogi ystod amrywiol o anghenion cwsmeriaid. Mae'r adran hon yn crynhoi'r canfyddiadau strategol allweddol a archwiliwyd yn yr adroddiad ac yn mynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil allweddol a amlinellwyd yn Adran 1.

Gwerth y model a'i ddull un tîm

6.2 Prif swyddogaeth Cymru'n Gweithio yw darparu pwynt mynediad 'dull un tîm' i Gymru gyfan i gynnig cymorth cyflogadwyedd diduedd ac am ddim. Cyflwynwyd gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn 2019 i gynnig cymorth cyflogadwyedd symlach ac effeithlon wedi'i deilwra i anghenion unigolion. Mae'n galluogi unigolion i siarad â chynghorwyr gyrfaoedd achrededig a hyfforddwyr cyflogadwyedd am gyflogaeth a sgiliau, eu nodau a'u dyheadau, ac unrhyw heriau y maent yn eu hwynebu wrth gael a chynnal gwaith, addysg neu hyfforddiant neu ddatblygu eu gyrfa.

6.3 Lle mae staff a rhanddeiliaid o'r farn bod y 'dull un tîm' yn gweithio'n dda, mae hyn yn bennaf oherwydd y cydweithio effeithiol rhwng staff ar draws ystod o bartneriaid. Er y cyfeiriwyd at rywfaint o amrywiaeth yn y ddarpariaeth, mae llinellau cyfathrebu clir ac effeithiol rhwng Cymru'n Gweithio a phartneriaid eraill yn cael eu hystyried yn agwedd allweddol ar fodel Cymru'n Gweithio sy'n galluogi'r gwasanaeth i fod yn borth effeithiol i gymorth cyflogadwyedd ledled Cymru.

6.4 O ganlyniad i ddull Cymru'n Gweithio, mae staff Cymru'n Gweithio'n cael eu gweld yn aml mewn sefyllfa unigryw a manteisiol sydd o fudd i gwsmeriaid. Gall cynghorwyr gyrfaoedd gynnig arweiniad gyrfaoedd diduedd o ansawdd uchel, a gall hyfforddwyr cyflogadwyedd gynnig cymorth cyflogadwyedd sy'n ymateb yn uniongyrchol i anghenion y cwsmer unigol. At hynny, mae staff yn gallu defnyddio adnoddau ac arbenigedd ar draws eu tîm a rhaglenni eraill i sicrhau bod gan y

cwsmer y cyfle gorau posibl i sicrhau camau nesaf cadarnhaol. Yn ogystal, dywedodd rhanddeiliaid eu bod yn ystyried bod gweithio gyda Chymru'n Gweithio yn effeithiol oherwydd bod y staff yn 'dryloyw' ac yn 'barod i ddysgu'. Mae hyn yn sicrhau bod partneriaid yn teimlo eu bod yn gweithio gyda Chymru'n Gweithio (yn hytrach nag ochr yn ochr â'r gwasanaeth). Y canfyddiad yw bod yr arferion effeithiol hyn o gydweithio a rhannu gwybodaeth yn annog trosolwg mwy cydlynol a llai cymhleth o gymorth cyflogadwyedd ledled Cymru.

- 6.5 Fel sy'n gyffredin gyda chymorth cyflogadwyedd oherwydd yr ystod eang o ddarparwyr a ffynonellau ariannu, mynegodd rhai rhanddeiliaid partner bryderon bod cymorth cyflogadwyedd Cymru'n Gweithio yn dyblygu darpariaeth gwasanaeth eraill. Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith na all y gwerthusiad wirio'r canfyddiad hwn. At hynny, mae'n bwysig ystyried y gall darparwyr gwasanaeth eraill ddyblygu darpariaeth Cymru'n Gweithio a/neu ddarparu cymorth anaddas yn seiliedig ar anghenion cwsmer unigol. Ar y cyfan, gallai mwy o rannu gwybodaeth gan Cymru'n Gweithio mewn perthynas â dulliau lleol a diduedd roi eglurder ynghylch safle cylch gwaith Cymru'n Gweithio ar lefel leol, a pha wasanaethau eraill y dylai ddisgwyl eu darparu.
- 6.6 Yn gyffredinol, roedd staff a rhanddeiliaid yn gadarnhaol am sefyllfa Cymru'n Gweithio ac yn ei werthfawrogi fel model cenedlaethol, gan ddweud ei fod yn bwynt mynediad effeithiol ar gyfer cymorth cyflogadwyedd ledled Cymru, neu ar waith â dod yn bwynt mynediad o'r fath. Oddi mewn i'r model cyffredinol, caiff ei ystyried bod staff Cymru'n Gweithio yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol â gwasanaethau eraill i sicrhau bod mwy o ymwybyddiaeth o sut y gall y gwasanaeth gynnig cymorth ac ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth cyflogadwyedd ehangach yn lleol ac yn genedlaethol, gan ddangos ei lwyddiant fel partner aml-asiantaeth.

Hygyrchedd daearyddol y gwasanaeth

- 6.7 Mae ymgysylltiad Cymru'n Gweithio â chwsmeriaid yn adlewyrchu maint y boblogaeth yn fras ar draws awdurdodau lleol. Mae hyn yn awgrymu bod Cymru'n Gweithio yn llwyddo i gyrraedd cwsmeriaid ar draws ystod eang o awdurdodau lleol. Mae'n ymddangos mai cwsmeriaid ym Mlaenau Gwent, Sir Gaerfyrddin a Chaerffili

sy'n cael eu gorgynrychioli fwyaf ar sail maint y boblogaeth gyffredinol, a chwsmeriaid yn Sir y Fflint a Chaerdydd sy'n cael eu tangynrychioli fwyaf.

- 6.8 Mae bron i draean o holl gwsmeriaid Cymru'n Gweithio yn byw mewn awdurdodau gwledig, mae chwarter y cwsmeriaid yn byw mewn awdurdodau trefol, ac mae bron i chwarter yn byw yn awdurdodau'r cymoedd. O ystyried bod awdurdodau lleol wedi'u cwmpasu'n gymesur, a bod cwsmeriaid wedi'u dosbarthu ar draws ystod o ardaloedd trefol a gwledig, mae'n ymddangos bod Cymru'n Gweithio yn cwmpasu ystod amrywiol o ddaearyddiaeth ledled Cymru yn effeithiol.
- 6.9 Roedd staff a rhanddeiliaid o'r farn bod darpariaeth cymorth o bell Cymru'n Gweithio, a gynyddodd yn sylweddol o ganlyniad i bandemig COVID-19, yn ychwanegiad defnyddiol at y gwasanaeth sydd wedi gwneud Cymru'n Gweithio yn fwy cynhwysol. Er bod cwsmeriaid a staff yn dal i weld gwerth sylweddol yn y cymorth wyneb yn wyneb sy'n cael ei gynnig, cydnabuwyd bod cymorth o bell yn ateb mwy effeithiol lle mae mynediad ffisegol i safle yn anodd a/neu lle mae'r ymgysylltiad penodol yn ysgafn. Mae gwybodaeth fonitro ar lefel rhaglen hefyd yn awgrymu mai cymorth cyfunol yw'r opsiwn sy'n dal i gael ei ffafrio gan gwsmeriaid.
- 6.10 Ers 2020, mae'r arfer o ryngweithio o bell wedi lleihau, ac mae cymorth wyneb yn wyneb wedi cynyddu'n arafach. O 2023 ymlaen, cymorth 'cyfunol' Cymru'n Gweithio (sy'n cynnwys cyfuniad o gymorth wyneb yn wyneb a chymorth o bell) sydd fwyaf cyffredin, sef dwy ran o bump (42 y cant) o holl ryngweithiadau Cymru'n Gweithio. Mae hyn yn awgrymu bod galw sylweddol o hyd am ddarpariaeth cymorth o bell Cymru'n Gweithio ar ôl llacio cyfyngiadau'r pandemig ond bod cwsmeriaid yn ffafrio cyfuniad o gymorth o bell ac wyneb yn wyneb.

Cyrraedd cwsmeriaid

- 6.11 Mae ystod eang o lwybrau atgyfeirio i mewn i Gymru'n Gweithio; fodd bynnag, mae bron i hanner (45 y cant) holl gwsmeriaid Cymru'n Gweithio yn atgyfeirio eu hunain i'r gwasanaeth y tro cyntaf, ac mae dros chwarter yr atgyfeiriadau cyntaf yn cael eu gwneud drwy'r Ganolfan Byd Gwaith (29 y cant). Mae amlygrwydd hunanatgyfeiriadau yn awgrymu bod gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ac allgymorth cyffredinol Cymru'n Gweithio yn effeithiol ac yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor Cymru'n Gweithio.

- 6.12 Mabwysiadwyd amrywiaeth o weithgareddau codi ymwybyddiaeth ac allgymorth i hyrwyddo Cymru'n Gweithio ac ymgysylltu â chwsmeriaid. Ar lefel leol, teimlai staff fod bod yn 'weladwy' mewn ardaloedd lleol yn allweddol i ymwybyddiaeth lwyddiannus yn ogystal ag ymgysylltu â chwsmeriaid. O ganlyniad i weithgareddau allgymorth, roedd staff a rhanddeiliaid yn teimlo bod Cymru'n Gweithio yn gallu ac yn llwyddo i gyrraedd pobl sy'n ceisio cymorth nad yw rhaglenni eraill efallai yn eu cyrraedd. Fodd bynnag, dangosodd y cyfweiliadau mai cyfyngedig yw'r strategaeth hyrwyddo gyson yn lleol, a bod yn rhaid i lawer o dimau rhanbarthol ddibynnu ar wybodaeth leol a phartneriaid i hyrwyddo Cymru'n Gweithio.
- 6.13 Roedd rhanddeiliaid a staff yn canmol yr adnodd sydd ar gael drwy'r tîm cyfryngau cymdeithasol canolog ar gyfer Cymru'n Gweithio, gan y canfuwyd bod ganddo fwy o gapasiti na rhaglenni cymorth eraill i arddangos y gwasanaeth ac ymgysylltu â darpar gwsmeriaid. Fodd bynnag, awgrymodd staff a rhanddeiliaid hefyd y byddai timau lleol yn elwa o adnoddau cyfryngau cymdeithasol sy'n fwy perthnasol yn lleol i wella ymgysylltiad â'r ddarpariaeth leol.
- 6.14 Yn ôl cyfweiliadau â staff, roedd nifer o grwpiau y maent yn ei chael yn anodd eu cynnwys yng ngweithgareddau Cymru'n Gweithio. Yn fwyaf aml, dywedodd staff fod ailennyn diddordeb pobl ifanc mewn unrhyw fath o ddarpariaeth ar ôl iddynt adael addysg ffurfiol a/neu gymorth arall yn heriol.
- 6.15 Dywedodd staff a rhanddeiliaid hefyd eu bod yn wynebu heriau wrth ymgysylltu ag unigolion sy'n nodi eu bod yn Ddu, Asiaidd a/neu o grŵp ethnig leiafrifol arall. Yn yr achosion hyn, awgrymodd staff nad yw eu gweithlu ar y cyfan yn gynrychioliadol o'r poblogaethau y maent yn ceisio eu gwasanaethu, gyda'r rhan fwyaf o staff yn nodi eu bod yn Wyn. Lle bo modd, mae timau rhanbarthol Cymru'n Gweithio yn gweithio gyda phartneriaid sy'n cynrychioli grwpiau ethnig leiafrifol yn well. Fodd bynnag, roedd staff yn cydnabod y gallai fod angen mwy o ymdrechion i amrywio tîm cyflawni Cymru'n Gweithio yn y dyfodol.

Cynwysoldeb darpariaeth gwasanaeth

- 6.16 Mae gwasanaeth Cymru'n Gweithio wedi'i ddylunio i fod yn hygyrch i bobl gyflogedig, di-waith ac economaidd anweithgar ledled Cymru. Mae ystadegau'r boblogaeth yn awgrymu bod gwrywod wedi eu gorgynrychioli yn y sampl o

gwsmeriaid, gyda chwsmeriaid gwrywaidd yn cyfrif am lai na 60 y cant o gyfanswm y cwsmeriaid a ymgysylltodd â Chymru'n Gweithio. Mae hyn yn awgrymu y dylid cynnal ymchwiliad ychwanegol ar lefel leol i ddeall yn well pam fod mwy o wrywod yn ymgysylltu â'r gwasanaeth a sut y gallai'r gwasanaeth ymgysylltu'n well â benywod.

- 6.17 Mae proffil ethnig y cwsmeriaid sy'n ymgysylltu â Chymru'n Gweithio yn cyd-fynd yn fras â'r proffil ethnig ledled Cymru. Er nad oes targedau demograffig sefydlog ar gyfer y cwsmeriaid y mae Cymru'n Gweithio yn ymgysylltu â nhw, mae ymgysylltiad y gwasanaethau â grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn cyd-fynd â, neu'n uwch, yn gyfraneddol na'r cyfrannau yn rhaglenni cyflogadwyedd eraill Llywodraeth Cymru.
- 6.18 Mae asesiad demograffig o broffil Cymru'n Gweithio yn dangos bod pobl anabl yn cael eu tangynrychioli. Mae'n hysbys bod rhaglenni eraill, fel y rhai sy'n cael eu cynorthwyo drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, yn yr un modd wedi'i chael hi'n anodd ymgysylltu â chwsmeriaid sy'n economaidd anweithgar, gan gynnwys unigolion anabl a'r rheini â chyflyrau iechyd hirdymor. Mae hyn yn awgrymu, ledled y Deyrnas Unedig, fod heriau o hyd o ran cael unigolion anabl i dderbyn cymorth cyflogadwyedd. Mae cynnydd yn erbyn Cynllun Cydraddoldeb Strategol 4 blynedd Cymru'n Gweithio yn dangos bod perthnasoedd wedi'u datblygu gyda Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Llywodraeth Cymru a Hyrwyddwyr Anabledd yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae hyn wedi galluogi'r gwasanaeth i hyrwyddo a rhannu gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i unigolion a chyflogwyr, gyda'r nod o gynyddu nifer y cwsmeriaid anabl sy'n symud ymlaen i waith.

Model cyflawni

- 6.19 Mae cymorth Cymru'n Gweithio yn ceisio cynorthwyo cwsmeriaid i gael y gwaith 'iawn' ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Wrth ymgysylltu â Chymru'n Gweithio am y tro cyntaf, caiff cwsmeriaid eu cynorthwyo gan gynghorydd gyrfaoedd sy'n defnyddio asesiad o anghenion uwch, wedi'i arwain gan gyngor a chyfarwyddyd, ar sail amgylchiadau'r unigolyn a'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag symud ymlaen, sy'n eu galluogi i atgyfeirio'r unigolyn i'r cymorth cywir. O ran cymorth cyflogadwyedd, gall cwsmeriaid gael eu hatgyfeirio at hyfforddwr cyflogadwyedd Cymru'n Gweithio.

Mae'r cymorth cyflogadwyedd sy'n cael ei gynnig gan Gymru'n Gweithio yn cynnwys cynorthwyo cwsmeriaid i ddod o hyd i swyddi, gwneud cais amdanynt a pharatoi ar gyfer cyfweiliadau.

- 6.20 Er bod ystod eang o gymorth cyflogadwyedd ar gael ledled Cymru, ystyrir mai gwerth ychwanegol a chryfder allweddol Cymru'n Gweithio yw ei ddarpariaeth unigryw o ran cyfarwyddyd gyrfaoedd. Gyrfa Cymru a Chymru'n Gweithio yw'r unig wasanaethau ledled Cymru sy'n cynnig cyfarwyddyd gyrfaoedd achrededig Lefel 6. Mae hyn yn sicrhau bod gwasanaeth diduedd o ansawdd uchel yn cael ei gynnig yn lleol ac yn genedlaethol. Yn benodol, roedd rhanddeiliaid yn canmol gallu'r gwasanaeth i fod yn ddiduedd, gan sicrhau bod cwsmeriaid yn gallu ymddiried bod cynghorwyr Cymru'n Gweithio yn eirioli drostynt ac yn gweithio i sicrhau bod eu buddiannau gorau'n cael eu bodloni. Roedd staff a rhanddeiliaid o'r farn bod cyngor achrededig yn ogystal â gwybodaeth fanwl staff Cymru'n Gweithio am gynlluniau lleol a chenedlaethol o fantais i gwsmeriaid a phartneriaid ategol o ran darparu gwybodaeth nad oedd yn rhan o'u cylch gwaith.
- 6.21 Wrth fyfyrion ar ba fodolau cyflawni Cymru'n Gweithio sy'n gweithio'n dda, roedd staff a rhanddeiliaid yn gadarnhaol ynghylch eu gallu i gynnig allgymorth a gweithio gyda phartneriaid sydd ag arbenigedd mewn ymgysylltu â grwpiau targed. Cyfeiriodd y staff hefyd at fanteision strategol y model cydleoli. Roedd y rhain yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid cydleoli posibl i ddatblygu trosolwg strategol o wasanaethau lleol, lleihau dyblygu cymorth cyflogadwyedd, a chreu canolbwynt a oedd o fudd i bob partner ac o gymorth i gwsmeriaid wrth iddynt bontio rhwng gwasanaethau. Awgrymodd timau rhanbarthol Cymru'n Gweithio fod y model cydleoli yn caniatáu iddynt ystyried lle maent yn diwallu anghenion cwsmeriaid ar hyn o bryd a lle y dylid gwneud ymdrech ychwanegol. Ystyrir bod hyn yn ysgogi effeithlonrwydd, yn lleihau bylchau yn y ddarpariaeth ac yn gwella gallu staff i groesgyfeirio cwsmeriaid.
- 6.22 Mae gwerth ychwanegol Cymru'n Gweithio hefyd yn amlwg drwy ei fodol dros dro aml-asiantaeth. Lle mae safleoedd dros dro Cymru'n Gweithio yn effeithiol, maent yn diwallu angen penodol ac, mewn rhai achosion, angen brys. Yn benodol, roedd staff a rhanddeiliaid yn canmol safleoedd dros dro Cymru'n Gweithio mewn

gweithleoedd lle'r oedd diswyddiadau mawr wedi digwydd. Roedd y model hwn yn gweithio'n dda am ei fod yn rhoi cymorth cyson ac angenrheidiol i gwsmeriaid.

- 6.23 Fodd bynnag, er bod ymchwil gychwynnol wedi'i chynnal i nodi nodweddion ac anghenion y boblogaeth ar draws awdurdodau lleol, mae'n ymddangos bod y dulliau presennol o fynd i'r afael ag allgymorth a chydleoli yn amrywio ar draws Cymru'n Gweithio, gyda ffocws sylweddol ar nifer yr ymwelwyr yn ogystal â niferoedd posibl yr atgyfeiriadau. Mae ymateb yn effeithiol i anghenion o ran galw yn agwedd graidd ar ddull hyblyg Cymru'n Gweithio o weithio, ond gallai mynd ati'n fwy gwybodus wrth dargedu grwpiau ac anghenion penodol hybu dull lleol mwy systematig o ddarparu cymorth.
- 6.24 Gan fyfyrrio ar ddarpariaeth cymorth 'cyfunol' Cymru'n Gweithio, roedd staff a rhanddeiliaid yn canmol y cyfle cynyddol i gwsmeriaid ymgysylltu â Chymru'n Gweithio o bell. Fodd bynnag, canfyddiad cyffredin oedd bod cymorth wyneb yn wyneb yn fwy effeithiol na chymorth o bell wrth fynd i'r afael â'r anghenion y mae cwsmeriaid yn eu cyflwyno, gan ei fod yn galluogi staff i weld y 'darlun cyfan'. Yn ogystal, gall cymorth ar-lein fod yn heriol i gwsmeriaid heb lawer neu ddim llythrennedd digidol a/neu sgiliau iaith Saesneg neu Gymraeg cyfyngedig. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod cymorth o bell yn aml yn galluogi cwsmeriaid i gyfarfod â chynghorydd yn gynt. Ar y cyfan, canfuwyd bod cymorth o bell yn fwyaf effeithiol pan fydd cymorth wyneb yn wyneb wedi ei ddarparu cyn hynny, gan alluogi cwsmeriaid a staff i sefydlu perthynas ymddiriedus wyneb yn wyneb cyn ymgysylltu o bell.

Darpariaeth gwasanaeth ledled Cymru (gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth)

- 6.25 Er bod y model cyflawni ar gyfer Cymru'n Gweithio yn gyson ledled Cymru, mae'r dulliau sy'n cael eu defnyddio i ddarparu cymorth a gwneud atgyfeiriadau yn amrywio yn dibynnu ar bartneriaid a seilwaith lleol. Yn rhanbarthol, mae'r seilwaith ar gyfer Cymru'n Gweithio yn amrywio yn seiliedig ar argaeledd ac agosrwydd swyddfeydd Gyrfa Cymru, perthnasoedd partner (ac felly safleoedd cydleoli), ac argaeledd a gwybodaeth am leoliadau allgymorth posibl. Mae'r dull hyblyg hwn o

weithio yn allweddol i werth ychwanegol Cymru'n Gweithio, gan hybu cydweithredu effeithiol ac effeithlonrwydd (yn hytrach na chynnal model anhyblyg).

- 6.26 Roedd yn gyffredin i staff fod yn gadarnhaol ynghylch y modd y gall dull gweithredu Cymru'n Gweithio gael ei addasu, gan ei fod yn caniatáu iddynt ddefnyddio'u gwybodaeth a'u rhwydweithiau lleol er mwyn rhoi darpariaeth Cymru'n Gweithio yn y sefyllfa orau i bobl leol. Fodd bynnag, adroddodd rhanddeiliaid hefyd y gall gwahaniaethau rhanbarthol yng ngwasanaeth Cymru'n Gweithio olygu bod argaeledd y cynnig yn amrywio ledled Cymru. Lle ystyriwyd bod darpariaeth ranbarthol Cymru'n Gweithio yn llai effeithiol, roedd hyn o ganlyniad i bwysau ar adnoddau yn ogystal ag amrywiaeth yn y modd yr oedd gwahanol dimau rhanbarthol yn blaenoriaethu llwythi achosion.
- 6.27 Dywedodd staff fod safleoedd cydleoli yn cael eu penderfynu'n bennaf ar sail mynediad presennol i ardal lle mae galw gan gwsmeriaid a/neu nifer uchel o ymwelwyr. Mae perthnasoedd cydleoli hefyd yn datblygu oherwydd cymhellion strategol fel eisiau datblygu trosolwg strategol o wasanaethau lleol neu er mwyn lleihau dyblygu cymorth cyflogadwyedd. Roedd staff o'r farn bod y dull hwn o weithio yn caniatáu iddynt ystyried lle maent yn diwallu anghenion cwsmeriaid ar hyn o bryd a lle y dylid gwneud ymdrech ychwanegol. Mae hyn yn awgrymu bod y dull presennol yn ysgogi effeithlonrwydd, gan leihau bylchau yn y ddarpariaeth a gwella gallu staff i groesgyfeirio cwsmeriaid.
- 6.28 Er bod arbenigedd a gwybodaeth leol staff Cymru'n Gweithio yn rhoi gwerth i Gymru'n Gweithio, mae risg nad yw penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail gwybodaeth gyffredol, lawn a helaeth o wasanaethau ac anghenion lleol. Mae dealltwriaeth a gwybodaeth ar gael gan Gyrfa Cymru ar berfformiad gwasanaeth Cymru'n Gweithio a pha mor dda y mae'n cyd-fynd ag anghenion cenedlaethol a lleol. Mae safbwyntiau rhanddeiliaid a staff yn awgrymu y byddai mwy o gyfathrebu rhwng timau lleol, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru ar sail y wybodaeth hon yn helpu cyd-ddealltwriaeth o gylchoedd gwaith cenedlaethol a lleol Cymru'n Gweithio. Byddai'r broses hon hefyd yn cefnogi'r nod parhaus o sicrhau bod y gwasanaeth yn gynhwysol ac yn cyrraedd unigolion sydd angen cymorth yn effeithiol.

7. Argymhellion

- 7.1 O ganlyniad i'r gwerthusiad ar lefel rhaglen, mae'r argymhellion canlynol wedi'u nodi i gynorthwyo a gwella'r gwaith o gyflawni Cymru'n Gweithio yn y dyfodol:
- 7.2 **Argymhelliad 1:** Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o pam mae rhai ardaloedd a chwsmeriaid yn cael eu gorgynrychioli neu eu tangynrychioli, dylai darpariaeth yn y dyfodol geisio datblygu prosesau systematig lle mae Gyrfa Cymru yn rhannu'r wybodaeth gyd-destunol hon â thimau rhanbarthol Cymru'n Gweithio. Bydd hyn yn sicrhau bod mwy o ddeialog fewnol ynghylch perfformiad ac ymgysylltu.
- 7.3 **Argymhelliad 2:** Dylid dyrannu adnoddau ychwanegol neu bresennol i sesiynau strategol blynyddol neu chwe-misol i lywio a phenderfynu ar ddulliau gweithredu lleol, gan gynnwys prosesau ar gyfer dewis safleoedd cydleoli a dros dro, a fydd yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth gyffredinol. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei lywio gan wybodaeth a dealltwriaeth Gyrfa Cymru o gyrhaeddiad gwasanaeth, darpariaeth cymorth newydd ac sy'n dod i'r amlwg a gwybodaeth am y farchnad lafur yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Dylai'r sesiynau gael eu hamserlennu rhwng timau rhanbarthol a chenedlaethol Cymru'n Gweithio, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod penderfyniadau ynghylch allgymorth a chydleoli yn cael eu llywio gan y galw, anghenion lleol, a'r cymorth ehangach sy'n cael ei gynnig.
- 7.4 **Argymhelliad 3:** Dylid cadw'r gofyniad am achrediad Lefel 6 i gynghorwyr gyrfaoedd mewn darpariaeth yn y dyfodol. Mae cyfarwyddyd gyrfaoedd achrededig Lefel 6 yn sicrhau bod cwsmeriaid Cymru'n Gweithio yn cael cymorth diduedd o ansawdd uchel. Fel yr unig wasanaeth ledled Cymru sy'n cynnig y cymorth achrededig hwn, bydd cynnal yr agwedd hon ar fodel Cymru'n Gweithio yn sicrhau bod gwerth ychwanegol y gwasanaeth yn cael ei gadw.
- 7.5 **Argymhelliad 4:** Lle bo'n ymarferol, dylid cadw darpariaeth cymorth cyfunol Cymru'n Gweithio i ganiatáu arbedion effeithlonrwydd yn y gwasanaeth. Er ei bod yn bosibl mai cymorth o bell yw'r unig opsiwn ymarferol i rai cwsmeriaid oherwydd pellter neu anhygyrchedd safleoedd Cymru'n Gweithio, mae cwsmeriaid a staff yn elwa o ddull hybrid.

- 7.6 **Argymhelliad 5:** Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, dylid datblygu gwybodaeth ac arweiniad ychwanegol ynghylch cylch gorchwyl Cymru'n Gweithio i'w rhannu â staff mewnol Gyrfa Cymru a staff partneriaid allanol. Bydd hyn yn annog dealltwriaeth fwy diffiniedig o'r hyn y gall Cymru'n Gweithio ei gynnig, yn ogystal â lleihau'r baich ar staff cyflawni i hysbysu partneriaid newydd a/neu staff partneriaid newydd. Noder bod yr argymhelliad hwn yn seiliedig ar farn a fynegwyd gan staff a rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y gwerthusiad hwn. Efallai na fydd hyn yn gyffredinol ar draws holl staff a rhanddeiliaid Cymru'n Gweithio.
- 7.7 **Argymhelliad 6:** Dylai darpariaeth yn y dyfodol ystyried a allai, a sut y gallai, adnoddau ychwanegol neu ffyrdd newydd o weithio gynorthwyo timau rhanbarthol i wella eu harlwy lleol a'u hymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol. Byddai hyn yn galluogi timau rhanbarthol i gynnal mwy o ymgyrchoedd marchnata lleol. Dylai unrhyw strategaethau cyfryngau cymdeithasol lleol ychwanegol gyd-fynd ag anghenion lleol a nodwyd rhwng timau rhanbarthol a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ac mewn ymateb i ddata Gyrfa Cymru.¹⁰²
- 7.8 **Argymhelliad 7:** Er ei bod yn ymddangos bod allgymorth presennol Cymru'n Gweithio yn effeithiol ar gyfer grwpiau oedran hŷn, efallai y bydd angen ymgysylltu mwy â chymorth ieuenctid arbenigol mewn ardaloedd lleol er mwyn targedu pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio o addysg a/neu gymorth arall yn well. Gall cymorth ieuenctid arbenigol gynnwys sefydliadau ac elusennau lleol neu sefydliadau sydd â darpariaeth cymorth yn genedlaethol e.e. Llamau.
- 7.9 **Argymhelliad 8:** Dylid adolygu'r cymorth cyflogadwyedd sydd ar gael ar lefelau cenedlaethol a lleol i ganfod y galw a'r risg o ddyblygu er mwyn hysbysu timau rhanbarthol a rhanddeiliaid am y cymorth cyflogadwyedd 'byw' sy'n cael ei gynnig ledled Cymru. Gallai'r cymorth hwn gael ei ystyried mewn cyfarfodydd strategol rhwng Cymru'n Gweithio, Llywodraeth Cymru, a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, wedi'u llywio gan wybodaeth a dealltwriaeth Gyrfa Cymru.¹⁰³

¹⁰² Noder mai'r un yw'r cyfarfodydd strategol y cyfeirir atynt fan yma â'r rhai a gynnigir yn Argymhelliad 2.

¹⁰³ Noder mai'r un yw'r cyfarfodydd strategol y cyfeirir atynt fan yma â'r rhai a gynnigir yn Argymhelliad 2.

7.10 **Argymhelliad 9:** Er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth gyson a chywir o ddarpariaeth gyffredinol a lleol Cymru'n Gweithio, dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol geisio datblygu a rhannu negeseuon cyson ychwanegol ar draws adrannau a rhaglenni cenedlaethol i annog mwy o gyfranogiad. Caiff ei gydnabod y gall tirwedd cymorth cyflogadwyedd ledled Cymru ymddangos yn 'dameidiog' a chyfnewidiol oherwydd yr amrywiaeth o gymorth sydd ar gael drwy gronfeydd tymor hwy a thymor byr. Dylai Cymru'n Gweithio weithredu fel 'angor', gan fapio'r cymorth lleol a chenedlaethol presennol a lledaenu'r wybodaeth hon i bartneriaid allweddol.

8. Cyfeiriadau

- Adran Addysg y DU (2022) [Arolwg Sgiliau Cyflogwyr y DU](#) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).
- Beech, J. et al. (2019) [Closing the gap: key areas for action on the health and care workforce](#), The King's Fund & The Health Foundation (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).
- Bell, M., Bristow, D. a Martin, S. (2017) [Dyfodol Gwaith yng Nghymru](#), Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).
- Broome, M. et al. (2022) [Net zero jobs: The impact of the transition to net zero on the UK labour market](#), The Inquiry (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).
- Bryman, A. (1998) [Quantity and Quality in Social Research](#). Llundain: Routledge (cyrchwyd: 2 Ionawr 2024).
- Bughin, J. et al. (2018) '[Skill shift: Automation and the workforce of the future](#)', McKinsey Global Institute (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).
- Business Wales (dim dyddiad) [Pynciau a chyfarwyddyd](#), Busnes Cymru (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).
- Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2021) [Papur Brifio Tystiolaeth: Brexit a Chymru](#) (cyrchwyd: 7 Rhagfyr 2023).
- Charmaz, K. (2000) [Grounded Theory: Objectivist and Constructivist Methods](#), yn N.K. Denzin ac Y.S. Lincoln (gol.) Handbook of Qualitative Research 2nd Edition (cyrchwyd: 2 Ionawr 2024).
- Cymdeithas Alzheimer's (2021) [How many people have dementia in the UK?](#) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).
- Cymru'n Gweithio (dim dyddiad a) [Cymunedau am Waith a Mwy](#) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).
- Cymru'n Gweithio (dim dyddiad c) [ReAct+](#) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).
- Cymru'n Gweithio (dim dyddiad b) [Twf Swyddi Cymru +](#) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).
- Davies, B., Diemand-Yauman, C. a van Dam, N. (2019) 'Competitive advantage with a human dimension: From lifelong learning to lifelong employability', McKinsey Quarterly [Ailargraffiad].
- Dickerson, A. et al. (2023) [The Skills Imperative 2035: An analysis of the demand for skills in the labour market in 2035](#), Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Dickins, S. (2018) '[Automation: "1 in 3 Welsh jobs at risk by early 2030s"](#)', Newyddion BBC, 17 Ebrill (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Gyrfa Cymru (dim dyddiad) [Swyddi mewn Iechyd, Swyddi Dyfodol Cymru](#) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Gwasanaeth Ynni Cymru (2020) '[Strategaeth Ynni Gogledd Cymru](#)' (cyrchwyd: 7 Rhagfyr 2023).

Hanna, R., Heptonstall, P. a Gross, R. (2022) [Green job creation, quality, and skills: A review of the evidence on low carbon energy](#), UKERC (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Jaumotte, F. et al. (2023) [How Pandemic Accelerated Digital Transformation in Advanced Economies](#), Blog IMF Blog (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Lloyd, A. (2022) [Argyfwng gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru: beth sy'n ei achosi a beth sy'n cael ei wneud i'w ddatrys?](#), Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Lloyds Bank (2022) [UK Consumer Digital Index 2022](#) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Llywodraeth Cymru (2017) [Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol](#) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Llywodraeth Cymru (2019a) [Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi](#) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Llywodraeth Cymru (2019b) [Cymru 4.0: Cyflawni trawsnewidiad economaidd ar gyfer gwell dyfodol gwaith](#) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Llywodraeth Cymru (2019c) [Cymru'n Gweithio – Briffio i Randdeiliaid](#) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Llywodraeth Cymru (2021a) [Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026: Datganiad llesiant](#) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Llywodraeth Cymru (2021b) [Y Warrant i Bobl Ifanc](#) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Llywodraeth Cymru (2021c) [Cymru wedi ymrwymo i sero-net erbyn 2050, ond yr uchelgais yw taro'r nod yn gynt](#) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Llywodraeth Cymru (2021d) [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015: yr hanfodion](#) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Llywodraeth Cymru (2022a) [Cynllun Cyflogadwyedd](#) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Llywodraeth Cymru (2022b) [Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru](#) (Cyfrifiad 2021) (cyrchwyd: 6 Rhagfyr 2023).

Llywodraeth Cymru (2023a) [Cyfradd gyflogaeth yn ôl ardal leol yng Nghymru, blwyddyn a rhyw](#) (cyrchwyd: 6 Rhagfyr 2023).

Llywodraeth Cymru (2023b) [Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant \(NEET\)](#) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) [Cefnogaeth i'ch busnes gan Busnes Cymru](#) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Luijnenburg, O., Manthorpe, J. a Samsi, K. (2022) Skills at the heart of care: a scoping review of evidence on skills gaps in the social care workforce. King's College Llundain.

National Grid Group (2020) [Building the net zero energy workforce](#) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Notman, G. et al. (2023) [Sgiliau sero net: Mewnwelediadau a thystiolaeth o sectorau allyriadau yng Nghymru](#), Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

O'Carroll, L. (2023) '[Shortfall of 330,000 workers in UK due to Brexit, say thinktanks](#)', The Guardian, 17 Ionawr (cyrchwyd: 7 Rhagfyr 2023).

Perry, L. (2021) [Negotiating the future of work: Net-zero](#), TUC Cymru (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

PwC (2018) '[Will robots really steal our jobs? An international analysis of the potential long term impact of automation](#)' (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Salesforce (2021) [Nine in 10 U.K. Workers Must Learn New Digital Skills by 2030](#), According to New Salesforce and IDC Research, Salesforce News & Insights (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Skills for Care (dim dyddiad) '[What core skills do I need to work in social care](#)' (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Tasglu Swyddi Gwyrdd (2021) [Report to Government](#), Industry and the Skills Sector, DESNZ & DBT (cyrchwyd: 9 Chwefror 2024).

Tiwasing, P. (2021) '[Brexit and skill shortages: an empirical analysis of UK SMEs](#)', in Brexit and skill shortages: an empirical analysis of UK SMEs: Pattanapong Tiwasing, tt. 9–15 (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

WorldSkills UK (2021) [Disconnected: exploring the digital skills gap](#), WorldSkills UK (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd (2020) '[Adroddiad Cyngor Y Llwybr i Gymru Sero Net](#)', Y Pwyllgor Newid Hinsawdd (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023a) [Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth](#) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023b) [Amcangyfrifon hysbysebion swyddi ar-lein](#) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2019) [No longer optional: employer demand for digital skills](#) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Atodiad Un: Offer Ymchwil

Cyfweliadau efo staff rheoli a darparu

Cyflwyniad

1. A allech chi ddweud ychydig wrthyf am eich rôl?

Model darparu

2. A allech ddweud ychydig wrthyf am sut y caiff Cymru'n Gweithio ei darparu yn eich ardal chi?
3. Beth yw'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar ddewis lleoliadau allgymorth yn eich ardal?
4. Pa lefel o ymgysylltu ydych chi'n tueddu i'w gweld o fewn lleoliadau allgymorth, a sut mae hyn yn amrywio ar draws lleoliadau?
 - a. Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar y gwahaniaethau hyn?
5. Sut, os o gwbl, y mae eich agwedd at allgymorth wedi newid ers cyn y pandemig COVID-19? *Er enghraifft, ydych chi wedi gwneud newidiadau o ran lleoliadau, rheoleidd-dra neu hysbysebu?*
6. A yw lefelau ymgysylltu â lleoliadau allgymorth wedi newid ers cyn y pandemig COVID-19? Os felly, sut?
 - a. Beth sydd wedi ysgogi'r newidiadau hyn?
7. Pa mor effeithiol yw'r lleoliadau allgymorth presennol ar gyfer darparu gwasanaeth Cymru'n Gweithio?
 - a. A oes unrhyw feysydd sy'n gweithio'n well nag eraill? Pam?
8. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y lleoliadau presennol yn eich rhanbarth yn hawdd i gwsmeriaid eu cyrraedd? Eglurwch eich ateb.
9. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr amgylchedd(au) yn groesawgar? A oes unrhyw beth y gellid ei wneud i wneud y lleoliadau yn fwy croesawgar?

Cydleoli a Gweithio mewn Partneriaeth

10. Pa bartneriaid, os o gwbl, ydych chi'n gweithio gyda nhw yn eich ardal i gydleoli gwasanaethau?
11. Beth ddylanwadodd ar y penderfyniadau i gydleoli gyda'r partneriaid hyn?

12. A oes unrhyw bartneriaid y credwch fod cydleoli wedi bod yn arbennig o werthfawr i gwsmeriaid neu i wasanaeth Cymru'n Gweithio, naill ai o ran lefel yr ymgysylltu neu'r garfan o gwsmeriaid yr ydych wedi gallu eu cyrraedd? Os felly, sut mae hyn wedi bod yn fuddiol?
13. A oes unrhyw bartneriaid lle credwch fod cydleoli wedi bod yn llai buddiol i gwsmeriaid neu wasanaeth Cymru'n Gweithio, neu wedi arwain at ganlyniadau anfwriadol? Os felly, sut mae hyn wedi bod yn llai buddiol?
14. O'ch safbwynt chi, beth sy'n gweithio'n dda o ran y model cyflawni cyffredinol yn eich ardal chi?
15. A oes unrhyw beth sydd ddim yn gweithio neu sydd wedi bod yn heriol?

Cwmpas ac Ymgysylltiad y gwasanaeth

16. Pa weithgareddau ydych chi'n eu darparu i ymgysylltu â chwsmeriaid a chodi ymwybyddiaeth o Gymru'n Gweithio?
 - a. Pa sefydliadau neu bartneriaid lleol, os o gwbl, ydych chi'n gweithio gyda nhw i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ymhlith cwsmeriaid?
17. Pa mor effeithiol yw'r gweithgareddau hyn o ran codi ymwybyddiaeth a chyrraedd cwsmeriaid?

A yw hyn yn wahanol ar gyfer grwpiau gwahanol sy'n cyrchu Cymru'n Gweithio e.e. Pobl ifanc?

 - a. Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich barn?
18. Hyd y gwyddoch, a oes unrhyw gymunedau sydd wedi bod yn anos eu cyrraedd neu nad ydynt yn ymgysylltu â'r ddarpariaeth?

